



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 1 Chwefror 2006
Wednesday, 1 February 2006**

Cynnwys Contents

Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders	3
Diwygio Rheolau Sefydlog Revision of Standing Orders	4
Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister	5
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning	19
Datganiad Busnes Diwygiedig Revised Business Statement	34
Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 2 (Cymru) 2006—Sylweddau sy'n Teneuo'r Haen Oson Approval of Special Grant Report 2 (Wales) 2006—Ozone Depleting Substances.....	35
Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig Revised Draft Business Statement.....	40
Cymunedau yn Gyntaf Communities First	41
Polisi Celfyddydau Arts Policy.....	81
Cynnig Trefniadol Procedural Motion.....	100
Polisiau Celfyddydau: Parhad Arts Policy: Continued	101
Dadl Fer: Dyfodol Gofal Iechyd yn y Canolbarth a'r Gorllewin Short Debate: The Future of Healthcare in Mid and West Wales	119

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

Y Llywydd: Yn ôl Rheol Sefydlog Rhif 37.6, yr wyf wedi caniatáu cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog.

The Presiding Officer: In accordance with Standing Order No. 37.6, I have allowed a motion to suspend Standing Orders.

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): I propose that

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order No. 37.5:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 37.5:

suspends Standing Order No. 6.13 and that part of Standing Order No. 5.4 that requires the weekly business statement to constitute the agreed timetable for Assembly Business for the following week, to allow the no named day motion NNDM2827 tabled on 1 February 2006—for the revision of Standing Orders—to be considered in Plenary on Wednesday, 1 February 2006. (NDM2828)

yn gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6.13 a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 5.4 sy'n ei gwneud yn ofynnol mai'r datganiad busnes wythnosol yw'r amserlen gytûn ar gyfer busnes y Cynulliad yr wythnos ganlynol, i ganiatáu i'r cynnig heb ddyddiad trafod (NNDM2827) a osodwyd ar 1 Chwefror 2006—i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog—gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 1 Chwefror 2006.

Y Llywydd: Mae angen dwy ran o dair o fwyafrif i dderbyn y cynnig.

The Presiding Officer: A two-thirds majority is required for the motion to be carried.

*Cynnig (NDM2828): O blaid 21, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2828): For 21, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Davies, Glyn
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Hart, Edwina
Idris Jones, Denise
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri

Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Thomas, Catherine
Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Diwygio Rheolau Sefydlog Revision of Standing Orders

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): I propose that
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Cynigiau fod

the National Assembly acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 37:

y Cynulliad Cenedlaethol gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 37:

1. considers the report of the Business Committee, which was e-mailed to Members and laid in the Table Office on 1 February 2006; and

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a e-bostiwyd at yr Aelodau ac a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2006; a

2. approves the amendment to Standing Orders set out in the report of the Business Committee. (NNDM2827)

2. yn cymeradwyo'r diwygiad i'r Rheolau Sefydlog a amlinellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Busnes. (NNDM2827)

*Cynnig (NDM2827): O blaid 21, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2827): For 21, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Davies, Glyn
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Hart, Edwina
Idris Jones, Denise
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Thomas, Catherine
Thomas, Rhodri Glyn

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister

Defnyddio Ymgynghorwyr Allanol The Use of Outside Consultants

Q1 Glyn Davies: Will the Minister make a statement on the use of outside consultants by local authorities? OAQ0612(LGP)

C1 Glyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio ymgynghorwyr allanol gan awdurdodau lleol? OAQ0612(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): Deciding whether or not to hire consultants is a matter for individual local authorities.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Penderfyniad awdurdodau lleol unigol yw defnyddio ymgynghorwyr neu beidio.

Glyn Davies: I have always thought that we should make sensible use of private consultants whenever possible to deliver public services. I am pleased to see that the Brecon Beacons National Park and others are using private consultants to deliver development control. Do you accept that it is the right policy to set aside any ideology, and, where it is sensible, to use the private sector to help the public sector to deliver public services?

Glyn Davies: Yr wyf o'r farn erioed y dylem wneud defnydd synhwyrol o ymgynghorwyr preifat lle bynnag y bo'n bosibl i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yr wyf yn falch gweld bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac eraill yn defnyddio ymgynghorwyr preifat i reoli datblygiadau. A ydych yn derbyn mai'r polisi cywir yw rhoi unrhyw ideoleg o'r neilltu, a lle mae hynny'n synhwyrol, i ddefnyddio'r sector preifat i helpu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus?

Sue Essex: I do not think that it is a question of ideology. As I said, it is up to local authorities and others, including, as you mentioned, the Brecon Beacons National Park, to decide what they should do for the best. I would say that there are three particular roles for consultants. The first is where local authorities do not have that area of expertise, and it makes sense to buy it in. The second is when consultants can give an independent opinion to a local authority, and perhaps to the public—and public perception is important. Thirdly, I am sure that we would all recognise that the scale and nature of some projects are such that local authorities would do best to buy in the capacity to complete them, as they do not have it themselves. Therefore, I think that those are the most common times—though I do not say that they are exclusive—when it makes sense to use consultants. Unfortunately, local authorities sometimes get castigated for doing so, and we are all familiar with the headlines about public money wasted on consultancy and so on, although it may be good value for money.

Sue Essex: Ni chredaf ei fod a wnelo ag ideoleg. Fel y dywedais, cyfrifoldeb awdurdodau lleol ac eraill, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fel yr oeddech yn sôn, yw penderfynu'r hyn sydd orau iddynt. Byddwn yn dweud bod gan ymgynghorwyr dair rôl benodol. Y cyntaf yw lle nad oes gan awdurdodau lleol arbenigedd yn y maes hwnnw, a lle mae'n gwneud synnwyr i'w brynu. Yr ail yw lle gall ymgynghorwyr roi barn annibynnol i awdurdod lleol, ac efallai i'r cyhoedd—ac mae canfyddiad y cyhoedd yn bwysig. Yn drydydd, yr wyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn cydnabod bod maint a natur rhai prosiectau yn golygu y byddai'n well i awdurdodau lleol brynu'r gallu i'w cwblhau, gan nad ydynt yn meddu ar y gallu hwnnw eu hunain. Felly, credaf mai dyna'r adegau mwyaf cyffredin—er nad dyna'r unig adegau—lle mae'n gwneud synnwyr i ddefnyddio ymgynghorwyr. Yn anffodus, weithiau caiff awdurdodau lleol eu ceryddu am wneud hynny, ac yr ydym oll yn gyfarwydd â'r penawdau am wastraffu arian cyhoeddus ar wasanaethau ymgynghori ac

ati, er y gall roi gwerth da am yr arian.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, yr oeddech yn sôn am ymgynghorwyr yn cynnig barn annibynnol, ond a dderbyniwch, yng nghyd-destun Cymru, nad yw hynny bob amser yn fanteisiol? Yr wyf yn meddwl yn arbennig am yr hyn a ddigwyddodd yn sir Gaerfyrddin pan gafwyd ymgynghorwyr allanol i roi cyngor a chanllawiau am benodi cyfarwyddwr addysg. Er hynny, penderfynwyd nad oedd medru'r Gymraeg yn hanfodol i'r swydd honno, er bod cymaint o addysg yno drwy gyfrwng y Gymraeg ac er bod y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y sir honno?

Rhodri Glyn Thomas: Minister, you were talking about consultants offering an independent view, but do you accept that that is not always beneficial as far as Wales is concerned? I am thinking specifically about what happened in Carmarthenshire when an external consultant was asked to give advice and guidance on the appointment of a director of education. However, it was decided that knowledge of the Welsh language was not essential to the post, despite the fact that so much education is provided through the medium of Welsh there, and that the majority of Welsh speakers live in the county?

Sue Essex: I cannot comment on that, because I did not see the advice. I am not sure whether you are alluding to this, but, if you go out for independent consultants' advice, you have to accept that they are doing their job, whether you want to hear what they say or not. That is the point of doing it, is it not? It does not mean that an authority or agency has to accept it, but the independent advice is at least there, and open for everyone to see.

Sue Essex: Ni allaf wneud sylw ar hynny, oherwydd ni welais y cyngor. Nid wyf yn siŵr a ydych yn cyfeirio at hynny, ond os ydych penderfynwch geisio cyngor gan ymgynghorwyr annibynnol, rhaid ichi dderbyn eu bod yn gwneud eu gwaith, p'un a ydych am glywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud neu beidio. Onid dyna'r diben? Nid yw'n golygu bod yn rhaid i awdurdod neu asiantaeth ei dderbyn, ond o leiaf mae'r cyngor annibynnol yno, ac ar gael i bawb ei weld.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ0553(LGP), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 2, OAQ0553(LGP), has been withdrawn.

Mynediad i Adeiladau Llywodraeth Leol Access to Local Government Buildings

Q3 Laura Anne Jones: How is the Minister ensuring that local government buildings are accessible to disabled people? OAQ0610(LGP)

C3 Laura Anne Jones: Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod adeiladau llywodraeth leol yn hwylus i bobl anabl eu defnyddio? OAQ0610(LGP)

Sue Essex: Local authorities must meet their duties on access to buildings under the Disability Discrimination Act 2005. They can obtain support and advice from the Welsh Local Government Association's equalities unit, the Disability Rights Commission, and other sources.

Sue Essex: Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau o ran mynediad i adeiladau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005. Gallant geisio cymorth a chynghor gan uned cydraddoldebau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiwn Hawliau Anabledd, a ffynonellau eraill.

Laura Anne Jones: Equality should not be an added-on policy; it should be a core part of Assembly Government and local government policy throughout Wales. How

Laura Anne Jones: Ni ddylai cydraddoldeb fod yn bolisi ychwanegol; dylai fod yn rhan graidd o bolisi Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol ledled Cymru. Sut yr ewch

do you ensure that the right attitude is adopted by local authorities, and that the basic needs of those with disabilities—be they hard of hearing, visually impaired or physically disabled—are met in terms of accessibility to buildings? This is especially important as we are trying to make government more open and accessible.

Sue Essex: We were in our new building yesterday afternoon, and that is a good example of the efforts made to secure a building that is accessible to all. This starts at the design stage when it comes to new buildings, but local authorities, along with many other public agencies, have an asset register full of buildings built well before the Disability Discrimination Act was thought of. It is those buildings which pose the biggest challenge.

In terms of what we are doing, the huge increase that we have provided in capital money helps local authorities, as many of them must have a programme of bringing their buildings up to the required standard. Jane Hutt, under her work as Minister with responsibility for equalities, has set up the accessible venues programme for Wales, which is a working group of people who support each other to ensure that accessibility becomes a core issue. I will also quickly mention the grant money that we provided to local authorities to make polling stations accessible for the last election. That was extremely important.

Peter Black: As you say, the biggest challenge facing local authorities is in existing buildings, especially if they are listed. However, the other challenge that they face is in relation to the massive backlog of repair and improvement work in schools. Whenever local authorities have to repair, build, amalgamate or renovate a school they must take into account the additional cost visited upon them by the DDA. In terms of the amount of money available to local authorities under the school buildings grant, will those requirements be taken into account, so that they have that additional resource to make schools fit for purpose?

ati i sicrhau bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r agwedd gywir, a bod anghenion sylfaenol pobl ag anableddau—boed yn drwm eu clyw, â nam ar eu golwg neu'n anabl yn gorfforol—yn cael eu diwallu o ran hwylustod adeiladau? Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth inni geisio sicrhau bod llywodraeth yn fwy agored a hygyrch.

Sue Essex: Yr oeddem yn ein hadeilad newydd brynhawn ddoe, ac mae hwnnw'n enghraifft dda o'r ymdrechion a wnaed i sicrhau adeilad sy'n hwylus i bawb. Mae hyn yn dechrau yn y cam cynllunio o ran adeiladau newydd, ond mae gan awdurdodau lleol, ynghyd â nifer o asiantaethau cyhoeddus eraill, gofrestr asedau sy'n llawn adeiladau wedi eu codi ymhell cyn meddwl am y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Yr adeiladau hynny sy'n achosi'r her fwyaf.

O ran yr hyn yr ydym yn ei wneud, mae'r cynnydd sylweddol a roddwyd gennym mewn arian cyfalaf yn helpu awdurdodau lleol, gan fod yn rhaid i nifer ohonynt lunio rhaglen i sicrhau bod eu hadeiladau'n cyrraedd y safon ofynnol. Mae Jane Hutt, yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldebau, wedi sefydlu'r rhaglen lleoliadau hwylus ar gyfer Cymru, sef gweithgor o bobl sy'n cynorthwyo'i gilydd i sicrhau bod hwylustod yn dod yn fater craidd. Hoffwn hefyd sôn yn gyflym am yr arian grant a roddwyd gennym i awdurdodau lleol i sicrhau bod gorsafoddd pleidleisio yn hwylus ar gyfer yr etholiad diwethaf. Yr oedd hynny'n bwysig iawn.

Peter Black: Fel y dywedwch, yr her fwyaf sy'n wynebu awdurdodau lleol yw adeiladau presennol, yn enwedig os ydynt wedi'u rhestru. Fodd bynnag, un her arall y maent yn ei hwynebu yw'r holl waith atgyweirio a gwella mewn ysgolion sydd wedi crynhoi. Pryd bynnag y mae'n rhaid i awdurdodau lleol atgyweirio, adeiladu, cyfuno neu adnewyddu ysgol, rhaid iddynt ystyried y gost ychwanegol yn sgîl y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. O ran y swm sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan y grant adeiladau ysgolion, a fydd y gofynion hynny'n cael eu hystyried i sicrhau bod yr adnodd ychwanegol hwnnw ar gael iddynt i wneud ysgolion yn addas at y diben?

Sue Essex: As you say, many of our schools are old, and disabled access is a crucial point in terms of improvement. I understand where you are coming from. I have been involved in some detailed discussions with local authorities looking at where their building programmes are going. With regard to the opportunity to look at reconfiguration and, in some cases, new build, we know that many local authorities are using that to build new schools. That is great, because you then have the opportunity to put all these things in. You are right to point out that education buildings must be at the fore of this programme.

Ann Jones: Your comments about the money that we put in to make polling stations more accessible for disabled people are welcome, and demonstrate our commitment to valuing all members of society. Will you go a step further, and suggest to electoral returning officers that they should be assessing the needs of disabled people, or those with special needs of any description, in their electoral registration forms? In that way they can assess how to spend their money.

Sue Essex: That is an interesting idea. I should point out Wales was the only part of the UK where such money was provided, and that helped. We have an electoral forum, which is the appropriate place to discuss that issue. I will follow that suggestion up, and ensure that it is put before the forum.

Sue Essex: Fel y dywedwch, mae llawer o'n hysgolion yn hen, ac mae mynediad i'r anabl yn bwynt hollbwysig o ran gwelliant. Deallaf eich pwynt. Bùm yn rhan o drafodaethau manwl gydag awdurdodau lleol am gyfeiriad eu rhaglenni adeiladu. O ran y cyfle i edrych ar ail-gyflunio, ac mewn rhai achosion i adeiladu o'r newydd, gwyddom fod llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio hynny i adeiladu ysgolion newydd. Mae hynny'n beth da, oherwydd cewch gyfle wedyn i gynnwys yr holl bethau hyn. Yr ydych yn llygad eich lle wrth egluro bod yn rhaid i adeiladau addysg fod yn amlwg yn y rhaglen hon.

Ann Jones: Croesewir eich sylwadau am yr arian yr ydym yn ei roi i sicrhau bod gorsafodded pleidleisio yn fwy hwylus i bobl anabl, ac mae'n dangos ein hymrwymiad i werthfawrogi pob aelod o gymdeithas. A ewch gam ymhellach, ac awgrymu wrth swyddogion canlyniadau etholiadol y dylent fod yn asesu anghenion pobl anabl, neu bobl sydd ag anghenion arbennig o unrhyw fath, yn eu ffurflenni cofrestru etholiadol? Drwy wneud hynny, gallant asesu sut i wario'u harian.

Sue Essex: Mae hynny'n syniad diddorol. Dylwn egluro mai Cymru oedd yr unig ran o'r DU lle darparwyd arian felly, ac yr oedd hynny o gymorth. Mae gennym fforwm etholiadol, a dyna'r lle priodol i drafod y mater hwnnw. Mi af ar ôl yr awgrym hwnnw, gan sicrhau y caiff ei gyflwyno gerbron y fforwm.

Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus Public Service Improvement

Q4 Denise Idris Jones: What action is the Minister taking to encourage joint working in the interests of public service improvement? OAQ0551(LGP)

C4 Denise Idris Jones: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog cydweithio er mwyn gwella gwasanaeth cyhoeddus? OAQ0551(LGP)

2.10 p.m.

Sue Essex: The Assembly Government is actively engaged in joint working initiatives such as the £9 million 'Making the Connections' improvement fund, which I announced last December, building on the work of the procurement unit and Value Wales over the past few years.

Sue Essex: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau gweithio ar y cyd, fel y gronfa wella 'Creu'r Cysylltiadau' gwerth £9 miliwn a gyhoeddais fis Rhagfyr diwethaf, gan adeiladu ar waith yr uned gaffael a Gwerth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Denise Idris Jones: Do you agree that maximising the benefits of public investment in Wales means greater partnership working across all sectors in Wales, including public service delivery? Do you also agree that encouraging regional innovation in this area is an essential part of bringing about better government for people across Wales?

Sue Essex: That is absolutely right. Everything that you said is core to the delivery of 'Making the Connections'. One of the great things is the way in which the agenda has moved on. I will single out local government, because local government has taken and led the initiative of setting up the regional consortia. North Wales, on your patch, is moving on apace. I will be there tomorrow, talking to people about the regional collaboration. This agenda is enormous, and it makes sense in terms of using resources, financial and human. However, it will have to be worked at and thought through because, as we all know, there are some constraints and barriers within partnerships.

Alun Ffred Jones: O ran gwastraffu adnoddau, mae'n siŵr mai un o'r penderfyniadau rhyfeddaf a wnaethpwyd yn ddiweddar oedd hwnnw i sefydlu'r 22 bwrdd iechyd lleol. Fel rhan o raglen 'Creu'r Cysylltiadau', a oes bwriad i gyfuno byrddau iechyd lleol a chynghorau sir yng nghydestun adnoddau neu weinyddiaeth?

Sue Essex: I am surprised that you say that, because the purpose of choosing 22 boards was to marry them with the 22 local authorities. On your patch in Gwynedd, the local health board works with the council to deal with some of the tricky issues related to integrated social care provision. I refer you to Jeremy Beecham's review of effective public service delivery, which, obviously, covers health. We will wait to see what he brings forward.

David Melding: Minister, you have probably heard that Rhondda Cynon Taf is today launching a television campaign to recruit

Denise Idris Jones: A gytunwch fod sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran buddsoddiad cyhoeddus yng Nghymru yn golygu mwy o weithio mewn partneriaeth ar draws pob sector yng Nghymru, gan gynnwys darparu gwasanaethau cyhoeddus? A gytunwch hefyd fod annog arloesedd rhanbarthol yn y maes hwn yn rhan hanfodol o ddarparu llywodraeth well i bobl ledled Cymru?

Sue Essex: Mae hynny'n hollol wir. Mae popeth a ddywedwch yn greiddiol i ddarparu 'Creu'r Cysylltiadau'. Un o'r pethau da yw'r ffordd y mae'r agenda wedi symud yn ei blaen. Hoffwn dynnu sylw at lywodraeth leol yn arbennig, gan fod llywodraeth leol wedi cymryd ac wedi arwain y fenter o sefydlu'r consortia rhanbarthol. Mae Gogledd Cymru, eich ardal chi, yn mynd o nerth i nerth. Byddaf yno yfory, yn siarad â phobl ynglŷn â chydweithio rhanbarthol. Mae'r agenda hon yn anferth, ac mae'n gwneud synnwyr o ran defnyddio adnoddau ariannol a dynol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid gweithio arni a'i hystyried yn ofalus oherwydd, fel y gwyddom, mae yna rai cyfyngiadau a rhwystrau mewn partneriaethau.

Alun Ffred Jones: On the subject of wasting resources, surely one of the most surprising decisions taken in recent years was that to establish the 22 local health boards. As part of the 'Making the Connections' programme, is it your intention to combine the resources or administration of the local health boards with those of county councils?

Sue Essex: Yr wyf yn synnu eich bod yn dweud hynny, gan mai pwrpas dewis 22 o fyrddau oedd eu cyfateb i'r 22 o awdurdodau lleol. Yn eich ardal chi yng Ngwynedd, mae'r bwrdd iechyd lleol yn gweithio gyda'r cyngor i ymdrin â rhai o'r materion dyrys sy'n gysylltiedig ag integreiddio'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Fe'ch cyfeiriau at adolygiad Jeremy Beecham o'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, sy'n amlwg yn cwmpasu iechyd. Arhoswn i weld beth fydd ei sylwadau.

David Melding: Weinidog, yr ydych wedi clywed, fwy na thebyg, fod Rhondda Cynon Taf yn lansio ymgyrch deledu heddiw i

foster carers as part of a wider regional effort that involves the co-operation of other authorities. I hope that this will succeed. It is an excellent attempt at resolving a strategic problem and it pools resources in a way that allows you to consider something as ambitious as television advertising. This sort of clever joint working on a regional basis is what we should we encourage.

Sue Essex: I have not seen that advertisement, so thank you for alerting me to it. We were talking only a few weeks ago about how to promote foster care and work together on that. You have identified an important area. 'Making the Connections' relates to back-room services, for example, debuting joint pay-roll schemes and so on. However, with some of the improvements in delivery, collaboration means that funds can be pulled together and many more people will be reached than would have been the case with one authority working on its own. We know that there is a shortage of quality foster carers, and that is a good example.

recriwtio gofalwyr maeth fel rhan o ymdrech ranbarthol ehangach sy'n cynnwys cydweithrediad awdurdodau eraill. Gobeithio y bydd yr ymgyrch hon yn llwyddo. Mae'n ymgais wych i geisio datrys problem strategol, ac mae'n crynhoi adnoddau mewn ffordd sy'n eich galluogi i ystyried rhywbeth mor uchelgeisiol â hysbysebu ar y teledu. Dyma'r math o gydweithio clyfar ar sail ranbarthol y dylem ei annog.

Sue Essex: Nid wyf wedi gweld yr hysbyseb honno, felly, diolch am fy hysbysu. Dim ond ychydig wythnosau sydd ers inni drafod sut i hyrwyddo gofal maeth a chydweithio yn y maes hwnnw. Yr ydych wedi enwi maes pwysig. Mae 'Creu'r Cysylltiadau' yn ymwneud â gwasanaethau ystafell gefn, er enghraifft, cyflwyno cynlluniau cyflogres ar y cyd, ac ati. Fodd bynnag, gyda rhai o'r gwelliannau wrth gyflwyno, mae'r broses gydweithio yn golygu y gellir cyfuno cyllid a sicrhau bod llawer mwy o bobl yn cael eu cynnwys nag a fyddai pe bai un awdurdod yn gweithio ar ei ben ei hun. Gwyddom fod prinder gofalwyr maeth o safon, ac mae hynny'n enghraifft dda.

Y Dreth Gyngor Council Tax

Q5 Leanne Wood: What recent discussions has the Minister had with local government regarding council tax? OAQ0554(LGP)

C5 Leanne Wood: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael yn ddiweddar gyda llywodraeth leol ynghylch y dreth gyngor? OAQ0554(LGP)

Sue Essex: I have regular meetings with local government representatives at which a wide range of issues are discussed including council tax. Following the announcement of the final settlement in December, councils in Wales are now in the process of determining their budgets for 2006-07.

Sue Essex: Byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol, lle caiff amrywiaeth eang o faterion eu trafod, gan gynnwys y dreth gyngor. Yn dilyn cyhoeddi'r setliad terfynol ym mis Rhagfyr, mae cynghorau yng Nghymru bellach wrthi yn gosod eu cyllidebau ar gyfer 2006-07.

Leanne Wood: I am sure that you are aware of the recent research carried out by the University of Warwick that found that people on low incomes pay a greater proportion of that income in council tax than those on higher incomes, even after benefits and discounts have been taken into consideration. Can you confirm that New Labour has given up any pretence of being in favour of progressive taxation?

Leanne Wood: Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'r ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Warwick, a ddarganfu fod pobl ar incwm isel yn talu cyfran fwy o'r incwm hwnnw fel treth gyngor na phobl ar incwm uwch, hyd yn oed ar ôl ystyried budd-daliadau a disgowntiau. A allwch gadarnhau bod Llafur Newydd wedi rhoi'r gorau i unrhyw ymholiad ei bod o blaid trethiant cynyddol?

Sue Essex: I cannot answer for the Chancellor, so perhaps some of your colleagues in London could put that question to him. You will know, Leanne, that while we have a property tax, I am committed to making sure that the benefit system protects those on low incomes. These people should be able to claim those benefits, and I am not referring only to those within the existing regime.

Sue Essex: The benefit should be able to be extended to capture more people. The evidence shows that many old-age pensioners on low and fixed incomes are still not claiming the benefit, and I have made it a goal to improve on that. You will recall the debates before Christmas about what we might do to increase take-up.

Jenny Randerson: Minister, what do you think will be the average council tax increase in Wales this year? The Vale of Glamorgan County Borough Council has announced an increase of about 6 per cent, and Cardiff is consulting on 4.9 per cent. Last year you threatened to cap authorities that went above your limit; do you propose to intervene and cap this year if necessary? Can you clarify on what basis you will intervene? What will be your criteria for a council tax that is, in your view, too high?

Sue Essex: I am not sure that the figure that you gave for the Vale is correct. When we did the settlement a few weeks ago, the figures I got from local authorities were between 3 and 5 per cent. We will have to wait and see. It is too early to tell. Local authorities are going through various scenarios now. Last year, I did what I did on the basis of where I believed councils were using revaluation unreasonably as a way of putting up council tax levels. I was concerned about that, and that is why I stepped in and consulted on the principles. As it happened, we did not have to take it any further, because most local authorities sat down and realised that putting through unreasonable council tax increases is not popular. In the end, we had a very reasonable arrangement. It is too early to say what will happen this

Sue Essex: Ni allaf ateb ar ran y Canghellor, felly, efallai y gallai rhai o'ch cyd-aelodau yn Llundain ofyn y cwestiwn hwnnw iddo. Fel y gwyddoch, Leanne, tra mae gennym dreth eiddo yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y system budd-daliadau'n diogelu pobl ar incwm isel. Dylai'r bobl hynny fod yn gallu hawlio'r budd-daliadau hynny, ac nid at y rheini o fewn y gyfundrefn bresennol yn unig yr wyf yn cyfeirio.

Sue Essex: Dylid gallu ymestyn y budd-dal i gynnwys mwy o bobl. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod nifer o bensiynwyr sydd ar incwm isel a sefydlog yn dal i fethu hawlio'r budd-dal, ac mae'n fwriad gennyf wella ar hynny. Byddwch yn cofio'r dadleuon cyn y Nadolig am yr hyn y gallem ei wneud i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y budd-daliadau hyn.

Jenny Randerson: Weinidog, yn eich barn chi, faint fydd y cynnydd mewn treth gyngor ar gyfartaledd yng Nghymru eleni? Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg wedi cyhoeddi cynnydd o tua 6 y cant, ac mae Caerdydd yn ymgynghori am 4.9 y cant. Y llynedd, yr oeddech yn bygwth capio awdurdodau a oedd yn mynd yn uwch na'ch terfyn; a ydych yn bwriadu ymyrryd a chapio eleni os bydd angen? A allwch egluro ar ba sail y byddwch yn ymyrryd? Beth fydd eich meini prawf ar gyfer treth gyngor sydd, yn eich barn chi, yn rhy uchel?

Sue Essex: Nid wyf yn siŵr a yw'r ffigur a roddwyd gennych ar gyfer y Fro yn gywir. Pan benderfynwyd y setliad rai wythnosau'n ôl, yr oedd y ffigurau a gefais gan awdurdodau lleol rhwng 3 a 5 y cant. Bydd yn rhaid inni aros i weld. Mae'n rhy gynnar i allu dweud. Mae awdurdodau lleol wrthi'n ystyried y sefyllfaoedd posibl. Y llynedd, gwneuthum yr hyn a wneuthum ar sail achosion lle yr oeddwn o'r farn fod cynghorau'n defnyddio'r broses ailbrisiu yn afresymol fel ffordd i gynyddu'r dreth gyngor. Yr oeddwn yn pryderu am hynny, a dyna pam yr ymyrrais ac ymgynghori am yr egwyddorion. Fel y digwyddodd, ni fu'n rhaid inni fynd ymhellach, gan fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sylweddoli nad yw cynnyddu'r dreth gyngor yn afresymol yn boblogaidd. Yn y pen draw, cawsom

year. However, my starting point is that it is for local authorities to set that tax. I have no wish to intervene. I do not regret doing what I did, and I am watching the situation closely, but the primary responsibility lies with local authorities and they must be accountable to their council tax payers. Since last year, I think that there has been a realisation from some of my colleagues that there is a limit to how much you can put up council tax without a fair justification.

Karen Sinclair: Do you agree that the responsible way to ensure a stable future for Welsh Government is to explore better ways of sharing services and resources, and better co-operation between councils? Many years ago, reorganisation was aimed at ensuring close collaboration between councils, although, sadly, that never happened. Do you agree that it would be disastrous for local tax payers if you took on board the advice of the leader of the Welsh Liberal Democrat group, Michael German, yesterday, that local councils should spend as much as they like, forcing local tax payers to pay the bill?

Sue Essex: I cannot believe that anyone would say that. I have not seen the transcript, but I take your word for it that that was what said. Your point is an important one. I know that there are spending pressures on councils, but councillors cannot automatically place things on the council tax. There are ways of making savings, and efficiencies that can enable authorities to continue service delivery without having to ratchet up the council tax. The interesting thing about the 'Making the Connections' agenda, which Denise raised, is that there was some debate in here around the 1 per cent efficiency savings, but it seems that, across the board, local authorities are achieving more than that. I am delighted by that, because they have obviously taken this agenda on board. They can reinvest that money in their front-line services, which is good news for those receiving services and for council tax payers.

drefniant rhesymol iawn. Mae'n rhy gynnar i ddweud beth fydd yn digwydd eleni. Fodd bynnag, fy mhwynt cychwynnol yw mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw pennu'r dreth honno. Nid wyf yn dymuno ymyrryd. Nid wyf yn edifar imi wneud yr hyn a wneuthum, ac yr wyf yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa. Ond yr awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb pennaf, a rhaid iddynt fod yn atebol i bobl sy'n talu treth gyngor. Ers y llynedd, credaf fod rhai o'm cyd-Aelodau wedi sylweddoli bod yna derfyn ar faint y gallwch gynyddu'r dreth gyngor heb gyfiawnhad teg.

Karen Sinclair: A gytunwch mai'r ffordd gyfrifol i sicrhau dyfodol sefydlog i Lywodraeth Cymru yw archwilio ffyrdd gwell i rannu gwasanaethau ac adnoddau, a gwell cydweithredu rhwng cynghorau? Flynnyddoedd yn ôl, nod ad-drefnu oedd sicrhau cydweithredu agos rhwng cynghorau, ond ni ddigwyddodd hynny, gwaetha'r modd. A gytunwch y byddai'n drychinebus i drethdalwyr lleol pe baech yn ystyried cyngor arweinydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Michael German, ddoe, sef y dylai cynghorau lleol wario cymaint o arian ag y dymunant, gan orfodi trethdalwyr lleol i dalu'r bil?

Sue Essex: Ni allaf gredu y byddai neb yn dweud hynny. Nid wyf wedi gweld y trawsgripiad, ond cymeraf eich gair mai dyna a ddywedwyd. Mae eich pwynt yn un pwysig. Gwn fod pwysau gwariant ar gynghorau, ond ni all cynghorwyr ychwanegu pethau'n awtomatig at y dreth gyngor. Mae yna fyrdd i arbed arian ac i sicrhau arbedion a all alluogi awdurdodau i barhau i ddarparu gwasanaethau heb orfod cynyddu'r dreth gyngor. Y peth diddorol ynglŷn ag agenda 'Creu'r Cysylltiadau', a gododd Denise, yw bod rhywfaint o drafod wedi bod yma ynghylch yr arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant. Ond ymddengys fod awdurdodau lleol yn cyflawni mwy na hynny, yn gyffredinol. Yr wyf yn falch iawn o hynny, gan eu bod yn amlwg wedi ystyried yr agenda hon. Gallant ailfuddsoddi'r arian hwnnw yn eu gwasanaethau rheng flaen, sy'n newyddion da i'r rheini sy'n cael gwasanaethau ac i bobl sy'n talu treth gyngor.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi cyfeirio at arbedion effeithlonrwydd. Ar y naill law, mae'n dweud mai mater i awdurdodau lleol a democratiaeth leol yw penderfynu ar lefel y dreth gyngor, a pha wasanaethau a ddarperir, ond eto mae'r Llywodraeth yn ymyrryd drwy ddweud yn glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol gadw codiadau yn y dreth gyngor o fewn ystod penodol, a bod yn rhaid iddynt wneud arbedion effeithlonrwydd hefyd. Onid yw'r Gweinidog yn derbyn, mewn awdurdodau cymharol fach fel Ynys Môn, bod y ddau gyfyngiad yna yn ei gwneud yn anodd iawn i'r cyngor sicrhau nad yw gwasanaethau pwysig yn cael eu cwtdogi?

2.20 p.m.

Sue Essex: The efficiency savings that we required were in the context of the revenue support grant, so that is money that we are supplying as a Government. Therefore, it is perfectly fair that we do that. I appreciate the difficulties of Ynys Môn. It is one of the councils that are dear to my heart, because it is a small local authority, and I know how hard it is for it to provide the quality of services that it wants to provide. That is why, interestingly enough, it really has taken up the efficiency agenda. As you know, in north Wales, local authority chief executives are working closely together, sharing out the responsibility for taking forward agendas under 'Making the Connections'. Clearly, for Ynys Môn, probably of all the councils, and perhaps Denbighshire, which is also small in number, that agenda is critically important.

Ieuan Wyn Jones: Y pwynt yr wyf yn ceisio'i wneud yw hyn: os ydym am gael yr arbedion hyn—yr wyf yn derbyn pwynt y Gweinidog ar un lefel—bob blwyddyn, ac y bydd cyfyngiad ynglŷn â lefelau'r dreth gyngor y bydd cynghorau'n gallu eu codi oherwydd sylwadau'r Gweinidog, yr hyn sy'n fy mhoeni yw mai'r ddau brif wasanaeth a fydd yn dioddef, gan mai dyna lle mae'r gwariant mwyaf mewn cyngor bach fel Ynys Môn, yw addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Golyga hynny—a bydd y Gweinidog yn cofio'r trafodaethau a gawsom

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): I am glad that the Minister referred to efficiency savings. On the one hand, she says that it is for local authorities and local democracy to decide council tax levels, and what services will be provided. Yet the Government interferes by clearly stating that authorities must keep council tax increases within a certain range, and that they must also make efficiency savings. Does the Minister not accept that, in comparatively small authorities such as Ynys Môn, those two constraints make it very difficult for the council to ensure that important services are not cut?

Sue Essex: Yr oedd yr arbedion effeithlonrwydd y gofynnwyd amdanynt yng nghyd-destun y grant cynnal refeniw, felly, mae hynny'n arian yr ydym yn ei ddarparu fel Llywodraeth. Felly, mae'n gwbl deg inni wneud hynny. Yr wyf yn deall anawsterau Ynys Môn. Mae'n un o'r cynghorau sy'n agos at fy nghalon, am ei fod yn awdurdod lleol, bach a gwn mor anodd yw iddo ddarparu gwasanaethau o'r safon y mae am ei darparu. Dyna pam, yn ddi-ddorol iawn, y mae wedi ystyried yr agenda effeithlonrwydd o ddifrif. Fel y gwyddoch, yn y gogledd mae prif weithredwyr yr awdurdodau lleol yn cydweithio'n agos, yn rhannu'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo agendâu o dan 'Creu'r Cysylltiadau'. Yn amlwg, i Ynys Môn, fwy na'r cynghorau eraill, mae'n debyg, ac i sir Ddinbych efallai, sydd hefyd yn fach o ran nifer, mae'r agenda honno'n eithriadol o bwysig.

Ieuan Wyn Jones: The point I am trying to make is this: if we are to make these savings—I accept the Minister's point on one level—every year, and if there is this constraint on the council tax levels that councils can set because of the Minister's comments, what concerns me is that the two main services that will suffer, because that is where the greatest expenditure is in a small council such as Ynys Môn, will be education and social services. That will mean—the Minister will recall the discussions we have had on the budget on this issue—that the

dros y gyllideb ynglŷn â hyn—y bydd y Gweinidog yn gorfod derbyn, dan yr amgylchiadau arbennig yr ydym ynddynt, y bydd y ddau wasanaeth hynny yn dioddef.

Sue Essex: Clearly, they are the big two services in local authorities, in terms of the budget. On the education budget, as you will know, I am pretty sure that every local authority in Wales is in this situation of reviewing its provision, purely because of the change in demography and the downward change in pupil numbers. The issue of social services is, again, interesting, because many of the drivers of the increase in social services deal with issues such as looked-after children and out-of-county placements. This is one of the prime areas where we are looking at collaboration.

If you talk to local authorities, they will specifically worry about those areas that are volatile, as many of those social services areas are. The collaborative agenda is key, for all of them, to manage the demands on their budget better and to look at provision. This is one of the most important areas that Welsh local government is taking forward. I would also mention the point that David made on fostering, which is again very important for local authorities and social services; it is an absolutely prime example for collaboration.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): The Minister has spoken about the responsibility of local government for setting the council tax level, which I accept in one sense—it is its legal obligation—but that is, to a large extent, determined by the amount of money that it gets from the Assembly Government. I am concerned that, ever since Labour came to power, the average increase in Wales has far exceeded the rate of inflation. If you just take this year in Powys—an area that I represent—the council tax increase is going to be 4.95 per cent. At the same time, it is bringing in service cuts of nearly £5 million. There is a great danger of labelling those as efficiency savings, because some of them, quite clearly, are not. I can see the Minister nodding. What is the Minister doing to address the problem of councils being unable

Minister will have to accept, given the special circumstances under which we are operating, that those two services will suffer.

Sue Essex: Yn amlwg, dyna'r ddau brif wasanaeth mewn awdurdodau lleol, o ran y gyllideb. O ran y gyllideb addysg, fel y gwyddoch, yr wyf yn eithaf ffyddiog fod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gorfod adolygu ei ddarpariaeth, yn unig oherwydd y newid demograffig a'r gostyngiad yn nifer y disgyblion. Unwaith eto, mae mater gwasanaethau cymdeithasol yn ddi-ddorol, gan fod nifer o'r ffactorau a arweiniodd at y cynnydd mewn gwasanaethau cymdeithasol yn ymdrin â materion megis plant sy'n cael gofal, a lleoliadau y tu allan i'r sir. Dyna un o'r prif feysydd lle yr ydym yn ystyried cydweithredu.

Os siaradwch ag awdurdodau lleol, byddant yn pryderu'n benodol am y meysydd hynny sy'n fregus, ac mae hynny'n wir am nifer o feysydd gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r agenda gydweithredol yn allweddol, i bob un ohonynt, i reoli'r galw ar eu cyllideb yn well ac i edrych ar ddarpariaeth. Dyna un o'r meysydd pwysicaf y mae llywodraeth leol Cymru yn eu datblygu. Hoffwn sôn hefyd am y pwynt a wnaeth David am faethu, sydd eto'n bwysig iawn i awdurdodau lleol a gwasanaethau cymdeithasol; mae'n enghraifft wych ar gyfer cydweithredu.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Mae'r Gweinidog wedi siarad am gyfrifoldeb llywodraeth leol i osod lefel y dreth gyngor, a derbyniaf hynny i raddau—dyna yw ei rhwymedigaeth gyfreithiol—ond i raddau helaeth pennir y lefel honno gan faint o arian a gaiff gan Lywodraeth y Cynulliad. Yr wyf yn pryderu, ers i Lafur ddod i rym, fod y cynnydd ar gyfartaledd yng Nghymru wedi bod lawer yn uwch na chwyddiant. Os ystyriwch eleni ym Mhowys—ardal yr wyf yn ei chynrychioli—bydd y cynnydd yn y dreth gyngor yn 4.95 y cant. Ar yr un pryd, mae'n torri gwerth bron i £5 miliwn o wasanaethau. Mae perygl mawr labelu'r rheini fel arbedion effeithlonrwydd, gan nad dyna yw rhai ohonynt, mae'n amlwg. Gallaf weld y Gweinidog yn ysgwyd ei ben. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem pan fydd cynghorau'n methu

to deliver the services that they would like to deliver because they cannot put up the council tax any higher, because people cannot afford to pay it?

Sue Essex: There was a 5.1 per cent increase; I cannot remember exactly the figure for Powys, but you recognise that it was near that figure. On any definition of inflation, one would take that as being way over the inflation rate; local government has not argued with that. In fact, in fairness, local government has recognised that this is a good settlement, and have used the words 'better than expected'. However, I was a councillor for many years and I know that it is difficult to manage services when we have increasing demand. Social services, in particular, was identified as an important component this year, and if you remember the original laying of the budget, there was additional money going into social services not just in the RSG, but also in specific grants.

We need to take into account the change in demography in Wales. We are not alone in this. I was in Scotland on Sunday and Monday and it is facing exactly the same situation of an ageing population and how difficult it is to move money and budgets around to deal with this. However, we must face those facts and deal with the situation. There is also the point that Karen made, namely that it is about a collaborative agenda in many areas. I would not be asking local authorities to do this if I did not think it was possible. There is no doubt that, by working away at this collaborative agenda over a time-limited period, although I suspect it will go on longer than that, reducing the unit costs quite knowingly, while keeping our performance standards—as you say, we do not want cuts in services to equate as efficiency savings—and by working with the WLGA and supporting one another, we can make this quite important change in a mature and structured way.

Nick Bourne: The Minister makes a fair point about demography, and I accept that, but that clearly must be factored in. Using Powys as the example, its record on social

darparu'r gwasanaethau yr hoffent eu darparu am na allant godi'r dreth gyngor yn uwch, oherwydd na all pobl fforddio ei thalu?

Sue Essex: Yr oedd cynnydd o 5.1 y cant; ni allaf gofio'r union ffigur ar gyfer Powys, ond yr ydych yn cydnabod ei fod yn agos i'r ffigur hwnnw. Yn ôl unrhyw ddiffiniad o chwyddiant, byddwn yn ystyried hynny'n gynydd llawer uwch na chyfradd chwyddiant; nid yw llywodraeth leol wedi dadlau hynny. Mewn gwirionedd, er tegwch iddi, mae llywodraeth leol wedi cydnabod fod y setliad hwn yn un da, gan ddefnyddio'r geiriau 'gwell na'r disgwyl'. Fodd bynnag, bûm yn gynghorydd am flynyddoedd a gwn ei bod yn anodd rheoli gwasanaethau pan fydd galw cynyddol. Yn benodol, nodwyd gwasanaethau cymdeithasol fel elfen bwysig eleni, ac os cofiwch y gyllideb wreiddiol, yr oedd arian ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, nid drwy'r Grant Cynnal Refeniw yn unig, ond hefyd drwy grantiau penodol.

Mae angen inni ystyried y newid demograffig yng Nghymru. Nid ydym yn unigryw yn hyn. Yr oeddwn yn yr Alban ddydd Sul a dydd Llun ac mae'n wynebu'r un sefyllfa yn union oherwydd bob y boblogaeth yn heneiddio ac anhawster symud arian a chyllidebau o gwmpas i ddelio â hyn. Fodd bynnag, rhaid inni wynebu'r ffeithiau hynny a delio â'r sefyllfa. Yn ogystal, mae yna'r pwynt a wnaeth Karen, sef fod a wnelo hyn ag agenda gydweithredol mewn llawer maes. Ni fyddwn yn gofyn i awdurdodau lleol wneud hyn oni bai fy mod yn credu ei fod yn bosibl. Yn ddiau, drwy weithio ar yr agenda gydweithredol hon am gyfnod penodol, er fy mod yn amau y bydd yn parhau'n hwy na hynny, drwy fwrw ati i ostwng cost unedau gan gadw at ein safonau perfformiad—fel y dywedwch, nid ydym am gwtogi gwasanaethau er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd—a thrwy gydweithio â CLILC a chefnogi ein gilydd gallwn sicrhau'r newid pwysig hwn mewn ffordd aeddfed a strwythuredig.

Nick Bourne: Mae gan y Gweinidog bwynt teg am ddemograffeg, a derbyniaf hynny, ond yn amlwg rhaid ystyried hynny. Gan ddefnyddio Powys fel enghraifft, mae record

services is good; in terms of this year's budget, it is certainly addressing that. However, at the same time, there are cuts of nearly £2 million in the education budget. If you look at a school such as Trefonnen School in Llandrindod Wells, which I have mentioned before, and which serves an area that includes many low-income families, not only are there massive unaddressed problems with the school building, it is having to lay off a teacher because of these education cuts. That is certainly not in the interest of the pupils. I come back to the point that there are very real pressures in councils throughout Wales. I only use Powys as an example because it feels that it cannot put up its council tax anymore, particularly for pensioners, which you have recognised yourself as a particular problem. We are, therefore, seeing service cuts; these are not efficiency savings. It is all very well to say that this may be addressed in the long-term, but there is a very real problem in communities up and down Wales in the short-term, and I ask the Minister what she is doing about that.

Sue Essex: The answer to this comes, partly, from what the Minister for Education and Lifelong Learning is doing. As I said, I do not think that there is an authority in Wales that is not facing this demographic picture and what that entails. It means extra spending in social care because we have an ageing population and it means changing education spends. I have spoken with Powys and many other local authorities, and there are many schools that have empty desks and seats. Those changes are very difficult and painful—I understand that. I support local authorities in that; you will not hear me criticising any authority, whatever its political complexion, when I see them tackling some of those difficult problems. Our job is to support them in effecting those changes, and not to always criticise them when they are making some really difficult decisions.

y sir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn dda; o ran cyllideb eleni, mae'n sicr yn mynd i'r afael â hynny. Fodd bynnag, ar yr un pryd mae toriadau o bron i £2 filiwn yn y gyllideb addysg. Os edrychwch ar ysgol fel Ysgol Trefonnen yn Llandrindod yr wyf wedi sôn amdani o'r blaen, ac sy'n gwasanaethu ardal sy'n cynnwys nifer o deuluoedd incwm isel, yn ogystal â phroblemau difrifol nad aethpwyd i'r afael â hwy o ran adeilad yr ysgol, mae hefyd yn gorfod diswyddo athro oherwydd y toriadau hyn yn y gyllideb addysg. Yn sicr, nid yw hynny'n llesol i'r disgyblion. Dychwelaf at y pwynt fod pwysau gwirioneddol ar gynghorau ledled Cymru. Defnyddiaf Powys fel enghraifft am fod y sir yn credu na all gynyddu ei threth gyngor eto, yn enwedig i bensiynwyr, ac yr ydych wedi cydnabod hynny fel problem eich hun. Felly, yr ydym yn gweld toriadau mewn gwasanaethau; nid arbedion effeithlonrwydd mohonynt. Mae'n ddigon hawdd dweud y gellid mynd i'r afael â hyn yn yr hirdymor, ond mae yna broblem wirioneddol mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru yn y tymor byr, a gofynnaf i'r Gweinidog beth y mae'n ei wneud ynghylch hynny.

Sue Essex: Daw'r ateb, yn rhannol, o'r hyn y mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ei wneud. Fel y dywedais, ni chredaf fod yr un awdurdod yng Nghymru nad yw'n wynebu'r darlun demograffig hwn a'i oblygiadau. Mae'n golygu gwario mwy ym maes gofal cymdeithasol am fod gennym boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae'n golygu newid gwariant ym maes addysg. Yr wyf wedi siarad ag awdurdod sir Powys a nifer o awdurdodau lleol eraill, ac mae desgiau a seddi gwag mewn nifer o ysgolion. Mae'r newidiadau hynny'n anodd ac yn boenus iawn—deallaf hynny. Yr wyf yn cefnogi awdurdodau lleol yn hynny; ni fyddwch yn fy nghlywed yn beirniadu'r un awdurdod, waeth beth fo'i gyfansoddiad gwleidyddol, pan welaf eu bod yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau anodd hyn. Ein gwaith yw eu cynorthwyo wrth weithredu'r newidiadau hynny, ac i beidio â'u beirniadu bob tro pan fyddant yn gwneud penderfyniadau gwirioneddol anodd.

Cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol Joint Working Between Local Authorities

Q6 Mick Bates: Will the Minister make a statement on joint working between local authorities? OAQ0565(LGP)

Sue Essex: This very much picks up on the previous discussion, Mick. Joint working is one of the big gains out there, and working in collaboration needs to be extended and diversified, and go across the public sector, not just between local authorities.

Mick Bates: I am sure that, with the Wales spatial plan, regional planning will grow and grow and that Welsh authorities will increasingly work together. However, authorities such as mine in Powys have to work with English local authorities in many areas, such as education, social services, tourism and even health. What efforts are you making to ensure that English authorities provide transparent information about the costs that they incur and that the reconciliation of financial arrangements is made in full to Welsh authorities who deliver services to English residents?

Sue Essex: Obviously, you are thinking about detailed areas, presumably in health and other social care services. If there are particular problems, please write to me and, if they are in my brief, I will take them forward or pass them on to a colleague. You mentioned the Wales spatial plan and, quite rightly, you talked about the situation that exists on the border where there is a lot of toing and froing, both in terms of people and services. We have dialogue with colleagues, but it is my intention over the next couple of months to cross the border at three points at least, to meet the corresponding authorities and agencies, with regard to the Wales spatial plan. However, if there are wider matters that you wish to draw to my attention, by all means bring them to me; I will be glad to hear about them.

2.30 p.m.

C6 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithio rhwng awdurdodau lleol? OAQ0565(LGP)

Sue Essex: Mae hyn yn parhau'r drafodaeth flaenorol i raddau helaeth iawn, Mick. Mae cydweithio'n broses fuddiol, ac mae angen ymestyn ac amrywio achosion o gydweithredu, gan gynnwys y sector cyhoeddus, yn hytrach na chydweithredu rhwng awdurdodau lleol yn unig.

Mick Bates: Gyda chynllun gofodol Cymru, yr wyf yn siŵr y bydd prosesau cynllunio rhanbarthol yn mynd o nerth i nerth ac y bydd awdurdodau Cymru'n gweithio gyda'i gilydd yn gynyddol. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau fel fy awdurdod i ym Mhowys weithio gydag awdurdodau lleol yn Lloegr mewn llawer maes, fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol, twristiaeth a hyd yn oed iechyd. Pa ymdrechion sydd ar y gweill gennych i sicrhau bod awdurdodau Lloegr yn darparu gwybodaeth eglur am y costau y maent yn eu tynnu, a bod trefniadau ariannol yn cael eu cysoni'n llawn i awdurdodau yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau i drigolion yn Lloegr?

Sue Essex: Yr ydych yn amlwg yn sôn am feysydd penodol, mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, mae'n debyg. Os oes problemau penodol, ysgrifennwch ataf, ac os ydynt yn rhan o'm cylch gorchwyl, byddaf yn gweithredu arnynt neu'n eu trosglwyddo i gyd-Aelod. Yr oeddech yn sôn am gynllun gofodol Cymru, ac yn ddigon cywir yr oeddech yn sôn am y sefyllfa ar y gororau lle mae llawer o deithio'n ôl ac ymlaen, o ran pobl a gwasanaethau. Yr ydym yn cael trafodaethau gyda chyd-aelodau, ond mae'n fwriad gennyf yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i groesi'r ffin ar dri phwynt o leiaf, i gyfarfod â'r awdurdodau a'r asiantaethau cyfatebol, o ran cynllun gofodol Cymru. Fodd bynnag, os hoffech dynnu fy sylw at faterion ehangach, gwnewch hynny ar bob cyfrif; byddwn yn falch clywed amdanynt.

William Graham: Minister, you will know that, by British standards, Wales has small local authorities—most have a population of under 100,000 people. Are you satisfied that the current arrangements are the most effective and that where good practice is identified in one area it is replicated where appropriate by other authorities? Do you believe that in order to avoid increases in council tax and a reduction in service provision, you should consider a reorganisation of the local authorities in Wales?

Sue Essex: Bearing in mind that it was your Government that brought in the reorganisation, William, not that long ago, I am rather surprised that you asked that question. I can remember, at the time, several of us pleading with John Redwood to establish a commission to do the job properly. He refused to do that. A few little deals were stitched up in the House of Commons and, lo and behold, we had 22 authorities and we were not supposed to question that decision.

I greatly regret that that reorganisation went ahead in the way that it was. One crucial thing that happened was that by doing the instant-John-Redwood reorganisation, without having a commission like they had in England, we were not allowed to talk through some of the collaborative arrangements that existed. Most of those arrangements were put asunder and some of the problems that we have inherited over the last few years have stemmed from trying to reinvigorate or reform those arrangements or to put them in place.

In terms of where we are going in the future, you will have heard me refer to the Beecham report in response to Alun Ffred. Jeremy Beecham, with Adrian Webb and Dr Gill Morgan, has the role of looking at effective public service delivery. That is key, and we will wait to see what will happen, although we have not specifically asked them to look at reorganisation. It is my view that to go through another reorganisation now would mitigate against effective public services because we all know that once you mention reorganisation—I have lived through two local government reorganisations—virtually

William Graham: Weinidog, fe wyddoch, o'u cymharu â gweddill Prydain, mai awdurdodau lleol bach sydd yng Nghymru—gyda phoblogaeth o dan 100,000 o bobl yn y mwyafrif. A ydych yn fodlon mai'r trefniadau presennol yw'r rhai mwyaf effeithiol, a phan nodir arfer da mewn un srdal y caiff ei ddyblygu lle mae'n briodol gan awdurdodau eraill? A ydych yn credu, er mwyn osgoi cynnydd yn y dreth gyngor a gostyngiad yn y ddarpariaeth gwasanaethau, y dylech ystyried ad-drefnu'r awdurdodau lleol yng Nghymru?

Sue Essex: Gan gofio mai eich Llywodraeth chi a fu'n gyfrifol am yr ad-drefnu, William, heb fod mor bell yn ôl, yr wyf yn synnu braidd eich bod wedi gofyn y cwestiwn hwnnw. Gallaf gofio, ar y pryd, fod nifer ohonom wedi erfyn ar John Redwood i sefydlu comisiwn i wneud y gwaith yn iawn. Gwrthododd wneud hynny. Trawyd ambell fargen yn Nhŷ'r Cyffredin, ac wele, sefydlwyd 22 o awdurdodau ac nid oeddem i gwestiynu'r penderfyniad hwnnw.

Yr wyf yn gresynu'n fawr fod y broses ad-drefnu honno wedi digwydd fel y gwnaeth. Un peth hanfodol a ddigwyddodd oedd hyn: drwy ad-drefnu fel y gwnaeth John Redwood, heb sefydlu comisiwn fel yn Lloegr, ni chaniatawyd inni drafod rhai o'r trefniadau cydweithrediadol a oedd yn bodoli. Chwalwyd y rhan fwyaf o'r trefniadau hynny, ac mae rhai o'r problemau a etifeddwyd gennym yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi deillio o geisio adfywio neu ddiwygio'r trefniadau hynny neu eu rhoi ar waith.

O ran i ble yr awn yn y dyfodol, byddwch wedi fy nghlywed yn cyfeirio at adroddiad Beecham wrth ateb Alun Ffred. Jeremy Beecham, ynghyd ag Adrian Webb a Dr Gill Morgan, sy'n gyfrifol am edrych ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol. Mae hynny'n allweddol, ac arhoswn i weld beth fydd yn digwydd, er nad ydym wedi gofyn iddynt edrych yn benodol ar ad-drefnu. Yn fy marn i, byddai cael proses ad-drefnu arall yn awr yn milwrio yn erbyn gwasanaethau cyhoeddus effeithiol oherwydd gwyddom i gyd, cyn gynted ag y soniwch am ad-drefnu—ac yr wyf wedi gweld llywodraeth

everything is put on hold because people, quite naturally, are thinking about where their jobs are going to be, and all sorts of acrimonies come out.

Alun Cairns: It is just like the Welsh Development Agency, is it not, Minister?

The Presiding Officer: Order. I would like Members to prepare for where we may meet next by being slightly less noisy.

Sue Essex: I am sure that there will be no shouting from sedentary positions in the new building, Presiding Officer.

We really want to pursue the collaborative agenda, which removes some of the administrative boundaries. The truth is, William—I will be quite honest—if we were to spend a long time deliberating on what the optimum local authorities would be, we would get them in place after four years of turmoil and destruction, only to find that the whole agenda had moved on and we would then be looking for more changes. If you have been around long enough, as I have, you know that that comes around. However, we will wait to see what Sir Jeremy and his team say. We have not constrained him in a way that would mean that he could not bring something forward on this, if that is what he thinks is best.

leol yn cael ei had-drefnu ddwywaith—caiff bron popeth ei ddal yn ôl oherwydd bod pobl, yn gwbl naturiol, yn meddwl am eu swyddi, a daw pob math o chwerwder i'r amlwg.

Alun Cairns: Yn union fel Awdurdod Datblygu Cymru, Weinidog?

The Presiding Officer: Trefn. Hoffwn i Aelodau baratoi ar gyfer ble y gallwn gyfarfod nesaf drwy fod ychydig yn llai swnllyd.

Sue Essex: Yr wyf yn siŵr na fydd unrhyw weiddi gan Aelodau ar eu heistedd yn yr adeilad newydd, Lywydd.

Yr ydym am ddilyn yr agenda gydweithrediadol, sy'n dileu rhai o'r ffiniau gweinyddol. Y gwirionedd yw, William—byddaf yn gwbl onest—pe byddem yn treulio amser maith yn trafod beth fyddai'r awdurdodau lleol gorau posibl, byddem yn eu sefydlu ar ôl pedair blynedd o gythrwfl a dinistr, ond yna'n darganfod bod yr agenda gyfan wedi symud ymlaen beth bynnag, ac yna byddem yn chwilio am fwy o newidiadau. Os ydych wedi bod o gwmpas yn ddigon hir, fel yr wyf fi, fe wyddoch fod yr amser hwnnw'n dod. Fodd bynnag, arhoswn i weld beth a ddywed Syr Jeremy a'i dîm. Nid ydym wedi ei rwystro mewn ffordd a fyddai'n golygu na allai gyflwyno rhywbeth ar hyn, os dyna sydd orau yn ei farn ef.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

Datblygu Defnyddio Caeau Chwarae Ysgolion gan y Gymuned Developing Community Use of School Playing Fields

Q1 Christine Gwyther: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government measures to develop the community use of school playing fields? OAQ0677(ELL)

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): Through our guidance on developing community-focused schools, we actively encourage schools to open up their playing fields to provide open space and space for play for the communities that they serve. Access to such local facilities

C1 Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fesurau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu defnyddio caeau chwarae ysgolion gan y gymuned? OAQ0677(ELL)

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Drwy ein canllawiau ar ddatblygu ysgolion cymunedol, yr ydym yn annog ysgolion i agor eu caeau chwarae er mwyn rhoi man agored a lle i chwarae i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Gall caniatáu i gymunedau ddefnyddio

can contribute significantly to community regeneration.

Christine Gwyther: Playing in the open air is something that every child will benefit from. Learning in the open air is also important and can provide an exceptional surrounding in which to carry out usual classroom activities. Golden Grove Community School in Pembroke, in my constituency, has developed a woodland area that it calls an outdoor classroom. That school is gaining huge benefits from it and is making it available to other schools. Would you encourage that sort of activity, and are there any plans to develop it further?

Jane Davidson: I would greatly encourage that sort of activity. In fact, I will meet the woodlands for learning group next week to discuss how we can provide further opportunities for woodland learning, not only in schools, but out there in the many woodlands of Wales. Also, as part of the foundation phase agenda, we strongly encourage outdoor classrooms as part of the curriculum.

Owen John Thomas: Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i dorri tuedd gynyddol awdurdodau lleol i werthu caeau chwarae ysgolion i ddatblygwyr tai?

Jane Davidson: I would be grateful were you to inform me of such tendencies, because I do not have any information that there are such tendencies. In fact, the Sports Council for Wales acts as a guardian of our interests, and 'Planning Policy Wales' makes it absolutely clear that open space must be kept as open space.

Laura Anne Jones: I wholeheartedly agree with this policy. It makes complete sense that sporting facilities are used by schools and communities. As schools are often the heart of their communities, this means that it helps to regenerate, because it makes sporting facilities available to all. That helps to fight childhood obesity and to tackle crime and anti-social behaviour in particular. As we know, that mostly stems from young people

cyfleusterau lleol felly gyfrannu'n sylweddol at adfywio cymunedau.

Christine Gwyther: Mae chwarae yn yr awyr agored yn rhywbeth y bydd pob plentyn yn elwa ohono. Mae dysgu yn yr awyr agored hefyd yn bwysig, a gall fod yn lleoliad eithriadol i gynnal gweithgareddau arferol yr ystafell ddosbarth. Mae Ysgol Gymunedol Golden Grove ym Mhenfro, yn fy etholaeth i, wedi datblygu lle coedlog a elwir yn ystafell ddosbarth awyr agored. Mae'r ysgol honno'n elwa'n fawr iawn ohoni ac yn ei chynnig i ysgolion eraill. A fydddech yn annog y math hwnnw o weithgaredd, ac a oes unrhyw gynlluniau i'w ddatblygu ymhellach?

Jane Davidson: Byddwn yn annog y math hwnnw o weithgaredd yn fawr. Mewn gwirionedd, byddaf yn cyfarfod â'r grŵp coetiroedd ar gyfer dysgu yr wythnos nesaf i drafod sut y gallwn ddarparu rhagor o gyfleoedd i ddysgu mewn coetiroedd, nid yn unig mewn ysgolion, ond yn y coetiroedd niferus sydd yng Nghymru. Hefyd, fel rhan o agenda'r cyfnod sylfaen, argymhellwn yn gryf y dylid cynnwys ystafelloedd dosbarth awyr agored fel rhan o'r cwricwlwm.

Owen John Thomas: What action are you taking to curtail the growing tendency of local authorities selling school playing fields to housing developers?

Jane Davidson: Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod imi am dueddiadau o'r fath, oherwydd nid oes gennyf unrhyw wybodaeth amdanynt. Yn wir, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithredu fel gwarcheidwad ein buddiannau, ac mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn ei gwneud yn hollol glir fod rhaid cadw mannau agored yn fannau agored.

Laura Anne Jones: Cytunaf â'r polisi hwn gant y cant. Mae'n hollol synhwyrol i ysgolion a chymunedau ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon. Gan mai ysgolion yn aml sydd wrth galon eu cymunedau, golyga hyn ei fod yn helpu adfywio, oherwydd mae'n sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon ar gael i bawb. Mae hynny'n helpu mynd i'r afael â gordewdra mewn plant a throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn

being bored because there is nothing to do in their areas. Opening up sporting facilities out of school hours is the right thing to do.

As a consequence of opening school sporting facilities to communities, will more money be ploughed in to those facilities to improve them? As we know, many school sporting facilities throughout Wales are not up to scratch.

Jane Davidson: The PE and sports programme from the lottery fund is the single largest lottery investment in education that Wales has ever seen. This amounts to £46.3 million to do exactly that.

benodol. Fel y gwyddom, mae hynny'n deillio'n bennaf o'r ffaith fod pobl ifanc yn diflasu am nad oes dim i'w wneud yn eu hardaloedd. Darparu cyfleusterau chwaraeon y tu allan i oriau ysgol yw'r peth iawn i'w wneud.

O ganlyniad i alluogi cymunedau i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon ysgolion, a gaiff rhagor o arian ei fuddsoddi yn y cyfleusterau hynny i'w gwella? Fel y gwyddom, mae nifer o'r cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion yng Nghymru yn methu yn cyrraedd y safon.

Jane Davidson: Rhaglen addysg gorfforol a chwaraeon cronfa'r loteri yw'r buddsoddiad loteri unigol mwyaf mewn addysg y mae Cymru erioed wedi'i weld. Mae'n gyfanswm o £46.3 miliwn i wneud hynny'n union.

Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Provision of Welsh-medium Education

Q2 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on the provision of Welsh-medium education? OAQ0660(ELL)

Jane Davidson: The proportion of primary school pupils in classes where Welsh is the main medium of instruction increased from just under 18 per cent in 2001 to 19.6 per cent in 2005. The percentage of pupils in secondary schools taught Welsh as a first language also increased, from 14 per cent in 2001 to 14.8 per cent in 2005. I am sure that you will welcome those figures.

Janet Ryder: A vital part of delivering Welsh-medium education is played by athrawon bro, who perform different duties in different parts of Wales and who, unfortunately, are employed under different terms and conditions in different parts of Wales. Athrawon bro do not come under the current restructuring and assessment of teachers' pay and conditions in schools, and some county councils are now looking to employ their athrawon bro not as teachers, but as county employees, thereby taking them out of the teachers' pay and conditions code. You are the only person in Wales, Minister, who can take an overview of this situation.

C2 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg? OAQ0660(ELL)

Jane Davidson: Cynyddodd cyfran y disgyblion ysgolion cynradd mewn dosbarthiadau sy'n cael eu haddysgu yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg o ychydig llai na 18 y cant yn 2001 i 19.6 y cant yn 2005. Bu cynnydd hefyd yng nghanran y disgyblion a oedd yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion uwchradd, o 14 y cant yn 2001 i 14.8 y cant yn 2005. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn croesawu'r ffigurau hynny.

Janet Ryder: Rhan hanfodol o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yw athrawon bro, sy'n cyflawni gwahanol ddyletswyddau mewn gwahanol rannau o Gymru ac sydd, yn anffodus, yn cael eu cyflogi o dan delerau ac amodau gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Nid yw athrawon bro yn cael eu cynnwys yn y broses bresennol o ailstrwythuro ac asesu cyflog ac amodau athrawon mewn ysgolion, ac mae rhai cynghorau sir bellach yn ystyried cyflogi eu hathrawon bro nid fel athrawon ond fel gweithwyr y sir, sydd felly'n golygu nad ydynt yn rhan o god cyflogau ac amodau athrawon. Chi yw'r unig berson yng

Athrawon bro do not even figure in England, as they were not even mentioned when the matter of teachers' pay and conditions was being looked at in Westminster. The situation is a uniquely Welsh one, and you are the only person who can take an overview of that situation. Will you give an undertaking to look at the situation for athrawon bro and ensure that we can create a proper career pathway to encourage properly qualified and well-qualified teachers into the role of athrawon bro and to help to deliver the goals of your Government's 'Iaith Pawb'?

Jane Davidson: It is important to say that those people who are employed as teachers, in a teaching function, will be covered by the pay and conditions document. I am happy to take a wider look at the issue of athrawon bro, some of whom, I understand, are not qualified teachers.

Brynle Williams: I am sure that you share my concerns at the low standards in Welsh as a first language at key stages 1 and 2 recently highlighted by the chief inspector's report. What is your strategy to encourage children from non-Welsh-speaking homes, particularly in areas that have few Welsh speakers, to gain and maintain fluency in Welsh?

2.40 p.m.

Jane Davidson: We have been quite explicit about our early years and foundation phase strategy in terms of ensuring that parents are aware of the availability of Welsh-medium or bilingual education in their area, and therefore encourage them to participate if they choose to do so. We are always concerned about insufficient standards, and I will work with the chief inspector to ensure ways forward in order to increase standards in that area and in any other area that is being addressed. It is important to say that our new sabbatical scheme, into which we are putting £1 million in relation to the school sector, is encouraging teachers to enhance their Welsh-language skills, many of whom are first-language Welsh teachers but do not have sufficient confidence at the moment to teach through the medium of Welsh. Therefore, this is encouraging more teachers to speak Welsh

Nghymru, Weinidog, a all wneud trosolwg o'r sefyllfa hon. Nid yw athrawon bro hyd yn oed yn cael eu hystyried yn Lloegr, oherwydd ni chrybwyllwyd hwy pan edrychwyd ar gyflogau ac amodau athrawon yn San Steffan. Mae'r sefyllfa'n unigryw i Gymru, a chi yw'r unig berson a all wneud trosolwg o'r sefyllfa honno. A addawch edrych ar sefyllfa athrawon bro a sicrhau y gallwn greu llwybr gyrfa priodol er mwyn annog athrawon sy'n meddu ar gymwysterau llawn a da i weithio fel athrawon bro a helpu sicrhau nodau 'Iaith Pawb' eich Llywodraeth.

Jane Davidson: Mae'n bwysig dweud y caiff y bobl hynny a gyflogir fel athrawon, mewn swyddogaeth addysgu, eu cynnwys yn y ddogfen cyflogau ac amodau. Yr wyf yn fodlon edrych ar athrawon bro yn ehangach: mae rhai ohonynt, o'r hyn a ddeallaf, heb fod yn athrawon cymwys.

Brynle Williams: Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn pryderu ynghylch safonau isel y Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, fel y dangoswyd gan adroddiad y prif arolygydd yn ddiweddar. Beth yw eich strategaeth i annog plant o gartrefi di-Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o siaradwyr Cymraeg, i fod yn rhugl yn y Gymraeg ac i gynnal hynny?

Jane Davidson: Yr ydym wedi bod yn eithaf eglur ynghylch ein strategaeth blynyddoedd cynnar a chyfnod sylfaen o ran sicrhau bod rhieni'n gwybod bod addysg Gymraeg neu ddwyieithog ar gael yn eu hardal, ac felly'n eu hannog i gyfranogi os dymunant. Yr ydym bob amser yn pryderu am safonau annigonol, a byddaf yn gweithio gyda'r prif arolygydd i sicrhau ffyrdd ymlaen er mwyn codi safonau yn y maes hwnnw, ac mewn unrhyw faes arall yr eir i'r afael ag ef. Mae'n bwysig dweud bod ein cynllun sabothol newydd, lle yr ydym yn buddsoddi £1 miliwn mewn perthynas â'r sector ysgolion, yn annog athrawon i wella'u sgiliau yn y Gymraeg. Mae nifer ohonynt yn athrawon Cymraeg iaith gyntaf ond heb fod yn ddigon hyderus ar hyn o bryd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae hyn yn annog mwy o athrawon i siarad Cymraeg ac felly i

and therefore contribute towards this agenda. gyfrannu at yr agenda hon.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn diolch i'r Gweinidog am ymateb i gwestiwn Janet Ryder am athrawon bro. Fel y gwyr y Gweinidog, nid yw pob awdurdod addysg yn defnyddio athrawon bro i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ac mae nifer ohonynt yn gwneud gwaith arbennig o dda. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn fodlon edrych ar unrhyw effaith y gallai'r newidiadau yng nghyflogau athrawon ei gael, felly a fyddai hi'n barod i drafod gyda rhai awdurdodau lleol a fyddai'n ei chael yn anodd i barhau â'r ddarpariaeth honno?

Jane Davidson: Fel y dywedais wrth Janet, yr wyf yn fodlon ystyried y mater. Ar ôl hynny, fe ystyriaf y ffordd ymlaen.

Ieuan Wyn Jones: Dywedodd adroddiad diweddar y bydd cyrsiau hyfforddi athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu canoli. A wnaiff y Gweinidog sicrhau nad yw'r ddarpariaeth newydd honno yn lleihau niferoedd yr athrawon fydd ar gael i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Jane Davidson: Yr wyf hefyd wedi rhoi £7 miliwn i annog pobl i addysgu y cam sylfaen, er enghraifft, drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, yr wyf yn rhoi llawer o arian i sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle a'r hyfforddiant. Byddaf yn adolygu'r mater, gan fod hyn yn bwysig i addysg o'r blynyddoedd cynnar hyd at y brifysgol.

Ieuan Wyn Jones: I thank the Minister for responding to Janet Ryder's question on athrawon bro. As the Minister knows, not every education authority uses athrawon bro to promote Welsh-medium education, and many of them do excellent work. The Minister said she was willing to consider any effect the changes in teacher salaries might have. Therefore, is she prepared to discuss with some local authorities who would find it difficult to continue that provision?

Jane Davidson: As I said to Janet, I am willing to consider the matter, and I will then consider the way forward.

Ieuan Wyn Jones: A recent report stated that teacher training courses for teachers to teach through the medium of Welsh will be centralised. Will the Minister ensure that that new provision does not lead to a reduction in the number of teachers available to teach through the medium of Welsh?

Jane Davidson: I have also allocated £7 million to encourage people to teach the foundation phase, for example, through the medium of Welsh. Therefore, I have allocated significant funding to ensure that more people are given the opportunity and the training. I will review the issue, as this is important for education from the early years through to higher education.

Effaith Costau Ynni Cynyddol ar Gyllidebau Ysgolion The Effect of Increasing Energy Costs on School Budgets

Q3 Kirsty Williams: What assessment has the Minister made of the effect of increasing energy costs on school budgets? OAQ0631(ELL)

Jane Davidson: Schools are funded through the local government settlement, as you know. The settlement for 2006-07 provides an increase of 5.1 per cent over 2005-06, including an inflation-related uplift of 2.7 per cent for non-pay costs. This should allow local education authorities to take account of increasing energy costs when setting their schools budgets for next year.

C3 Kirsty Williams: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith costau ynni cynyddol ar gyllidebau ysgolion? OAQ0631(ELL)

Jane Davidson: Caiff ysgolion eu hariannu drwy'r setliad llywodraeth leol, fel y gwyddoch. Mae'r setliad ar gyfer 2006-07 yn rhoi cynnydd o 5.1 y cant yn ystod 2005-06, gan gynnwys cynnydd o 2.7 y cant yn gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer costau heblaw cyflogau. Dylai hyn alluogi awdurdodau addysg lleol i ystyried costau ynni cynyddol wrth bennu eu cyllidebau ar

gyfer ysgolion y flwyddyn nesaf.

Kirsty Williams: Do you accept that over the last year, energy costs have risen far and away above the usual inflation prices, so that is not of much consolation to schools? Powys County Council reported a huge increase in the energy costs that it incurs to heat and light its schools, and it has used that as one of the excuses for the 2.5 per cent cut in delegated budgets to schools, which was passed on Friday. Do you accept that point as a good reason to cut delegated budgets of Powys schools by that amount, and what help can you give to local authorities and schools that find themselves in this position?

Kirsty Williams: A ydych yn derbyn bod costau ynni, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi cynyddu lawer yn fwy na phrisiau chwyddiant arferol, felly nid yw hynny'n fawr o gysur i ysgolion? Soniodd Cyngor Sir Powys am gynnydd enfawr yn ei gostau ynni i wresogi a goleuo ei ysgolion, ac mae wedi defnyddio hynny fel un o'r esgusodion dros gwtogi 2.5 y cant yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion, a gymeradwywyd ddydd Gwener. A ydych yn derbyn y pwynt hwnnw fel rheswm da dros gwtogi cyllidebau dirprwyedig ysgolion Powys gymaint â hynny, a pha help y gallwch ei roi i awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n eu cael eu hunain yn y sefyllfa honno?

Jane Davidson: I will say two things in response. The first is that the Association of Directors of Education in Wales finance group lets us know where it sees the greatest pressure on budgets for the coming years, and it has not outlined energy as an issue. As one might expect, I have outlined issues around special educational needs, school transport and retirement or severance pay. With regard to the decision by Powys County Council, it is required by law to listen to the recommendations of its school budget forum. Ultimately, the local authority can set budgets, but if, for example, it has not listened adequately to the school budget forum, it is accountable to the electorate for the decisions that it takes. We have made it clear that for local authorities, cutting school budgets does not constitute efficiency gains.

Jane Davidson: Dywedaf ddau beth mewn ymateb. Y cyntaf yw bod grŵp cyllid Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn rhoi gwybod inni ble y mae'n gweld y pwysau mwyaf ar gyllidebau am y blynyddoedd i ddod, ac nid yw wedi amlinellu ynni fel problem. Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, yr wyf wedi amlinellu problemau'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig, cludiant ysgolion a thaliadau ymddeol neu ddiswyddo. O ran penderfyniad Cyngor Sir Powys, mae'n ofynnol iddo yn ôl y gyfraith i wrando ar argymhellion ei fforwm cyllidebau ysgolion. Yn y pen draw, gall yr awdurdod lleol bennu cyllidebau, ond os nad yw, er enghraifft, wedi gwrandao, ddigonol ar y fforwm cyllidebau ysgolion, mae'n atebol i'r etholwyr am y penderfyniadau a wnaiff. Yr ydym wedi ei gwneud yn glir nad yw cwtogi cyllidebau ysgolion yn gyfystyr ag enillion effeithlonrwydd i awdurdodau lleol.

Alun Ffred Jones: Diolchaf i'r Gweinidog yn gyntaf am ddod i gyfarfod disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle ddoe a gweld eu DVD sy'n rhybuddio am beryglon goryfed.

Alun Ffred Jones: Firstly, I thank the Minister for coming to meet pupils at Ysgol Dyffryn Nantlle yesterday and watching their DVD warning of the dangers of binge drinking.

Mae gennyf gwestiwn am effaith ailstrwythuro cyflogau athrawon ar gyllidebau ysgolion. A minnau'n llywodraethwr, ymddengys i mi y bydd hyn yn cynyddu'r baich cyflogau sydd eisoes yn gwegian ar ôl y taliadau trothwy a gofynion llwyth baich athrawon. Beth yw barn y Gweinidog ar hynny?

I have a question about the effect of restructuring teachers wages on school budgets. As a governor, it seems to me that this will once again increase pressure on wages, which are already creaking under the burden of threshold payments and the requirements of the teachers workload agreement. What is the Minister's opinion of

that?

Jane Davidson: Mae'r cytundeb ynglŷn â thaliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu rhwng y Llywodraeth yn Lloegr a'r undebau. Yng Nghymru, yr ydym yn sicrhau y bydd digon o amser, sef hyd ddiwedd mis Mawrth, i ysgolion feddwl am sut i wneud hyn am y dyfodol. Mae digon o arian yn setliad yr awdurdodau lleol i dalu'r athrawon.

Jane Davidson: The agreement on teaching and learning responsibility allowances is between the Government in England and the unions. In Wales, we ensure there will be plenty of time, that is, until the end of March, for schools to consider how to do this in future. There is enough money in the local authority settlement to pay the teachers.

Rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar Waith The Implementation of the Foundation Phase

Q4 Peter Black: Will the Minister make a statement on the implementation of the foundation phase? OAQ0649(ELL)

C4 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi'r cyfnod sylfaen ar waith? OAQ0649(ELL)

Jane Davidson: The Assembly Government is fully committed to implementing the foundation phase in line with the timetable outlined last November. The current pilot scheme will be fully evaluated and the lessons will be reflected in the statutory requirements, which will start to roll out in all maintained schools and funded non-maintained settings from September 2008.

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n llwyr i roi'r cyfnod sylfaen ar waith yn unol â'r amserlen a amlinellwyd fis Tachwedd diwethaf. Caiff y cynllun peilot presennol ei werthuso'n llawn ac adlewyrchir y gwersi yn y gofynion statudol, a fydd yn dechrau cael eu cyflwyno yn yr holl ysgolion a gynhelir a'r ysgolion na chynhelir o fis Medi 2008.

Peter Black: The initial result, which you reported to the Education and Lifelong Learning Committee, is that the pilot schemes have shown that the foundation phase, when fully rolled out, will need an additional 1,800 staff across Wales. What are your initial thoughts and conclusions on how many of those staff will have to be fully qualified teachers and on how that fits into the planning that you are doing in terms of teacher training across Wales, following the publication of the review into that last week?

Peter Black: Y canlyniad cychwynnol, a gyflwynwyd gennych i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, yw fod y cynlluniau peilot wedi dangos y bydd angen 1,800 o staff ychwanegol ledled Cymru ar gyfer y cyfnod sylfaen, ar ôl ei gyflwyno'n llawn. Beth yw eich syniadau a'ch casgliadau cychwynnol am faint o'r rheini fydd yn gorfod bod yn athrawon cymwysedig llawn, a sut mae hynny'n cyd-fynd â'r gwaith cynllunio yr ydych yn ei wneud o ran hyfforddi athrawon ledled Cymru, ar ôl cyhoeddi'r adolygiad o hynny yr wythnos diwethaf?

Jane Davidson: What I am determined not to do, and have not done at any point in the dialogue around the foundation phase, is indulge in back-of-the-envelope figures. That is why we have written to local authorities this week to ask them detailed information about the qualifications of those currently in the settings in moving forwards towards implementation in 2008. One of the opportunities that will be available to us, should we accept the findings of the review of initial teacher education and training, is that it will free-up places in the university

Jane Davidson: Yr hyn yr wyf yn benderfynol o beidio â'i wneud, ac nad wyf wedi ei wneud o gwbl yn y drafodaeth ynghylch y cyfnod sylfaen, yw dewis ffigurau ar hap. Dyna pam yr ydym wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol yr wythnos hon i ofyn iddynt am wybodaeth fanwl am gymwysterau'r rheini sydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd wrth symud ymlaen at roi'r cyfnod sylfaen ar waith yn 2008. Un o'r cyfleoedd a fydd ar gael inni, os derbyniwn ddarganfyddiadau'r adolygiad o addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon, yw y

sector to use for other educational opportunities. Clearly, we would see the foundation phase as an area where we would want to see other educational opportunities addressed.

David Davies: I may have to declare an interest in this matter shortly. For people living in constituencies such as mine, where there is a lot of cross-border working, what steps can be put in place to ensure that people have the right to access foundation-phase education, even if they have to go across the border to England?

Jane Davidson: None, because this will be a Welsh curriculum. We are proud of leading the way in Wales and looking at a curriculum that is utterly fit for purpose for our young people, devised by experts in the early years sector. That is why we want to ensure that we have piloted and evaluated it properly and have looked at its effectiveness in delivery. Clearly, England is not included in the Welsh Assembly Government's delivery of its foundation phase but I can assure people that they will have high-quality provision of a different nature across the border in England.

Rhodri Glyn Thomas: Yr oeddech yn sôn am y cyfnod sylfaen, ac, o ran yr hyn yr ydych yn sôn amdano yn awr, yr wyf yn falch o glywed eich bod yn buddsoddi arian i ddarparu athrawon i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr ydych yn buddsoddi'n drwm yn y blynyddoedd cynnar, ond a ydych yn derbyn bod yn rhaid ichi hefyd sicrhau dilyniant o addysg gynradd i addysg uwchradd, ac i addysg uwch a phellach os ydych am gyrraedd eich targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan 5 y cant? Ni chredaf y byddwch yn ei gyrraedd erbyn 2010, ond os ydych i'w gyrraedd o gwbl, rhaid ichi wneud hynny.

Jane Davidson: Cytunaf. Mae'n bwysig inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod teuluoedd yn deall y fantais o fynd o ysgol gynradd Gymraeg i ysgol gyfun Gymraeg. Yr oedd yn ddiddorol darllen adroddiad Llais y Lli am y peth. Yr oedd yn dweud mai dim

bydd yn rhyddhau lleoedd yn y sector prifysgolion i'w defnyddio ar gyfer cyfleoedd addysgol eraill. Yn amlwg, byddem yn ystyried y cyfnod sylfaen yn faes lle byddem am weld mynd i'r afael â chyfleoedd addysgol eraill.

David Davies: Efallai y bydd yn rhaid imi ddatgan buddiant yn y mater hwn yn fuan. I bobl sy'n byw mewn etholaethau fel fy etholaeth i, lle mae cryn weithio ar draws ffiniau, pa gamau y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau bod gan bobl yr hawl i gael addysg cyfnod sylfaen, hyd yn oed os bydd yn rhaid iddynt groesi'r ffin i Loegr?

Jane Davidson: Dim, oherwydd cwricwlwm i Gymru fydd hwn. Yr ydym yn falch o arwain y ffordd yng Nghymru ac yn edrych ar gwricwlwm sy'n gwbl addas at y diben ar gyfer ein pobl ifanc, wedi'i lunio gan arbenigwyr yn y sector blynyddoedd cynnar. Dyma pam yr ydym yn awyddus i sicrhau ei fod wedi ei dreialu a'i werthuso'n briodol, ac yr ydym wedi edrych ar effeithiolrwydd ei ddarparu. Yn amlwg, nid yw Lloegr wedi'i chynnwys ym mhroses Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddarparu ei chyfnod sylfaen, ond gallaf sicrhau pobl y bydd ganddynt ddarpariaeth o'r radd flaenaf o natur wahanol ar draws y ffin yn Lloegr.

Rhodri Glyn Thomas: You mentioned the foundation phase, and as for what you are speaking about now, I am glad to hear that you are investing money in providing teachers to teach through the medium of Welsh. You are investing heavily in those early years, but do you accept that you must also ensure continuity from primary education through to secondary education, and on to further and higher education if you are to reach your target of increasing the number of Welsh speakers by 5 per cent? I do not believe you will reach it by 2010, but if you are to reach it at all, you must do that.

Jane Davidson: I agree. It is important for us to work together to ensure that families understand the advantage of moving on from a Welsh primary school to a Welsh secondary school. It was interesting to read the report in Llais y Lli on this issue. It says that very few

ond ychydig iawn o leoedd yn Nghymru sydd ddim yn gwneud yn dda, ac felly gallwn weithio gydag hwy i wella'r sefyllfa yn y dyfodol.

places in Wales are not doing well, and so we can work with those places to improve the situation in the future.

2.50 p.m.

Safonau Ysgolion yn y Gogledd-ddwyrain School Standards in North-east Wales

Q5 Karen Sinclair: Will the Minister make a statement on school standards in north-east Wales? OAQ0691(ELL)

C5 Karen Sinclair: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau ysgolion yn y gogledd-ddwyrain? OAQ0691(ELL)

Jane Davidson: Statistics for the north-east Wales region show that, in 2004-05, 49.3 per cent of 15-year-olds achieved five or more GCSEs at grades A* to C and that 35.5 per cent achieved the core subject indicator. These figures are close to the national averages, and data over time show that the region is making positive progress.

Jane Davidson: Mae'r ystadegau ar gyfer rhanbarth y gogledd-ddwyrain yn dangos, yn 2004-05, fod 49.3 y cant o blant 15 oed wedi ennill pum gradd A* i C neu uwch yn eu pynciau TGAU a bod 35.5 y cant wedi cyrraedd y dangosydd pwnc craidd. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol, ac mae data dros amser yn dangos bod y rhanbarth yn gwneud cynnydd cadarnhaol.

Karen Sinclair: As you know, the recent GCSE results in Wrexham have been a cause of great anxiety. Indeed, they are nothing short of disgraceful. What assurances can you give to my constituents in Clwyd South, whose children are close to exam time, that robust measures have been put in place to improve the situation urgently and to offer pupils the appropriate support to ensure that they realise their potential?

Karen Sinclair: Fel y gwyddoch, mae'r canlyniadau TGAU yn Wrecsam yn ddiweddar wedi achosi cryn bryder. Yn wir, nid ydynt yn ddim llai na gwarthus. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'm hetholwyr yn ne Clwyd sydd â'u plant yn nesau at sefyll eu harholiadau, fod mesurau cadarn wedi eu rhoi ar waith i wella'r sefyllfa ar fyrder, ac i gynnig cymorth priodol i ddisgyblion i sicrhau y byddant yn gwireddu eu potensial?

Jane Davidson: I can say two things. First, I am extremely pleased to see that the figures at key stage 2 are showing dramatic improvement in the Wrexham area. We want to build on that, with the new schools, moving onto key stage 3. Secondly, we are putting in place new regulations on school improvement and the partnership between local authorities and individual schools, so that it is very clear to whom the responsibilities belong. Along with our transition planning to ensure that we do not have children dropping out at any point as they move from primary to secondary school, this will contribute to what I, you and your constituents hope will be a dramatic leap in Wrexham's performance in years to come.

Jane Davidson: Gallaf ddweud dau beth. Yn gyntaf, mae'n dda iawn gennyf weld bod y ffigur yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos gwelliant dramatig yn ardal Wrecsam. Yr ydym am adeiladu ar hynny, gyda'r ysgolion newydd, a symud ymlaen i gyfnod allweddol 3. Yn ail, yr ydym yn rhoi rheoliadau newydd ar waith ar wella ysgolion a'r bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion unigol, er mwyn iddi fod yn glir iawn ar bwy mae'r cyfrifoldebau. Ynghyd â'n cynllunio ar gyfer y broses drosiannol i sicrhau na fydd plant yn dadriethio o gwbl wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, bydd hyn yn cyfrannu at yr hyn yr wyf fi, chi a'ch etholwyr yn gobeithio fydd yn welliant dramatig ym mherfformiad Wrecsam yn y dyfodol.

Mark Isherwood: When I attended the Wrexham schools' forum with Karen and other Assembly Members last November, we were told that Welsh Assembly Government funding for the council was below even the Welsh Assembly Government's figure for pay and pension increases. We were told that, because the historic spending in schools was so low, there was no fat to cut, and that, without a greater overall share of resources for Welsh schools, they could be faced with larger class sizes, fewer classroom resources, lower attainment levels and, ultimately, teacher redundancies. What effect will that have on the standards and achievements in schools in north-east Wales, Minister?

Jane Davidson: Well, Flintshire, for example, is showing very good progress, and Denbighshire is consistent. There is not a direct equation between the amount of investment in local authorities and outcomes. If there were, there would be a much easier job for all of us in ensuring the effective use of the Welsh pound. However, what is important is that the local authority and schools work together to tackle issues surrounding school improvement. We do not have, and have not had, a history of failing schools in Wales, as there has been in other parts of the United Kingdom. However, we want to ensure that all our schools deliver to a minimum standard, and, as Minister, working with the chief inspector, I am looking at these issues all the time.

Mark Isherwood: Pan fûm yn fforwm ysgolion Wrecsam gyda Karen ac Aelodau eraill o'r Cynulliad fis Tachwedd diwethaf, dywedwyd wrthym fod arian Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r cyngor yn is hyd yn oed na ffigur Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phensiynau. Oherwydd bod y gwariant mewn ysgolion mor isel, yn hanesyddol, dywedwyd wrthym nad oedd modd cwtogi ymhellach, a heb gyfran fwy o'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion Cymru, gallent wynebu dosbarthiadau mwy, llai o adnoddau ystafelloedd dosbarth, lefelau cyrhaeddiad is, a diswyddo athrawon yn y pen draw. Pa effaith a gaiff hynny ar y safonau a'r cyflawniadau mewn ysgolion yn y gogledd-ddwyrain, Weinidog?

Jane Davidson: Wel, mae sir y Fflint, er enghraifft, yn dangos cynnydd da iawn, ac mae sir Ddinbych yn gyson. Nid oes perthynas uniongyrchol rhwng maint y buddsoddi mewn awdurdodau lleol a'r canlyniadau. Pe byddai, byddai'n haws o lawer i bob un ohonom sicrhau defnyddio'n cyllid yn fwy effeithiol yng Nghymru. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw bod yr awdurdod lleol a'r ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwella ysgolion. Nid oes gennym, ac ni fu gennym, hanes o ysgolion yn methu yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, yr ydym am sicrhau bod pob un o'n hysgolion yn cyrraedd y safon ofynnol, ac fel Gweinidog, gan weithio gyda'r prif arolygydd, yr wyf yn edrych ar y materion hyn drwy'r amser.

Cynnal a Chadw ar Adeiladau Ysgolion wedi Crynhoi Backlog of School Building Maintenance

Q6 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on the backlog of school building maintenance? OAQ0632(ELL)

Jane Davidson: As I have said previously, officials are securing information from local education authorities on investment needed in the school building stock, taking account of the future needs of the school building estate. When that is complete, I will share the information with the Education and Lifelong

C6 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar adeiladau ysgolion? OAQ0632(ELL)

Jane Davidson: Fel y dywedais gynt, mae swyddogion yn cael gwybodaeth gan awdurdodau addysg lleol am y buddsoddiad sydd ei angen yn y stoc adeiladau ysgolion, gan ystyried anghenion yr ystad adeiladau ysgolion yn y dyfodol. Pan fydd hynny wedi'i gwblhau, byddaf yn rhannu'r

Learning Committee.

wybodaeth gyda'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Kirsty Williams: Estyn reports have identified a large number of schools that are not fit for purpose, and any visit to Maesydderwen Comprehensive School in Ystradgynlais, Gwernyfed High School in Aberllynfi or Trefonnen Church in Wales Primary School in Llandrindod will attest to that. Evidence already given to the Committee on School Funding by unions, directors of education and others have identified that you are not going to meet your target of every school being fit for purpose by 2010. What do you intend to do about that?

Kirsty Williams: Mae adroddiadau gan Estyn wedi nodi nifer fawr o ysgolion nad ydynt yn addas at y diben, a bydd ymweliad ag Ysgol Gyfun Maesydderwen yn Ystradgynlais, Ysgol Uwchradd Gwernyfed yn Aberllynfi neu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Nhrefonnen yn Llandrindod yn dyst i hynny. Mae tystiolaeth a roddwyd eisoes i'r Pwyllgor ar Gyllido Ysgolion gan undebau, cyfarwyddwyr addysg ac eraill wedi nodi nad ydych yn mynd i gyrraedd eich targed o sicrhau bod pob ysgol yn addas at y diben erbyn 2010. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud ynglŷn â hynny?

Jane Davidson: I think that we will wait for the evidence, because the evidence will be available when we put a substantial report to the committee on behalf of all local authorities. I would also say that you and every other Member has a job of ensuring that your local authority spends as it should on school buildings, from its specific allocation and from the education element of the general capital allocation. You must also ensure that each local authority takes the appropriate decisions to make sure that schools are not only fit for purpose but fit for the number of pupils in the area.

Jane Davidson: Credaf y byddwn yn aros am y dystiolaeth, oherwydd bydd y dystiolaeth ar gael pan gyflwynwn adroddiad sylweddol i'r pwyllgor ar ran yr holl awdurdodau lleol. Byddwn yn dweud hefyd fod gennych chi a phob Aelod arall dasg i sicrhau bod eich awdurdod lleol yn gwario fel y dylai ar adeiladau ysgolion, o'i ddyraniad penodol ac o'r elfen addysgol yn y dyraniad cyfalaf cyffredinol. Yn ogystal, rhaid ichi sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gwneud y penderfyniadau priodol i sicrhau bod ysgolion nid yn unig yn addas at y diben, ond hefyd yn addas ar gyfer nifer y dysgblion yn yr ardal.

Nick Bourne: I would like to associate myself with what Kirsty Williams has just said. There is evidence, and the Estyn report has referred to 40 per cent of primary buildings being in a poor state of repair. It is not just related to Powys; it is related to the whole situation in Wales. There is a serious issue here. It is all very well saying that local authorities should get on with the job, but they do not have the finance. We have already heard from the Finance Minister during her questions today that there is a massive problem with the pressures on local authorities, both in terms of revenue and capital. How are we going to address this massive backlog of repair in the 40 per cent of primary buildings identified by Estyn?

Nick Bourne: Hoffwn ategu'r hyn y mae Kirsty Williams newydd ei ddweud. Mae yna dystiolaeth, a chyfeiriodd adroddiad Estyn at y ffaith fod 40 y cant o adeiladau ysgolion cynradd mewn cyflwr gwael. Nid â Phowys yn unig y mae'n ymwneud; mae'n ymwneud â'r sefyllfa gyfan yng Nghymru. Mae yna broblem ddifrifol yn hyn. Mae'n ddigon hawdd dweud y dylai awdurdodau lleol fwrw ymlaen â'r gwaith, ond nid oes ganddynt y cyllid. Clywsom gan y Gweinidog Cyllid eisoes yn ystod ei chwestiynau heddiw fod yna broblem ddybryd gyda'r pwysau ar awdurdodau lleol, o ran refeniw a chyfalaf. Sut ydym i fynd i'r afael â'r gwaith atgyweirio anferth hwn sydd wedi crynhoi yn y 40 y cant o adeiladau ysgolion cynradd a enwyd gan Estyn?

Jane Davidson: Estyn also identified that we have a substantial oversupply of primary

Jane Davidson: Dywedodd Estyn hefyd fod gennym ormodedd sylweddol o adeiladau

buildings. That is in the report. We must consider these issues together. My job as Minister is to ensure, whenever school reorganisations are proposed, that the proposals ensure the best kind of learning available. However, we will not get school buildings fit for purpose unless local authorities exercise their proper responsibilities in looking at how to improve the schools in their areas and ensuring that they are right for the number of pupils that they are serving.

Nick Bourne: There are two points there. The Minister seems to be saying two things, but I hope that I have misunderstood her. First, she seems to be saying that the solution to this problem of repairs is to close schools, and, secondly, she seems to be saying, 'It is not me, gov; it is the local authorities'. There is a serious issue here. Even if there is an oversupply of places, there is no guarantee that that oversupply is in schools with repair problems. That is scarcely the way in which to answer the problem. What are you doing about the underfunding in relation to the capital budget that faces local authorities throughout Wales, including, but not limited to, Powys County Council?

Jane Davidson: We are providing more money than has ever been provided before for school buildings. We have asked every local authority to prepare an asset management plan that clearly lays out how they are going to use that funding, what timetable they will follow and how they are going to prioritise that funding according to need. However, another major issue that local authorities have to face is that there will be 100,000 fewer children in our schools by 2013, and we must ensure that children are taught in buildings that are fit for purpose. We are providing substantial investment. When we receive the evidence back from all the local authorities, we will be able to see what further investment is needed. However, the job of the local authorities in assessing local provision remains paramount in their local areas, because they must spend the money.

ysgolion cynradd. Mae hynny yn yr adroddiad. Rhaid inni ystyried y materion hyn gyda'i gilydd. Fy ngwaith i fel Gweinidog yw sicrhau, ble bynnag yr argymhellir ad-drefnu ysgolion, fod y cynigion yn sicrhau'r math gorau o ddysgu sydd ar gael. Fodd bynnag, ni fyddwn yn sicrhau bod adeiladau ysgolion yn addas at y diben oni bai bod awdurdodau lleol yn ymarfer eu priod gyfrifoldebau o edrych ar y ffordd i wella'r ysgolion yn eu hardaloedd a sicrhau eu bod yn iawn ar gyfer nifer y disgyblion y maent yn eu gwasanaethu.

Nick Bourne: Cyfyd dau bwynt. Ymddengys fod y Gweinidog yn dweud dau beth, ond gobeithio fy mod wedi ei chamddeall. Yn gyntaf, ymddengys ei bod yn dweud mai'r ateb i'r broblem hon o atgyweirio yw cau ysgolion. Ac yn ail, ymddengys ei bod yn dweud, 'Nid fi sydd ar fai; yr awdurdodau lleol sydd ar fai'. Mae yma broblem ddifrifol. Hyd yn oed os oes gormod o leoedd, nid oes sicrwydd bod y gorgyflenwad mewn ysgolion lle mae problemau atgyweirio. Prin mai dyna'r ffordd i ddatrys y broblem. Beth yr ydych yn ei wneud am y diffyg yn y cyllid mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf sy'n wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru, gan gynnwys Cyngor Sir Powys, ond heb fod yn gyfyngedig i Bowys?

Jane Davidson: Yr ydym yn rhoi mwy o arian nag erioed o'r blaen ar gyfer adeiladau ysgolion. Yr ydym wedi gofyn i bob awdurdod lleol baratoi cynllun rheoli asedau sy'n nodi'r glir sut y maent yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwnnw, pa amserlen y byddant yn ei dilyn, a sut y maent yn mynd i flaenoriaethu'r cyllid hwnnw yn ôl yr angen. Fodd bynnag, problem fawr arall y mae awdurdodau lleol yn gorfod ei hwynebu yw y bydd 100,000 yn llai o blant yn ein hysgolion erbyn 2013, a rhaid inni sicrhau bod plant yn cael eu dysgu mewn adeiladau sy'n addas at y diben. Yr ydym yn darparu buddsoddiad sylweddol. Pan gawn y dystiolaeth yn ôl oddi wrth bob awdurdod lleol, byddwn yn gallu gweld pa fuddsoddiad pellach y mae ei angen. Fodd bynnag, mae gwaith yr awdurdodau lleol yn asesu darpariaeth leol yn dal yn hollbwysig yn eu hardaloedd lleol, oherwydd bydd yn rhaid iddynt wario'r arian.

The Presiding Officer: Question 7 **Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 7

OAQ0622(ELL) is withdrawn.

OAQ0622(ELL) yn ôl.

Gwasanaethau mewn Lifrai Uniformed Services

Q8 David Melding: Will the Minister make a statement on the provision of training programmes for uniformed services by the higher education sector? OAQ0676(ELL)

Jane Davidson: In 'Reaching Higher', I encourage the higher education sector to work closely with local business, which includes uniformed services, and to respond to their needs. Our aim is to support lifelong learning and skills development by means of innovative and flexible delivery.

David Melding: Will you congratulate the University of Glamorgan and South Wales Police on working on such a scheme for probationer police officers? Does this not show the way in which these professional services can receive training and development from the higher education sector in Wales to the benefit of both organisations?

Jane Davidson: I would be delighted to take your congratulations back to the University of Glamorgan. Now that the Home Office has decided that the responsibility for training local police forces is now in the hands of those local forces, we are starting to see some innovative proposals, including that at the University of Glamorgan, which also runs a course on public and emergency services, which, I understand, is also run in Cardiff.

C8 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu rhaglenni hyfforddi ar gyfer gwasanaethau mewn lifrai gan y sector addysg uwch? OAQ0676(ELL)

Jane Davidson: Yn 'Ymgeisio yn Uwch', yr wyf yn annog y sector addysg uwch i weithio'n agos gyda busnesau lleol, sy'n cynnwys gwasanaethau mewn lifrai, ac i ymateb i'w hanghenion. Ein nod yw cefnogi dysgu gydol oes a datblygu sgiliau drwy ddarpariaeth arloesol a hyblyg.

David Melding: A wnewch chi longyfarch Prifysgol Morgannwg a Heddlu De Cymru ar weithio ar gynllun o'r fath ar gyfer swyddogion heddlu ar brawf? Onid yw hyn yn dangos y ffordd y gall y gwasanaethau proffesiynol hyn gael hyfforddiant a datblygiad gan y sector addysg uwch yng Nghmru er lles y naill sefydliad a'r llall?

Jane Davidson: Byddai'n bleser gennyf longyfarch Prifysgol Morgannwg. Gan fod y Swyddfa Gartref bellach wedi penderfynu bod y cyfrifoldeb dros hyfforddi heddluoedd lleol yn nwylo'r heddluoedd lleol hynny, yr ydym yn dechrau gweld rhai cynigion arloesol, gan gynnwys cynllun Prifysgol Morgannwg sydd hefyd yn cynnal cwrs ar wasanaethau cyhoeddus a brys. Deallaf fod hwnnw hefyd yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd.

Meini Prawf Derbyn yn Ysgolion Sir Ddinbych Denbighshire's Schools Admission Criteria

Q9 Ann Jones: Will the Minister make a statement on Denbighshire's schools admission criteria? OAQ0647(ELL)

Jane Davidson: I understand that Denbighshire is currently consulting on revised oversubscription criteria that would apply, when determined, to admissions from September 2007. In managing admission to schools, the LEA is keen to ensure that priority is given to local children and to

C9 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am feini prawf derbyn yn ysgolion sir Ddinbych? OAQ0647(ELL)

Jane Davidson: Deallaf fod Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn ymgynghori ar feini prawf diwygiedig a fyddai'n cael eu defnyddio, wrth eu penderfynu, ar ar gyfer derbyniadau ar ôl mis Medi 2007, pan fydd gormod o geisiadau. Wrth reoli derbyniadau i ysgolion, mae'r AALl yn awyddus i sicrhau rhoi

improving the clarity of its admission arrangements. I welcome that approach.

Ann Jones: I also welcome that approach. The current schools admission policy in Denbighshire is quite unclear at times in terms of how some schools are allowed to have selection criteria for pupils aged 11 and others are not. The current proposals are out to consultation among residents and parents. You will know that Prestatyn is to have a new primary school, courtesy of the Welsh Assembly Government, in 2007. Will you join me in hoping that Denbighshire's consultation process will ensure that those pupils who go to Prestatyn's new primary school will have been subject to the fairest and most open and transparent admissions policy possible?

3.00 p.m.

Jane Davidson: I can confirm the principle in the sense that it was the proposal to open the new primary school in Prestatyn that exposed to the local authority inadequacies in its appeal arrangements in terms of criteria that made no reference to catchment areas and which were generally unclear. Therefore, that started this process. I cannot comment on the overall outcome of the process because clearly it is still out to consultation and, at the end of the day, if there are objections to it, it would come to the Assembly Government for determination.

blaenoriaeth i blant lleol ac i wneud ei drefniadau derbyn yn fwy eglur. Croesawaf hynny.

Ann Jones: Yr wyf fi hefyd yn croesawu hynny. Mae'r polisi presennol ar dderbyniadau ysgolion yn sir Ddinbych yn eithaf aneglur ar brydiau am y ffordd y caniateir i rai ysgolion gael meini prawf dethol ar gyfer disgyblion 11 oed ac nid i eraill. Mae'r cynigion cyfredol yn destun ymgynghori ymhlith trigolion a rhieni. Fe wyddoch fod ysgol gynradd newydd i ddod ym Mhrestatyn, diolch i Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn 2007. A ydych chi, fel finnau, yn gobeithio y bydd proses ymgynghori sir Ddinbych yn sicrhau y bydd y disgyblion hynny sy'n mynd i ysgol gynradd newydd Prestatyn wedi eu hystyried o dan y polisi derbyn tecaf a mwyaf agored ac eglur sy'n bosibl?

Jane Davidson: Gallaf gadarnhau'r egwyddor yn yr ystyr mai'r cynnig i agor yr ysgol gynradd newydd ym Mhrestatyn a ddangosodd i'r awdurdod lleol fod methiannau yn ei drefniadau apelio o ran meini prawf nad oeddent yn cyfeirio at ddalgylchoedd, ac a oedd yn aneglur yn gyffredinol. Felly, hynny a roddodd gychwyn ar y broses hon. Ni allaf wneud sylw am ganlyniad cyffredinol y broses oherwydd yn amlwg mae'r ymgynghori am y broses honno yn parhau. Yn y pen draw, pe bai gwrthwynebiadau iddi, at Lywodraeth y Cynulliad y byddai'n dod i wneud penderfyniad terfynol.

Polisiâu Anghenion Addysgol Arbennig Special Educational Needs Policies

Q10 John Griffiths: Will the Minister make a statement on progress with Welsh Assembly Government policies for special educational needs in Wales? OAQ0671(ELL)

Jane Davidson: Progress on the implementation of our SEN policies continues apace. The Assembly Government is currently developing an inclusion policy and performance framework for Wales that considers the needs of all children and young

C10 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer anghenion addysgol arbennig yng Nghymru? OAQ0671(ELL)

Jane Davidson: Mae'r cynnydd o ran gweithredu ein polisiâu AAA yn mynd yn ei flaen. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu polisi cynhwysiant a fframwaith perfformiad ar gyfer Cymru sy'n ystyried anghenion pob plentyn a pherson

people with additional learning needs. We have also consulted on guidance on inclusion and pupil support.

John Griffiths: Like many AMs, I regularly meet with support groups for parents who have autistic children. Their concerns as to the support and assistance available to them and their children are very valid. So, I welcome the recent additional funding for facilities and resource measures to address autism in Gwent, based in Fairwater in Torfaen. It is a welcome development in terms of that enhancement and the collaboration between the different authorities involved. Will this approach now be considered for all of Wales?

Jane Davidson: Our first two proposals in terms of support for regional collaboration were in relation to autism. The first was Ysgol Plas Brondyffryn in north Wales for the six authorities there and the second was the new unit in Fairwater school in Cwmbran. I can confirm that the approach will be extended throughout Wales because the principle of local authorities collaborating over low incidence additional learning needs means that everyone gets a better deal. It also satisfies the 'Making the Connections' agenda of my colleague, the Finance Minister.

ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Yr ydym hefyd wedi ymgynghori am ganllawiau ar gynhwysiant a chymorth i ddisgyblion.

John Griffiths: Fel nifer o ACau, byddaf yn cwrdd yn rheolaidd â grwpiau cymorth i rieni sydd â phlant awtistig. Mae eu pryderon ynghylch y cymorth sydd ar gael iddynt hwy a'u plant yn rhai dilys iawn. Oherwydd hynny, croesawaf yr arian ychwanegol a roddwyd yn ddiweddar ar gyfer cyfleusterau a mesurau o ran adnoddau i fynd i'r afael ag awtistiaeth yng Ngwent, yn Fairwater yn Nhor-faen. Mae'n rhywbeth y dylid ei groesawu, o ran y datblygiad hwnnw a'r cydweithio rhwng y gwahanol awdurdodau dan sylw. A ystyrir defnyddio'r dull hwn yn awr ar gyfer Cymru gyfan?

Jane Davidson: Yng nghyswllt awtistiaeth y gwnaed ein dau gynnig cyntaf ar gyfer cefnogi cydweithredu rhanbarthol. Ysgol Plas Brondyffryn yn y gogledd oedd y cyntaf, ar gyfer y chwe awdurdod yno, a'r uned yn ysgol Fairwater yng Nghwmbrân oedd yr ail. Gallaf gadarnhau y caiff y dull hwn ei ymestyn ledled Cymru oherwydd golyga'r egwyddor o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol ar anghenion dysgu ychwanegol ar lefel isel y bydd pawb yn cael gwell bargaen. Mae hefyd yn bodloni agenda 'Creu'r Cysylltiadau' fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Cyllid.

Dulliau a Strwythurau Cydweithredol Co-operative Methods and Structures

Q11 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on how the school curriculum in Wales recognises co-operative methods and structures? OAQ0674(ELL)

Jane Davidson: The programme of study for history provides opportunities for schools to study the co-operative movement. In addition, initiatives such as Young Co-operatives can contribute to the delivery of personal and social education and work-related education.

Huw Lewis: Thank you, Minister; that is welcome. As a co-operator myself, I was delighted to see the reference to the Young

C11 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffordd mae cwricwlwm ysgolion yng Nghymru yn cydnabod dulliau a strwythurau cydweithredol? OAQ0674(ELL)

Jane Davidson: Mae'r rhaglen astudio ar gyfer hanes yn rhoi cyfleoedd i ysgolion astudio'r mudiad cydweithredol. Yn ogystal, gall mentrau megis y Cydweithredwyr Ifanc gyfrannu at ddarparu addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith.

Huw Lewis: Diolch, Weinidog; yr wyf yn coesawu hynny. Fel cydweithredwr fy hun, yr oeddwn yn falch iawn gweld cyfeiriad at

Co-operatives scheme in the 14-19 Learning Pathways report. I appreciate that you are in the process of developing the report's action plan, but would you consider the following points in terms of perhaps making that suggestion a little more robust: the distribution of information packs on Young Co-operatives to schools in Wales; the appointment of a full-time officer to boost the take-up of Young Co-operatives schemes and perhaps the establishment of a database of social enterprises so that work experience in a co-operative environment could be made real for these young people?

Jane Davidson: I am happy to consider those points. It is also important to say that we have three secondary schools in Wales that are registered to deliver the Young Co-operatives programme at the moment. We want to evaluate that in terms of spreading it more widely across the 14-19 agenda. We already provide curriculum support materials through the Dynamo programme across the key stages so that we can always consider ways of finding other influences that will encourage young people to exercise enterprise effectively.

gynllun y Cydweithredwyr Ifanc yn yr adroddiad Llwybrau Dysgu 14-19. Gwerthfawrogaf y ffaith eich bod wrthi'n datblygu cynllun gweithredu'r adroddiad, ond a fydddech yn ystyried y pwyntiau canlynol o ran gwneud yr awgrym hwnnw ychydig yn fwy cadarn, efallai: dosbarthu pecynnau gwybodaeth am y Cydweithredwyr Ifanc i ysgolion Cymru; penodi swyddog llawn amser i annog pobl ifanc i gymryd rhan yng nghynlluniau'r Cydweithredwyr Ifanc, ac efallai sefydlu cronfa ddata o fentrau cymdeithasol fel y gellid gwneud profiad gwaith mewn amgylchedd cydweithredol yn rhywbeth gwirioneddol i'r bobl ifanc hyn?

Jane Davidson: Yr wyf yn fodlon ystyried y pwyntiau hynny. Mae'n bwysig dweud hefyd fod gennym dair ysgol uwchradd yng Nghymru sydd wedi cofrestru i ddarparu rhaglen y Cydweithredwyr Ifanc ar hyn o bryd. Yr ydym am werthuso hynny gyda golwg ar gyflwyno'r rhaglen yn ehangach yn yr agenda 14-19 oed. Drwy'r rhaglen Dynamo, yr ydym eisoes yn darparu deunyddiau cymorth cwricwlwm ar draws y cyfnodau allweddol, fel y gallwn bob amser ystyried ffyrdd newydd i ddod o hyd i ddylanwadau eraill a fydd yn annog pobl ifanc i arfer mentergarwch yn effeithiol.

Datganiad Busnes Diwygiedig Revised Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I present a revised business statement in accordance with Standing Orders Nos. 5.4 and 5.5. The draft statement can be found on the Chamberweb under supporting documents.

Nick Bourne: Point of order. I do not think that it is available on the Chamberweb.

The Presiding Officer: It is on mine.

Jane Hutt: Would it be in order for me to identify the changes?

The Presiding Officer: I propose that we delay the taking of this statement until we are able to receive it electronically, as is appropriate.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cyflwynaf ddatganiad busnes diwygiedig yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 5.4 a 5.5. Mae'r datganiad drafft i'w weld ar we'r Siambr o dan 'dogfennau ategol'.

Nick Bourne: Pwynt o drefn. Nid wyf yn credu ei fod ar gael ar we'r Siambr.

Y Llywydd: Mae ar fy ngwe i.

Y Trefnydd: A fyddai gywir imi nodi'r newidiadau?

Y Llywydd: Cynigiau ein bod yn gohirio derbyn y datganiad hwn nes gallwn ei dderbyn yn electronig, fel sy'n briodol.

Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 2 (Cymru) 2006—Sylweddau sy'n Teneuo'r Haen Oson
Approval of Special Grant Report 2 (Wales) 2006—Ozone Depleting Substances

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I propose that

the National Assembly for Wales:

under section 88B of the Local Government Finance Act 1988, and in accordance with Standing Order No. 21.11, approves the Local Government Finance (Wales) Special Grant Report (No. 2) (Wales) (2006), which was laid in the Table Office on 20 January 2006. (NDM2818)

This grant of £2.4 million, which will be provided to local authorities, continues our commitment to support local authorities in the collection, storage and disposal of domestic fridges and freezers. With the £2.4 million proposed in this special grant report, the Assembly will have approved a total of £11.98 million for local authorities to use to deal with the collection, storage and disposal of domestic fridges.

Brynle Williams: I welcome this grant support being made available to local authorities. Ozone-depleting substances are still a serious issue. I remember them being one of the major environmental issues spoken about in the 1980s and 1990s, and it is regrettable that they no longer have such a high public profile, particularly as public debate is currently focused—with good reason—on climate change and global warming. The protective ozone layer in the earth's atmosphere remains in a fragile state, and Governments have to be proactive in dealing with substances that destabilise the natural equilibrium in the atmosphere.

The 1987 Montreal Protocol, which froze chlorofluorocarbon production and planned for long-term reductions, was an important turning point. This is a long-lasting issue. Despite the action after the treaty, the ozone hole above the Antarctic has continued to grow, reaching its largest ever recorded size

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Cynigiad fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

dan adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.11, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) (2006) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2006. (NDM2818)

Mae'r grant hwn o £2.4 miliwn, a gaiff ei ddarparu i awdurdodau lleol, yn parhau ein hymrwymiad i gefnogi awdurdodau lleol wrth gasglu, storio a gwaredu oergelloedd a rhewgelloedd cartref. Gyda'r £2.4 miliwn a gynigir yn yr adroddiad grant arbennig hwn, bydd y Cynulliad wedi cymeradwyo cyfanswm o £11.98 miliwn i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ymdrin â'r gwaith o gasglu, storio a gwaredu oergelloedd cartref.

Brynle Williams: Croesawaf y ffaith fod y cymorth grant hwn ar gael i awdurdodau lleol. Mae sylweddau sy'n teneuo'r osôn yn dal yn fater difrifol. Cofiaf fod hyn yn un o'r prif faterion amgylcheddol a drafodid yn ystod yr 1980au a'r 1990au. Mae'n drueni nad oes cymaint o sôn amdanynt yn gyhoeddus mwyach, yn enwedig gan fod y drafodaeth gyhoeddus ar hyn o bryd yn canolbwyntio—ac mae rheswm da dros hynny—ar newid yn yr hinawdd a chynhesu byd-eang. Mae'r haen osôn amddiffynnol yn atmosffer y ddaear mewn cyflwr bregus o hyd, a rhaid i Lywodraethau fod yn rhagweithiol wrth ymdrin â sylweddau sy'n ansefydlogi cydbwysedd naturiol yr atmosffer.

Yr oedd Protocol Montreal 1987, a oedd yn rhewi'r broses o gynhyrchu clorofflorocarbon ac yn cynllunio ar gyfer gostyngiadau hirdymor, yn drobwynt pwysig. Mae hwn yn fater a fydd yn para'n hir. Er gwaethaf y gweithredu ar ôl y cytundeb, mae'r twll yn yr osôn uwchben yr Antarcig

in 2000. While developed countries initially made great strides towards reducing the amount of ozone-depleting substances released into the atmosphere, these reductions are now levelling off. Studies have shown that chlorofluorocarbons that should have been exhausted in developed countries are still widely used. It is perhaps unsurprising that the research recently published in the US and Canada predicted that the protective ozone layer will not recover fully until 2065. That is pushing back the previous estimates by over a decade. This may not seem like an immediate issue for Wales, but the effects are already being felt elsewhere in the world. In Chile for example, a 2002 study found that over seven years, the rate of skin cancer had increased by 66 per cent.

wedi parhau i dyfu, ac erbyn y flwyddyn 2000 yr oedd wedi tyfu i'r maint mwyaf a gofnodwyd erioed. Er bod gwledydd datblygedig wedi gwneud camau breision ar y dechrau i leihau'r sylweddau sy'n teneuo'r osôn yr oeddynt yn eu gollwng i'r atmosffer, mae'r gostyngiadau hyn bellach yn gwastatáu. Mae astudiaethau wedi dangos bod clorofflorocarbonau a ddylai fod wedi eu disbyddu mewn gwledydd datblygedig yn dal i gael eu defnyddio'n eang. Efallai nad yw'n syndod fod yr ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn yr Unol Daleithiau a Chanada wedi rhag-weld nad adferir yr haen osôn amddiffynnol yn llwyr tan 2065. Mae hynny ddegawd yn hwyrach na'r amcangyfrifon blaenorol. Efallai nad yw hyn yn ymddangos yn fater y dylai Cymru ymdrin ag ef ar unwaith, ond mae'r effeithiau i'w gweld mewn rhannau eraill o'r byd eisoes. Yn Chile, er enghraifft, darganfu astudiaeth yn 2002 fod cyfradd canser y croen wedi cynyddu 66 y cant mewn cyfnod o saith mlynedd.

The UVB rays that are increasingly making it through the atmosphere also have the potential to damage the ocean plankton, which is at the base of the marine food chain, with catastrophic effects for marine life as a whole. As I have just outlined, the safe disposal of ozone-depleting substances remains a pressing issue, and I am encouraged that the Welsh Assembly Government has allocated funds to local authorities to deal with the goods that contain them. However, given that local authorities are receiving these additional funds until 2007, when the waste electrical equipment directive will come into force, I have practical concerns over the discretion they will have over charging for the collection of heavier items. This is a point I highlighted recently when discussing the household waste duty of care regulations. If local authorities are to reduce the number of fly-tipping incidents then they have to provide appropriate disposal services for larger items, and raise awareness among households of the legitimate disposal services available to them.

Gallai'r pelydrau uwchfioled B sy'n llwyddo fwyfwy i dreiddio drwy'r atmosffer wneud niwed hefyd i'r plancton yn y cefnforoedd, sy'n sail i gadwyn fwyd y môr, a gallai hynny effeithio'n drychinebus ar holl fywyd y môr. Fel yr wyf newydd ei amlinellu, mae gwaredu sylweddau sy'n teneuo'r osôn yn ddiogel yn fater brys o hyd, ac yr wyf yn falch fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu arian i awdurdodau lleol i ymdrin â'r nwyddau sy'n eu cynnwys. Fodd bynnag, o gofio y bydd awdurdodau lleol yn cael yr arian ychwanegol hwn tan 2007, pan ddaw'r gyfarwyddeb cyfarpar trydan gwastraff i rym, yr wyf yn pryderu'n wirioneddol am y disgresiwn a fydd ganddynt i godi tâl am gasglu eitemau trymion. Mae hwn yn bwynt y tynnais sylw ato'n ddiweddar wrth drafod y rheoliadau dyletswydd gofal gwastraff cartrefi. Os yw awdurdodau lleol am leihau nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon, rhaid iddynt ddarparu gwasanaethau gwastraff priodol ar gyfer eitemau mawr, a sicrhau bod cartrefi'n ymwybodol o'r gwasanaethau gwaredu cyfreithlon sydd ar gael iddynt.

3.10 p.m.

When fridges and freezers are dumped Pan gaiff oergelloedd a rhewgelloedd eu

illegally the damage to the environment will already have been done. Securing a prosecution against the offender may act as a deterrent to others, but the ozone-depleting substances will already have been released. This is why the prevention of illegal dumping through more local authorities offering free collection services for heavier items should be encouraged.

While the majority of households requiring the disposal of refrigeration equipment will naturally be in urban areas, this service should be a particular benefit for rural Wales as it is often the small roads and lanes in the countryside that are prime sites for fly-tipping.

Finally, given the fiasco that Wales had with fridge mountains in 2002 I ask for the Minister's assurance that sufficient disposal capacity is in place within Wales to prevent a repeat of these circumstances.

The Presiding Officer: Order. The revised business statement is now on the Chamberweb therefore I will be able to take that item at the end of the present debate.

Mick Bates: It is great to see the influence that Zac Goldsmith has already had on some of the Tory party members.

The Welsh Liberal Democrats welcome the special grant report. However, I am slightly concerned about the effectiveness of the whole scheme at this stage, Minister. I have two points for you to respond to in your summing up. First is the destination of the white goods—in this case, fridges. I am deeply concerned that if you were to do a lifecycle measure on items such as fridges, you would find that the footprint is enormous because a lot of these goods, I believe, end up in other parts of the globe where they are broken down into their component parts and sold on. What evidence do you have to ensure that this expenditure, which is for a welcome scheme, fits in with your duty to take sustainable development into account in all your actions?

Secondly, I welcome Comet's take-back

dympio'n anghyfreithlon, bydd y niwed i'r amgylchedd eisoes wedi ei wneud. Efallai y bydd erlyn y troseddwr yn rhwystro eraill rhag gwneud yr un peth, ond bydd y sylweddau sy'n teneuo'r osôn wedi eu rhyddhau erbyn hynny. Dyna pam y dylid annog mwy o awdurdodau lleol i atal dympio anghyfreithlon drwy gynnig gwasanaethau casglu am ddim ar gyfer eitemau trymion.

Er mai mewn ardaloedd trefol, yn naturiol, y bydd mwyafrif y cartrefi y mae angen iddynt waredu cyfarpar oeri, dylai'r gwasanaeth hwn fod o les penodol yng nghefn gwlad Cymru, gan mai ar ffyrdd a lonydd cul cefn gwlad y gwelir tipio anghyfreithlon ar ei waethaf.

Yn olaf, o ystyried y llanastr a fu yng Nghymru yn 2002 gyda phentyrrau o oergelloedd, gofynnaf am sicrwydd gan y Gweinidog fod adnoddau gwaredu digonol ar gael yng Nghymru i atal hyn rhag digwydd eto.

Y Llywydd: Trefn. Mae'r datganiad busnes diwygiedig ar we'r Siambr bellach, felly, gallwn fynd at yr eitem honno ar ddiwedd y ddadl hon.

Mick Bates: Mae'n dda gweld bod Zac Goldsmith eisoes wedi cael dylanwad ar rai aelodau o'r blaid Doriaidd.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r adroddiad grant arbennig. Fodd bynnag, yr wyf ychydig yn bryderus ynghylch effeithiolrwydd yr holl gynllun ar hyn o bryd, Weinidog. Mae gennyf ddau bwynt ichi ymateb iddynt pan fyddwch yn crynhoi. Y cyntaf yw pen taith y nwyddau gwynion—oergelloedd yn yr achos hwn. Yr wyf yn pryderu'n fawr, pe byddech yn mesur cylch bywyd eitemau fel oergelloedd, y byddech yn gweld bod yr ôl-troed ecolegol yn anferthol gan fod llawer o'r nwyddau hyn, mi gredaf, yn dod i ben eu taith mewn rhannau eraill o'r byd, lle cânt eu torri'n gydrannau llai a'u gwerthu. Pa dystiolaeth sydd gennych i sicrhau bod y gwariant hwn, ar gynllun yr ydym yn ei groesawu, yn cydfynd â'ch dyletswydd i ystyried datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnewch?

Yn ail, croesawaf gynllun cwmni Comet ar

scheme. What discussions have you had with similar electrical suppliers to encourage them to have take-back schemes so that, ultimately, the retailers and manufacturers of these goods have the responsibility to recycle them, rather than local authorities having to provide the sites?

Glyn Davies: I congratulate Brynle Williams on a well-informed and well-put-together speech.

The chairman and vice-chairman of the quality of life group that has been set up by the leader of my party at Westminster are John Gummer and Zac Goldsmith, respectively. I am sure that Brynle Williams's contribution today will be of great interest to them.

We support the special grant report before us today. It deals with one specific item that is of great importance. As a general rule, I do not support hypothecation, but when you are dealing with an instance that is as important as this one, we must set aside the principle of opposing hypothecation and welcome the money that has been put forward.

I am interested in the actual sum of money: £2 million has been put behind this scheme for the next financial year. This will no doubt be a long-term problem, and this is a considerable sum of money to deal with just one year. The Minister needs to give us some idea of the sort of calculations that he has made about the amount of money that will be required to deal with this problem in future years.

I also pay credit to Mr David Davies, who is now in the Chamber. I was first alerted to the real issue relating to fridges by a contribution that David Davies made in this Chamber. At the time, a lot of people—including me—did not believe that this would be a major issue. We all knew about the importance of the ozone layer, the effect that climate change was having, the threat to our world, and what that meant. However, none of us realised at the time that this one issue relating to fridges was such an important part of it. We all owe David Davies a debt of gratitude for alerting us to a problem. His contribution in this

gyfer cymryd nwyddau'n ôl. Pa drafodaethau a gawsoch gyda chyflenwyr nwyddau trydan tebyg i'w hannog i gael cynlluniau cymryd yn ôl, er mwyn i fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr y nwyddau hyn fod yn gyfrifol, yn y pen draw, am eu hailgylchu, yn hytrach na bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu'r safleoedd?

Glyn Davies: Yr wyf yn llongyfarch Brynle Williams am araith hyddysg a threfnus.

John Gummer a Zac Goldsmith yn y drefn honno yw cadeirydd ac is-gadeirydd y grŵp ansawdd bywyd a sefydlwyd gan arweinydd fy mhlaid yn San Steffan. Yr wyf yn siŵr y bydd cyfraniad Brynle Williams heddiw o ddiddordeb mawr iddynt.

Yr ydym yn cefnogi'r adroddiad grant arbennig sydd o'n blaenau heddiw. Mae'n ymdrin ag un eitem benodol sydd o bwys mawr. Fel rheol, ni fyddaf yn cefnogi clustnodi, ond pan fyddwch yn ymdrin â mater mor bwysig â hwn, rhaid inni roi'r egwyddor o wrthwynebu clustnodi o'r neilltu a chroesawu'r arian a ddarparwyd.

Mae gennyf ddiddordeb yn y swm o arian ei hun: rhoddwyd £2 filiwn i gefnogi'r cynllun hwn am y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ddi-os, bydd hon yn broblem faith, ac mae hwn yn swm sylweddol o arian i ymdrin â hi am flwyddyn yn unig. Mae angen i'r Gweinidog roi rhyw syniad inni o'r math o gyfrifo a wnaed ganddo ynghylch faint o arian y bydd ei angen i fynd i'r afael â'r broblem hon yn y blynyddoedd i ddod.

Yr wyf yn canmol Mr David Davies hefyd, sydd yn y Siambr erbyn hyn. Tynnwyd fy sylw at fater oergelloedd yn wreiddiol gan gyfraniad a wnaeth David Davies yn y Siambr hon. Ar y pryd, yr oedd nifer o bobl—a minnau yn eu plith—yn credu na fyddai hwn yn fater o bwys. Gwyddem oll am bwysigrwydd yr haen osôn, yr effaith yr oedd newid yn yr hinsawdd yn ei chael, y bygythiad i'n byd, a goblygiadau hynny. Fodd bynnag, nid oedd neb ohonom yn sylweddoli ar y pryd fod y mater oergelloedd yn rhan mor bwysig o hynny. Mae arnom ddyled fawr i David Davies am dynnu ein

Chamber played a significant part in bringing forward the legislation that has dealt with this, and the finance report that is before us today.

I support this finance report. I congratulate the Minister on bringing it forward, and he will have my party's full support.

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): Two companies will be involved in disposal, one of which is in Mick Bates's own constituency.

sylw at broblem. Yr oedd ei gyfraniad yn y Siambr hon yn bwysig i gyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd wedi ymdrin â hyn, a'r adroddiad cyllid sydd ger ein bron heddiw.

Yr wyf yn cefnogi'r adroddiad cyllid hwn. Yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog ar gyflwyno'r adroddiad, a bydd fy mhlaid yn rhoi ei chefnogaeth lwyr iddo.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Bydd dau gwmni'n ymwneud â gwaredu, un ohonynt yn etholaeth Mick Bates ei hun.

*Cynnig (NDM2818): O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2818): For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet

Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Williams, Brynle
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Datganiad Busnes Drafft Diwygiedig Revised Draft Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I come forward with a revised business statement, in accordance with Standing Orders Nos. 5.4 and 5.5. The draft statement can be found on the Chamberweb under supporting documents. The changes are as follows: on Wednesday, 8 February, there will be a motion to approve the Local Government Finance Report (No. 2) 2006-07 (Final Settlement—Police Authorities), a motion to approve the Local Government Finance Report (Police Authorities) (Wales) 2004-05 Amending Report, a motion to approve the Local Government Finance Report (Police Authorities) (Wales) 2005-06 Amending Report, and on Wednesday, 15 February, a statement by the Minister for Health and Social Services on free home care for the disabled, and on NHS finances.

Y Llywydd: A oes unrhyw wrthwynebiad i'r datganiad busnes drafft diwygiedig? Gwelaf nad oes. Yr wyf yn gwahodd sylwadau ar y datganiad busnes.

Helen Mary Jones: Thank you, Minister, for amending your business statement in line with our requests. I draw your attention to one additional matter. This is not a matter for objection today, but we have mentioned on several occasions the need for a statement in response to the Welsh Language Board's public statement last week. I was pleased, in the Health and Social Services Committee meeting this morning, to have the Deputy Minister, John Griffiths, affirm that the Government, for example, supported the principle of a rights-based approach to the provision of healthcare through the medium of Welsh. We need to see whether that approach will be consistent across Government. Therefore, I would urge you to

Y Trefnydd (Jane Hutt): Cyflwynaf ddatganiad busnes diwygiedig, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhif 5.4 a Rhif 5.5. Mae'r datganiad drafft ar we'r Siambr o dan ddogfennau ategol. Mae'r newidiadau fel a ganlyn: dydd Mercher, 8 Chwefror, bydd cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2006-07 (Setliad Terfynol—Awdurdodau'r Heddlu); cynnig i gymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau'r Heddlu) (Cymru) 2004-05, a chynnig i gymeradwyo Adroddiad Diwygio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Awdurdodau'r Heddlu) (Cymru) 2005-06 a dydd Mercher, 15 Chwefror, datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ofal cartref am ddim i bobl anabl, ac am gyllid y GIG.

The Presiding Officer: Are there any objections to the revised draft business statement? I see that there are not. I invite comments on the business statement.

Helen Mary Jones: Diolch ichi, Weinidog, am ddiwygio'ch datganiad busnes yn unol â'n ceisiadau. Hoffwn dynnu'ch sylw at un mater ychwanegol. Nid yw hwn yn fater i'w wrthwynebu heddiw, ond yr ydym wedi sôn droeon fod angen datganiad i ymateb i ddatganiad cyhoeddus Bwrdd yr Iaith Gymraeg yr wythnos diwethaf. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bore yma, yr oeddwn yn falch clywed y Dirprwy Weinidog, John Griffiths, yn cadarnhau bod y Llywodraeth, er enghraifft, yn cefnogi egwyddor darparu gofal iechyd yn y Gymraeg ar sail hawl. Mae angen inni weld a fydd hynny'n gyson ar draws y Llywodraeth. Felly, apelïaf arnoch i ystyried hynny. Yr wyf

consider that. I am also particularly pleased to see a statement on the delivery of free home care for disabled people.

Lisa Francis: Thank you, Business Minister, for coming back with this revised statement today. I am pleased that we will have these oral statements from the Minister for Health and Social Services on 15 February, particularly on the finances of local health boards and NHS trusts, and deficits therein. I look forward to the fact that we also hope to have a debate before the end of March on that subject, and on the effect that the deficits are having on NHS service provision. I hope that you can assure us that this will go ahead before the end of March.

Peter Black: I also welcome the additional statement on NHS finances. It is important that we have an opportunity to scrutinise the Minister on the impact on services of these deficits, which many trusts face. Could the Minister confirm, as Lisa Francis has asked, that we will also have a debate with an amendable motion on this before the end of March?

The Business Minister (Jane Hutt): I take note of your further points, Helen Mary. I assure you, Lisa and Peter, that, as I gave the commitment yesterday, there will be a debate on NHS finances in March.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.19 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.19 p.m.*

Cymunedau yn Gyntaf Communities First

Motion (NDM2816): to propose that

the National Assembly for Wales:

1. welcomes the positive achievements of the Communities First Programme, and recognises the long-term nature of investment required to bring about change in this area;

hefyd yn falch iawn gweld datganiad am ddarparu gofal cartref am ddim i bobl anabl.

Lisa Francis: Diolch ichi, Drefnydd, am gyflwyno'r datganiad diwygiedig hwn heddiw. Yr wyf yn falch y byddwn yn cael y datganiadau llafar hyn gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 15 Chwefror, yn arbennig ar gyllid byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, a'r diffygion sydd ganddynt. Edrychaf ymlaen at y ffaith ein bod hefyd yn gobeithio cael dadl cyn diwedd mis Mawrth ar y pwnc hwnnw, ac ar effaith y diffygion ar ddarparu gwasanaethau'r GIG. Gobeithio y byddwch yn gallu rhoi sicrwydd inni y bydd hyn yn digwydd cyn diwedd mis Mawrth.

Peter Black: Yr wyf fi hefyd yn croesawu'r datganiad ychwanegol am gyllid y GIG. Mae'n bwysig inni gael cyfle i holi'r Gweinidog am effaith y diffygion hyn, sy'n wynebu nifer o ymddiriedolaethau, ar wasanaethau. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau, yn unol â chais Lisa Francis, y byddwn hefyd yn cael dadl gyda chynnig y gellir ei ddiwygio ar hyn cyn diwedd mis Mawrth?

Y Trefnydd (Jane Hutt): Nodaf eich pwyntiau ychwanegol, Helen Mary. Gallaf roi sicrwydd i chi, Lisa a Peter, gan imi ymrwymo i hynny ddoe, y bydd dadl ar gyllid y GIG ym mis Mawrth.

Cynnig (NDM2816): cynnig bod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn croesawu cyflawniadau cadarnhaol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac yn cydnabod natur hirdymor y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau newid yn y maes hwn;

<p>2. <i>reaffirms the programme's commitment to local ownership and implementation within a nationally-agreed framework.</i></p>	<p>2. <i>yn ail-gadarnhau ymrwymiad y rhaglen i berchnogaeth a gweithrediad lleol o fewn fframwaith y cytunwyd arno ar lefel genedlaethol.</i></p>
<p>Amendment 1 in the name of Jocelyn Davies. In point 2 insert after 'area':</p>	<p>Gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies. Ym mhwynt 2, cynnwys ar ôl 'ardal':</p>
<p><i>but notes with concern that the Welsh Assembly Government has set no measurable targets for poverty reduction in the Communities First programme.</i></p>	<p><i>ond yn nodi gyda phryder nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod unrhyw dargedau mesuradwy ar gyfer lleihau tlodi yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.</i></p>
<p>Amendment 2 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:</p>	<p>Gwelliant 2 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p>
<p><i>calls on the Welsh Assembly Government to ensure that, when published, the main report of the ongoing evaluation of the Communities First programme is debated by the Assembly in Plenary.</i></p>	<p><i>yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau, pan gaiff ei gyhoeddi, y trafodir prif adroddiad y gwerthusiad parhaus o raglen Cymunedau yn Gyntaf gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.</i></p>
<p>Amendment 3 in the name of Kirsty Williams. Add a new point at the end of the motion:</p>	<p>Gwelliant 3 yn enw Kirsty Williams. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p>
<p><i>Calls on the Welsh Assembly Government to work with the education sector to ensure that there is a sufficient number of professionally trained community development officers throughout Wales.</i></p>	<p><i>Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda'r sector addysg i sicrhau bod digon o swyddogion datblygu cymunedol ledled Cymru sydd wedi eu hyfforddi'n broffesiynol.</i></p>
<p>Amendment 4 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:</p>	<p>Gwelliant 4 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p>
<p><i>urges the Welsh Assembly Government to incorporate regional warden resources centres into its Communities First strategy.</i></p>	<p><i>yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys canolfannau adnoddau wardeniaid rhanbarthol yn ei strategaeth Cymunedau yn Gyntaf.</i></p>
<p>Amendment 5 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:</p>	<p>Gwelliant 5 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p>
<p><i>expresses concern that housing is not at the centre of Welsh community regeneration and the Communities First programme.</i></p>	<p><i>yn mynegi pryder oherwydd nad yw tai wrth galon adfywio cymunedol Cymru na rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.</i></p>
<p>Amendment 6 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:</p>	<p>Gwelliant 6 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</p>
<p><i>notes that local ownership means that the biggest part of partnership should come from empowered communities.</i></p>	<p><i>yn nodi bod perchnogaeth leol yn golygu y dylai rhan fwyaf y bartneriaeth ddod o gymunedau sydd wedi'u grymuso.</i></p>

Amendment 7 in the name of Lisa Francis. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to ensure that all Communities First programme (pockets of deprivation) electoral divisions are not discriminated against and are included within the higher education 'Reaching Higher, Reaching Wider' targets.

Gwelliant 7 yn enw Lisa Francis. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn holl ardaloedd etholiadol rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (pocedi o amddifadedd) ac y cânt eu cynnwys yn nhargedau 'Ymgynraedd yn Uwch, Ymgynraedd yn Ehangach' addysg uwch.

Amendment 8 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

supports the principle of an effective, well-funded anti-poverty programme.

Gwelliant 8 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cefnogi egwyddor rhaglen gwrthdlodi effeithiol a gyllidir yn dda.

Amendment 9 in the name of Jocelyn Davies. Add a new point at the end of the motion:

notes the concerns raised in the interim evaluation of the Communities First programme.

Gwelliant 9 yn enw Jocelyn Davies. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi'r pryderon a godwyd yn y gwerthusiad dros dro o'r raglen Cymunedau yn Gyntaf.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 8 and 9 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2 and 3 in the name of Kirsty Williams and amendments 4, 5, 6 and 7 in the name Lisa Francis.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 8 a 9 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2 a 3 yn enw Kirsty Williams a gwelliannau 4, 5, 6 a 7 yn enw Lisa Francis.

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): I propose that

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Cynigiau fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. welcomes the positive achievements of the Communities First programme, and recognises the long-term nature of investment required to bring about change in this area;

1. yn croesawu cyflawniadau cadarnhaol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac yn cydnabod natur hirdymor y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau newid yn y maes hwn;

2. reaffirms the programme's commitment to local ownership and implementation within a nationally-agreed framework. (NDM2816)

2. yn ail-gadarnhau ymrwymiad y rhaglen i berchnogaeth a gweithrediad lleol o fewn fframwaith y cytunwyd arno ar lefel genedlaethol. (NDM2816)

Communities First is only four years old. Some 137 Communities First partnerships have been established. We have provided funding of over £112 million since 2001, which I think everyone will agree is a substantial fund.

Dim ond pedair blynedd sydd er pan ddechreuodd Cymunedau yn Gyntaf. Mae tua 137 o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi'u sefydlu. Yr ydym wedi darparu dros £112 miliwn o gyllid er 2001, a chredaf y bydd pawb yn cytuno bod hynny'n swm sylweddol.

However, we need to be honest about Communities First. The pace of development differs between areas, as does its success. A slower pace often reflects the absence of community organisations and institutions before Communities First, which has an impact on the development of the Communities First programme. There are a range of models in place according to local circumstances and a range of experience among local residents.

3.20 p.m.

It is a ground-breaking programme, which encourages and supports risk taking, so it is bound to produce many issues. However, the vast majority of projects across Wales work through the energy and commitment of local people who know best how their own communities work and what is needed to make them work even better in the future. Communities First is giving these people a voice and helping to get that voice heard; that is the key difference between Communities First and other community regeneration initiatives. This programme is about generational change; many Communities First areas have been experiencing disadvantage since the end of first world war—not even the second world war. It will take time and there are no quick-fix solutions. We are all learning as we go along, and I am honest enough, I think, to recognise that this is a learning experience. We want all the partnerships to come to the same state of maturity and effectiveness, but, for some, it will be a short distance to travel, while for others, it will be long distance.

I now turn to the amendments. We will not be supporting the first amendment in the name of Jocelyn Davies, because Communities First is helping to bring about change in local authorities, agencies and so on. The interim evaluation has recognised that we need to strengthen capacity in those areas, and the evaluation will concentrate its reporting on intermediate outcomes that reflect the changes in attitudes and ways of working. In the long run, when the partnerships come to the same maturity, you will be able to look at some measurable targets within that

Fodd bynnag, mae angen inni fod yn onest ynglŷn â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r cynnydd a wneir yn amrywio rhwng ardaloedd, fel y mae'r llwyddiant. Mae llai o gynnydd yn aml yn adlewyrchu'r ffaith bod diffyg mudiadau a sefydliadau cymunedol cyn Cymunedau yn Gyntaf, a hynny wedi cael effaith ar ddatblygiad y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae nifer o fodelau ar waith yn ôl yr amgylchiadau lleol ac amrywiaeth y profiad ymhlith trigolion lleol.

Mae'n rhaglen arloesol, sy'n annog ac yn cefnogi mentro, ac felly mae'n sicr o gynhyrchu nifer o broblemau. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o brosiectau ledled Cymru yn llwyddo drwy egni ac ymrwymiad pobl leol, sy'n gwybod orau sut y mae eu cymunedau'n gweithio a'r hyn y mae ei angen er mwyn gwneud iddynt weithio hyd yn oed yn well yn y dyfodol. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhoi llais i'r bobl hyn ac yn help i'r llais hwnnw gael ei glywed; dyna'r gwahaniaeth allweddol rhwng Cymunedau yn Gyntaf a mentrau eraill ym maes adfywio cymunedol. Mae a wnelo'r rhaglen hon â newid pethau sy'n bod ers cenedlaethau; mae nifer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn ddifreintiedig ers diwedd y rhyfel byd cyntaf—nid ers yr ail ryfel byd, hyd yn oed. Fe gymer amser ac nid oes atebion hawdd. Yr ydym i gyd yn dysgu wrth fynd yn eu blaenau, ac yr wyf yn ddigon gonest, mi gredaf, i gydnabod mai profiad dysgu ydyw. Yr ydym am i bob partneriaeth fod mor aeddfed ac effeithiol â'i gilydd. Ond i rai bydd hynny'n hawdd, ac i eraill bydd tipyn o ffordd i fynd.

Trof yn awr at y gwelliannau. Ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant cyntaf yn enw Jocelyn Davies, am fod Cymunedau yn Gyntaf yn helpu newid awdurdodau lleol, asiantaethau, ac ati. Mae'r gwerthusiad interim wedi cydnabod bod angen inni atgyfnerthu'r meysydd hynny, ac yn ei adroddiadau bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar ganol y rhaglen sy'n adlewyrchu'r newidiadau mewn agweddau a dulliau gwaith. Yn y pen draw, pan fydd y partneriaethau yr un mor aeddfed, bydd modd ichi edrych ar rai targedau mesuradwy yn y

particular context.

We will be supporting the second amendment in the name of Kirsty Williams. In the first instance, I will be taking it to the Social Justice and Regeneration Committee and then to a full debate in Plenary. We will also be supporting the third amendment in the name of Kirsty Williams. We have to recognise that the amendment reaches far wider than just the Communities First programmes, since the call for community development officers extends across Wales. There are different levels of need across Wales, which are already being met from existing provision in the voluntary, statutory and academic sectors. We recognise the need to pull this provision together in a framework. My officials will work with colleagues in the education department to explore this; Jane Davidson and I have already had initial discussions on this matter.

We also need to attract—when you are talking about community development workers—the best that are available from wherever they are. That is important, because people bring innovative ideas to this particular agenda, but in ensuring that we do this, we must also recognise that we have not yet come to a conclusion on how we are going to do it. That will be the subject of detailed discussions.

Turning to Lisa Francis's amendment 4 on regional warden resource centres, Communities First is based on the principle that partnerships identify their own priorities. I am not going to be prescriptive on what partnerships will want to do in this particular area. This warden stuff came out of material produced by the Office of the Deputy Prime Minister some time ago.

Turning to amendment 5, Lisa is saying that she is concerned that 'housing is not at the centre of Welsh community regeneration', when it clearly is, because it is in the Communities First document, 'Communities Vision Framework'. In addition, many tenant and resident associations are involved with, and are members of, Communities First

cyd-destun penodol hwnnw.

Byddwn yn cefnogi'r ail welliant yn enw Kirsty Williams. Yn y lle cyntaf, byddaf yn ei godi gyda'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ac yna'n ei gyflwyno mewn dadl lawn yn y Cyfarfod Llawn. Byddwn hefyd yn cefnogi'r trydydd gwelliant yn enw Kirsty Williams. Rhaid inni gydnabod bod cwmpas y gwelliant lawer yn ehangach na'r rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, gan fod y galw am swyddogion datblygu cymunedol yn cwmpasu Cymru gyfan. Mae anghenion gwahanol ar hyd a lled Cymru sydd eisoes yn cael eu diwallu gan y ddarpariaeth bresennol yn y sectorau gwirfoddol, statudol ac academaidd. Cydnabyddwn fod angen dwyn y ddarpariaeth hon ynghyd mewn fframwaith. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda chydswyddogion yn yr adran addysg i ystyried hyn; mae Jane Davidson a minnau eisoes wedi cael trafodaethau cychwynnol ar y mater hwn.

Mae angen hefyd inni ddenu—os ydych yn sôn am weithwyr datblygu cymunedol—y goreuon sydd ar gael o ble bynnag y dônt. Mae hynny'n bwysig gan fod pobl yn dod â syniadau newydd i'r agenda benodol hon, ond wrth sicrhau ein bod yn gwneud hyn, rhaid inni hefyd gydnabod nad ydym eto wedi penderfynu sut y byddwn yn gwneud hyn. Rhaid cael trafodaethau manwl ar hynny.

I droi at welliant 4 gan Lisa Francis ar ganolfannau adnoddau wardeniaid rhanbarthol, mae Cymunedau yn Gyntaf yn seiliedig ar yr egwyddor bod partneriaethau'n nodi eu blaenoriaethau eu hunain. Nid wyf am bennu'r hyn y mae'r partneriaethau am ei wneud yn y maes penodol hwn. Cododd y mater hwn ynglŷn â wardeiniaid mewn deunydd a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog beth amser yn ôl.

I droi at welliant 5, mae Lisa yn dweud ei bod yn pryderu nad yw 'tai wrth galon adfywio cymunedol Cymru na rhaglen Cymunedau yn Gyntaf', er bod hynny'n amlwg yn wir, oherwydd mae'n rhan o'r ddogfen Cymunedau yn Gyntaf, 'Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf'. Yn ogystal â hynny, mae nifer o gymdeithasau

partnerships in their areas. Ultimately, it is a matter for partnerships to decide if they see housing issues as a priority. Some of them do, and some of them do not, but it is about that bottom-up approach.

Turning to Lisa's amendment 6, she notes that local ownership means that the biggest part of partnerships should come from empowered communities. I reject this, as we have the principle of equal thirds in representation, which I think is very good. We must maintain that balance between the community, business and voluntary sector. That has not caused any problems, as far as I am aware, within communities; in fact, it has helped them.

On Lisa's amendment 7, Communities First sub-ward pockets of deprivation are not discriminated against. The revised target communicated to the higher education and further education sectors in September 2004 set the following—which I put on the record—to increase the number of all undergraduate new entrants to HE courses at UK higher education and further education institutions who are domiciled in Welsh Communities First areas. This will be measured by monitoring the proportion of undergraduate new entrants to courses who are domiciled in Communities First areas, equivalent to the 100 most-deprived electoral divisions. It is targeted to rise from 8.9 to 11.4 per cent by 2010. At the same time, the sector was advised that it also needed to work with communities in the 32 pockets of deprivation and 10 communities of interest. There is clear guidance on this side that we have dealt with in the context of Communities First.

Turning to amendment 8 in the name of Jocelyn Davies, Communities First is a comprehensive push to regeneration, targeted at the most deprived communities. We could argue all day about an effective, well-funded anti-poverty programme, so I ask you to reject that amendment because I cannot clarify how I could do that within this particular portfolio. I support Jocelyn's other amendment about the concerns raised in the

tenantiaid a thrigolion yn ymwneud â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn eu hardaloedd neu'n aelodau ohonynt. Yn y pen draw, mater i bartneriaethau yw penderfynu a ydynt yn ystyried bod tai yn flaenoriaeth iddynt. Mae'n flaenoriaeth i rai, ond nid i eraill, ond gwneud penderfyniadau o'r gwaelod i fyny yw'r peth pwysig.

I droi at welliant 6 gan Lisa, dywed fod perchenogaeth leol yn golygu y dylai rhan fwyaf partneriaethau ddod o gymunedau sydd wedi'u grymuso. Gwrthodaf hyn, gan ein bod yn cadw at egwyddor y traean o ran cynrychiolaeth, sy'n beth gwyach, yn fy marn i. Rhaid inni gadw'r cydbwysedd hwnnw rhwng y sectorau cymunedol, busnes a gwirfoddol. Nid yw hynny wedi achosi unrhyw broblemau, hyd y gwn i, mewn cymunedau; yn wir, mae wedi eu helpu.

O ran gwelliant 7 gan Lisa, ni wahaniaethir yn erbyn pocedi o amddifadedd mewn wardiau. Yr oedd y targed diwygiedig a roddwyd i'r sector addysg uwch a'r sector addysg bellach ym mis Medi 2004 yn gosod allan y canlynol—a hoffwn gofnodi hyn—i gynyddu nifer yr israddedigion sy'n dechrau cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn y DU, ac sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Caiff hyn ei fesur drwy fonitro canran yr israddedigion sy'n dechrau cyrsiau ac sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, i gyfateb i'r 100 ward fwyaf difreintiedig. Y targed yw cynyddu'r nifer o 8.9 y cant i 11.4 y cant erbyn 2010. Ar yr un pryd, dywedwyd wrth y sector fod angen hefyd iddo weithio gyda chymunedau yn y 32 o bocedi o amddifadedd a'r 10 o gymunedau buddiant. Mae yna ganllawiau clir ar yr ochr hon yr ydym wedi ymdrin â hwy yng nghyd-destun Cymunedau yn Gyntaf.

I droi at welliant 8 yn enw Jocelyn Davies, mae Cymunedau yn Gyntaf yn ymdrech gynhwysfawr i adfywio sy'n targedu'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Gallem ddadlau am byth am raglen effeithiol sy'n cael ei hariannu'n dda i atal tlodi, felly, gofynnaf ichi wrthod y gwelliant hwnnw am na allaf egluro sut y gallwn wneud hynny o fewn y portffolio penodol hwn. Cefnogaf welliant arall Jocelyn ynglŷn â'r pryderon a

interim evaluation report. One of the aims of the evaluation is to learn the lessons from what has been undertaken, note any concerns and take them forward. The Cambridge Policy Consultants provided the interim report to committee on 6 July; I recognise the points that were raised in it and am happy to accept that particular amendment.

If we look at communities as a whole, there is an awful lot going on in the more advanced partnerships at the community action planning stage. Others are moving towards community action planning, but there is no rush to get to this stage—communities must be ready and they must have built up their capacity to be able to do it. Approved guidelines on this issue have been set out, and make it clear that a community action plan is not a funding bid, but a statement of intent and priorities for action. One of the crucial issues on Communities First that I need to address today is mainstreaming. Communities First budgets are targeted at core costs of Communities First partnerships, such as co-ordinators, administration, salaries, meeting costs, community newsletters and so on, and capacity building. The budget for 2005-06 is £34 million. That, in itself, will not achieve the necessary changes in the Communities First areas, as that is only an average per partnership of just under £0.25 million per year. We need to mainstream all Assembly Government programmes, and others, to favour Communities First areas through ongoing dialogue. This is not always easy. There has been a problem where, in some instances, plans were drawn up well before the needs of the community were identified by Communities First. If we want long-lasting service delivery, we must ensure that services are allocated in all those areas across the board. In drawing up budget proposals, we now require our departments to justify how new spending proposals would help take forward the Communities First programme. Linking that in is the way in which you tackle some of the anti-poverty agenda within those areas.

godwyd yn yr adroddiad gwerthuso interim. Un o nodau'r gwerthusiad yw dysgu'r gwersi o'r hyn a wnaed, nodi unrhyw bryderon a gweithredu arnynt. Cyflwynodd The Cambridge Consultants Policy yr adroddiad interim i'r pwyllgor ar 6 Gorffennaf. Yr wyf yn cydnabod y pwyntiau a godwyd ynddo ac yr wyf yn barod i dderbyn y gwelliant penodol hwnnw.

Os edrychwn ar gymunedau yn eu cyfanrwydd, mae cryn lawer yn cael ei wneud yn y partneriaethau mwyaf datblygedig yn y cyfnod cynllunio camau gweithredu cymunedol. Mae eraill yn symud tuag at gynllunio camau gweithredu cymunedol, ond nid oes rhaid rhuthro i gyrraedd y cam hwnnw-rhaid i gymunedau fod yn barod, a rhaid iddynt fod wedi magu'r gallu i wneud hynny. Gosodwyd canllawiau cymeradwy ar y mater hwn, ac maent yn ei gwneud yn glir nad cais am arian yw cynllun gweithredu cymunedol, ond datganiad o fwriad a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Un o'r materion hollbwysig o ran Cymunedau yn Gyntaf y mae angen imi ei drafod heddiw yw prif-ffrydio. Mae cyllidebau Cymunedau yn Gyntaf yn targedu costau craidd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, megis cydgysylltwyr, costau gweinyddol, cyflogau, costau cyfarfodydd, cylchlythyrau cymunedol, ac ati, a magu gallu. Mae'r gyllideb ar gyfer 2005-06 yn £34 miliwn. Ni fydd hynny ynddo'i hun yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan nad yw hynny ond ychydig llai na £0.25 miliwn fesul partneriaeth y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae angen inni brif-ffrydio pob un o raglenni Llywodraeth y Cynulliad, a rhaglenni eraill, i ffafrio ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf drwy ddeialog parhaus. Nid yw hyn bob amser yn hawdd. Cafwyd problem, weithiau, lle yr oedd cynlluniau wedi eu llunio ymhell cyn i Cymunedau yn Gyntaf nodi anghenion y gymuned. Os ydym i ddarparu gwasanaethau dros gyfnod maith, rhaid inni sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dyrannu ym mhob un o'r ardaloedd hynny fel ei gilydd. Wrth lunio cynigion ar gyfer cyllidebau, yr ydym erbyn hyn yn gofyn i'n hadrannau gyfiawnhau sut y byddai cynigion gwariant newydd yn helpu hyrwyddo'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Drwy gydgyssylltu hyn y mae modd ichi fynd i'r

afael â rhywfaint o'r agenda atal tlodi yn yr ardaloedd hynny.

All Assembly sponsored public bodies are required, as a condition of their annual budget allocation, to prioritise Communities First areas. I regularly meet with my colleagues in other portfolios to make the case for Communities First areas and to discuss how we can mainstream budgets into those areas to support the transformation. We have also completed negotiations recently with the Communities First support network. Its core support will be provided to the Communities First partnerships until the end of March 2008, and there will be greater emphasis on the provision of generic support for partnerships through named caseworkers. Last October, officials held a conference for all the voluntary sector organisations funded by the Assembly to support Communities First, together with the Communities First regional teams. It was a very positive conference, and it helped those teams to identify how they could take work forward together. We must shape future support arrangements to meet the needs of Communities First partnerships as they develop, and I will be reviewing these arrangements again in April 2007.

Finally, I turn to the issue of the new Welsh index of multiple deprivation. I am not psychic, but I have a feeling that this issue may well be raised in this debate. The publication of the new index presented a more detailed picture of disadvantage in certain areas of Wales. This issue has been raised time and time again in the Assembly after the Communities First projects were first envisaged, in terms of how we needed to look at the index. We need to take time to process the information before making any major policy decisions, particularly around the Communities First programme. I have written to Communities First partnerships for their views, and we will go out to consultation with a proposal in late spring. By summer of 2006, I hope to be able to agree a plan of action for Communities First areas, as I need to get it into the budget planning round.

Mae'n ofynnol i bob cyrff cyhoeddus sy'n cael ei noddi gan y Cynulliad, fel amod o'u dyraniad cyllideb blynyddol, roi blaenoriaeth i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Byddaf yn cyfarfod yn rheolaidd â'm cyd-Weinidogion sy'n dal portffolios eraill i roi'r ddadl dros ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac i drafod sut y gallwn brif-ffrydio cyllidebau yn yr ardaloedd hynny i helpu'r trawsnewid. Yr ydym hefyd wedi cwblhau trafodaethau'n ddiweddar gyda rhwydwaith cymorth Cymunedau yn Gyntaf. Bydd yn rhoi cymorth craidd i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf tan ddiwedd mis Mawrth 2008, a bydd mwy o bwyslais ar roi cymorth cyffredinol i bartneriaethau drwy weithwyr achos wedi eu henwi. Fis Hydref diwethaf, cynhaliodd swyddogion gynhadledd ar gyfer pob un o fudiadau'r sector gwirfoddol sy'n cael eu hariannu gan y Cynulliad i gynorthwyo Cymunedau yn Gyntaf, ynghyd â thimau rhanbarthol Cymunedau yn Gyntaf. Yr oedd yn gynhadledd gadarnhaol iawn, ac yn fodd i'r timau hynny nodi sut y gallent gydweithio yn y dyfodol. Rhaid inni lunio trefniadau cymorth yn y dyfodol i ddiwallu anghenion partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wrth iddynt ddatblygu, a byddaf yn adolygu'r trefniadau hyn eto ym mis Ebrill 2007.

Yn olaf, trof at y mynegai amddifadedd lluosog newydd ar gyfer Cymru. Nid wyf yn gallu darllen meddyliau, ond mae rhyw deimlad gennyf y bydd y mater hwn yn debygol o gael ei godi yn y ddadl hon. Mae'r mynegai newydd a gyhoeddwyd yn rhoi darlun llawnach o amddifadedd mewn rhannau penodol o Gymru. Mae'r mater hwn wedi ei godi dro ar ôl tro yn y Cynulliad ers inni rag-weld prosiectau Cymunedau yn Gyntaf, o ran y ffordd yr oedd angen inni edrych ar y mynegai. Mae angen inni gymryd amser i brosesu'r wybodaeth cyn gwneud unrhyw benderfyniadau mawr ar bolisi, yn enwedig o ran y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yr wyf wedi ysgrifennu at bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn gofyn am eu barn, a byddwn yn dechrau ymgynghori ar gynnig tua diwedd y gwanwyn. Erbyn yr haf 2006, gobeithio y byddaf yn gallu cytuno ar gynllun gweithredu

ar gyfer ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan fod angen imi ei gynnwys yng nghylch cynllunio'r gyllideb.

We must continually emphasise that the Communities First programmes is a long-term strategy. We have given a commitment of at least 10 years to those who are involved in the first stage; we must now think of how we deal with the new index. It is easy for people to criticise Communities First because there will always be something that someone does not like in it. However, the real value of the programme is well-known and appreciated where it counts—out there in communities. That is what the Welsh Assembly Government is determined to put first. I visited New Tredegar last week; when you meet people who have been positively engaged in the Communities First project, and see how their communities are developing and what is going on in them, you realise the impact of the money that we have put in place. The important thing about that New Tredegar project is how all other budgets have helped as well, and that is what we must try to achieve with Communities First, namely mainstreaming other budgets to assist the work within those areas.

Rhaid inni bwysleisio drwy'r amser mai strategaeth hirdymor yw rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf. Yr ydym wedi gwneud ymrwymiad o 10 mlynedd o leiaf i'r rheini sy'n ymwneud â'r cam cyntaf; rhaid inni feddwl yn awr sut y byddwn yn ymdrin â'r mynegai newydd. Mae'n hawdd i bobl feirniadu Cymunedau yn Gyntaf oherwydd bydd ynddo rywbeth bob amser na fydd rhywun yn ei hoffi. Fodd bynnag, mae gwerth gwirioneddol y rhaglen yn hysbys iawn ac mae'n cael ei gwerthfawrogi gan y rhai sy'n cyfrif—yn y cymunedau eu hunain. Dyna y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benderfynol o'i osod yn gyntaf. Ymwelais â Thredegar Newydd yr wythnos diwethaf; pan fyddwch yn cyfarfod â phobl sydd wedi cymryd rhan gadarnhaol yn y prosiect Cymunedau yn Gyntaf, a gweld sut y mae eu cymunedau'n datblygu a'r hyn sy'n digwydd ynddynt, fe sylweddolwch effaith yr arian yr ydym wedi ei roi. Y peth pwysig am y prosiect hwnnw yn Nhredegar Newydd yw'r ffordd y mae pob cyllideb arall wedi helpu hefyd, a dyna y mae'n rhaid inni geisio'i gyflawni gyda Cymunedau yn Gyntaf, sef prif-ffrydio cyllidebau eraill i helpu'r gwaith yn yr ardaloedd hynny.

3.30 p.m.

Leanne Wood: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: in point 2 insert after 'area':

but notes with concern that the Welsh Assembly Government has set no measurable targets for poverty reduction in the Communities First programme.

I propose amendment 8. Add a new point at the end of the motion:

supports the principle of an effective, well-funded anti-poverty programme.

I propose amendment 9. Add a new point at the end of the motion:

notes the concerns raised in the interim evaluation of the Communities First

Leanne Wood: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: ym mhwynt 2, cynnwys ar ôl 'ardal':

ond yn nodi gyda phryder nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod unrhyw dargedau mesuradwy ar gyfer lleihau tlodi yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Cynigiau welliant 8. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cefnogi egwyddor rhaglen gwrthlodi effeithiol a gyllidir yn dda.

Cynigiau welliant 9. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi'r pryderon a godwyd yn y gwerthusiad dros dro ar raglen Cymunedau

programme.

When the Deputy Minister with responsibility for social justice carried out an in-depth review of the Communities First programme, he found that the people consulted during the review agreed that some form of target setting and evaluation was necessary. The people interviewed said that we must be able to measure progress towards combating poverty and that such a measurement would enable good practice to be rolled out to other successful projects.

When the Cambridge Policy Consultants conducted a review of the programme, they found

‘major issues that are affecting the programme performance’,

that

‘progress is slow and variable across partnership areas’,

and that

‘there will be few immediate traditional regeneration outcomes from the programme’.

Since those two reviews were carried out, there have been changes to the Welsh index of multiple deprivation, as the Minister said. These changes will make it impossible to compare deprivation levels in 2000 and 2005, which is the halfway point. Furthermore, the changed index means that it will now be impossible to see whether poverty has been reduced at all in Communities First areas over the course of the programme’s 10-year life. In 2010, we will not be able to compare like information for the year 2000. Plaid Cymru feels that that is a big problem.

If those people who are involved in Communities First projects are stopped from being able to prove that the work that they are doing is effective, the chances are that the funding that they are getting now will stop at the end of the programme. The co-ordinators will be out of jobs and communities that have got used to having projects will lose out.

yn Gyntaf.

Pan wnaeth y Dirprwy Weinidog sy’n gyfrifol am gyfiawnder cymdeithasol adolygiad manwl o’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gwelodd fod y bobl yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr adolygiad yn cytuno bod angen rhyw fath o ddull o bennu targedau a gwerthuso. Dywedodd y bobl a gyfwelwyd fod yn rhaid inni allu mesur cynnydd tuag at atal tlodi ac y byddai mesur o’r fath yn galluogi ymestyn arfer da i gynnwys prosiectau llwyddiannus eraill.

Pan wnaeth The Cambridge Policy Consultants adolygiad o’r rhaglen, gwelsant

‘problemau mawr sy’n effeithio ar berfformiad y rhaglen’,

bod

‘cynnydd yn araf ac yn amrywiol ar draws ardaloedd partneriaeth’,

ac y bydd

‘rhywfaint o ganlyniadau adfywio traddodiadol uniongyrchol yn deillio o’r rhaglen’.

Ers y ddau adolygiad hynny, cafwyd newidiadau ym mynegai amddifadedd lluosog Cymru, fel y dywedodd y Gweinidog. Bydd y newidiadau hyn yn ei gwneud yn amhosibl cymharu lefelau amddifadedd yn 2000 a 2005, sef y pwynt hanner ffordd. Yn ychwanegol at hynny, golyga’r mynegai sydd wedi newid y bydd yn amhosibl gweld yn awr a yw tlodi wedi lleihau o gwbl mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn ystod cyfnod y rhaglen o 10 mlynedd. Yn 2010, ni fyddwn yn gallu cymharu gwybodaeth debyg am y flwyddyn 2000. Mae Plaid Cymru yn teimlo bod hyn yn broblem fawr.

Os bydd y bobl hynny sy’n cymryd rhan mewn prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu hatal rhag gallu profi bod y gwaith a wneir ganddynt yn effeithiol, mae’n debygol y bydd yr arian a gânt yn awr yn dod i ben ar ddiwedd y rhaglen. Bydd y cydgyssylltwyr yn colli’u gwaith, a bydd cymunedau sy’n gyfarwydd â chael prosiectau ar eu colled.

Plaid Cymru is committed to seeing a well-funded, long-term anti-poverty programme, but we want that programme to be effective. I have conducted my own research, looking at income support levels. I accept that this is only one variable, but in the Welsh index of multiple deprivation, income is the most heavily weighted indicator. While the number of income support claimants has gone down all over Wales, it has gone down least in Communities First areas. This is not conclusive proof that poverty levels are being reduced more slowly in Communities First areas, but it does give a clear indication.

We need more research, targets, evaluation and monitoring, if we are to be confident that this flagship project is having an impact in the most deprived communities in Wales. The sum of £131 million has been allocated to the Communities First programme over the course of its life. That is a lot of public money, and Plaid Cymru has no objection if that money is spent effectively, however, we need to know, because we cannot continue to spend this level of public money unless we are absolutely confident that we are making a difference.

The Deputy Presiding Officer: I should say at this stage that I have about 14 speakers on my list. Even if I impose a three-minute time limit after the amendments have been moved, I am still not sure that everyone will get in, however, I do intend to impose such a limit.

Mick Bates: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 2: Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to ensure that, when published, the main report of the ongoing evaluation of the Communities First programme is debated by the Assembly in Plenary.

I propose amendment 3. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i weld rhaglen hirdymor sy'n cael ei hariannu'n dda i atal tlodi, ond yr ydym am i'r rhaglen honno fod yn effeithiol. Yr wyf wedi gwneud fy ngwaith ymchwil fy hun, gan edrych ar lefelau cymhorthdal incwm. Derbyniaf mai dim ond un newidyn yw hwn, ond ym mynegai amddifadedd lluosog Cymru, incwm yw'r dangosydd sy'n cael ei bwysoli fwyaf. Er bod y nifer sy'n hawlio cymhorthdal incwm wedi gostwng ar draws Cymru, yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf y mae wedi gostwng leiaf. Nid yw hyn yn brawf terfynol fod lefelau tlodi yn gostwng yn arafach mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond mae'n arwydd clir.

Mae arnom angen mwy o waith ymchwil, targedau, gwerthuso a monitro, os ydym i fod yn hyderus fod y prosiect blaenllaw hwn yn cael effaith ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dyrannwyd £131 miliwn i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ystod ei hoes. Mae hynny'n llawer o arian cyhoeddus, ac nid yw Plaid Cymru yn gwrthwynebu o gwbl i'r arian hwnnw gael ei wario'n effeithiol. Fodd bynnag, mae angen inni wybod, oherwydd ni allwn barhau i wario arian cyhoeddus ar y lefel hon bai ein bod yn gwbl hyderus ein bod yn gwneud gwahaniaeth.

Y Dirprwy Lywydd: Dylwn ddweud yn awr fod gennyf tua 14 o siaradwyr ar fy rhestr. Hyd yn oed os gosodaf derfyn amser o dair munud ar ôl cynnig y gwelliannau, nid wyf yn siŵr a fydd amser i bawb. Fodd bynnag, yr wyf yn bwriadu gosod y terfyn hwnnw.

Mick Bates: Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau, pan gaiff ei gyhoeddi, y trafodir prif adroddiad y gwerthusiad parhaus o raglen Cymunedau yn Gyntaf gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i

work with the education sector to ensure that there is a sufficient number of professionally trained community development officers throughout Wales.

It is worth stating that Communities First is a great concept, and I think that everyone signs up to the eradication of poverty agenda. Like the Sure Start programme that started in Westminster, a long-term strategic approach is absolutely the right direction to take. This is embodied in the statements that Communities First is a vision of how to improve opportunities and the quality of life of people who live in the most deprived areas. Reference has already been made to how you define that, in terms of a 10-year strategy, and the index of multiple deprivation, with its five domains, is the tool that is currently used. I know, from discussions that have taken place in the Social Justice and Regeneration Committee, that the Minister recognises the issues embodied in the index. There is a question about how you benchmark the effectiveness of this programme because of the change in the way that we measure deprivation.

However, given that, there are two concepts that have to be addressed, which is why Huw Lewis's mid-term review and the ongoing evaluation have to point to two things, the first being that, in this scheme, we have to retain flexibility because, as one who, in the 1980s, started to help regenerate a community, I know that prescription often is not the best way forward. The one thing that I as a Liberal Democrat admire most about Communities First is that the regeneration is a form of empowering people in their community. It is therefore fundamentally a bottom-up programme that allows people the space to do what they think is the best way to improve quality of life in their communities. I appreciate what people say about targets. The difficulty is in the measurement of the indices rather than in the prescription of what should be done in the communities. Empowerment, therefore, is a key factor.

At this stage, I will say how pleased I am that the Minister has accepted the fact that the full evaluation will have to come before the Assembly to be debated. It is at that point that

weithio gyda'r sector addysg i sicrhau bod digon o swyddogion datblygu cymunedol ledled Cymru sydd wedi eu hyfforddi'n broffesiynol.

Mae'n werth nodi bod Cymunedau yn Gyntaf yn gysyniad gwych, a chredaf fod pawb yn cytuno â'r agenda dileu tlodi. Fel y rhaglen Cychwyn Cadarn a ddechreuodd yn San Steffan, ymagwedd strategol hirdymor yn sicr yw'r cyfeiriad cywir. Ymgorfforir hyn yn y datganiadau fod Cymunedau yn Gyntaf yn weledigaeth o'r ffordd i wella cyfleoedd ac ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Cyfeiriwyd eisoes at y ffordd i ddiffinio hynny, o ran strategaeth 10 mlynedd, a'r mynegai amddifadedd lluosog, gyda'i bum parth, yw'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd. Gwn, o drafodaethau a gafwyd yn y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, fod y Gweinidog yn cydnabod y materion a ymgorfforwyd yn y mynegai. Mae amheuaeth sut y dylid meincodi effeithiolrwydd y rhaglen hon oherwydd y newid yn y ffordd yr ydym yn mesur amddifadedd.

Fodd bynnag, o gofio bod dau gysyniad y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy, a dyna'r rheswm pam mae'n rhaid i adolygiad tymor canolig Huw Lewis a'r gwerthusiad parhaus bwyntio at ddau beth, sef yn gyntaf fod yn rhaid inni ddal yn hyblyg yn y cynllun hwn, oherwydd fel un a ddechreuodd helpu adfywio cymuned yn y 1980au, gwn nad rhagnodi yw'r ffordd orau ymlaen yn aml. Yr un peth yr wyf fi fel Democrat Rhyddfrydol yn ei edmygu fwyaf am Cymunedau yn Gyntaf yw bod adfywio yn ffordd i rymuso pobl yn eu cymuned. Yn sylfaenol, felly, mae'n rhaglen o'r bôn i'r brig, sy'n rhoi rhwydd hynt i bobl wneud y peth gorau, yn eu barn hwy, er mwyn gwella ansawdd bywyd yn eu cymunedau. Yr wyf yn gwerthfawrogi'r hyn a ddywed pobl am dargedau. Yr anhawster yw mesur y mynegeion yn hytrach na rhagnodi'r hyn y dylid ei wneud yn y cymunedau. Mae grymuso, felly, yn ffactor allweddol.

Yn y fan hon, yr wyf am ddweud mor falch yr wyf fod y Gweinidog wedi derbyn y ffaith y bydd yn rhaid i'r gwerthusiad llawn ddod gerbron y Cynulliad i'w drafod. Bryd hynny

we can discuss the detail of the possible need to refocus the overall strategic approach. I have my views, including my desire to see a greater focus on young people in Communities First programmes. Often, it is a hard message to take that people in their 40s and 50s have a lifestyle that cannot be changed. It takes a tremendous effort to make that change. I will accept any arguments on that point, but the investment in young people in these communities is a way forward that offers hope, a change of culture and the possibility that there will be sustainable quality-of-life improvement.

I welcome your acceptance of amendment 3, Minister, because, in my experience, the lack of professional guidance is often the reason why some schemes fail in their early years. Some past schemes of a similar nature never actually produced a measurable result.

Jeff Cuthbert: In amendment 3, you use state:

‘to work with the education sector to ensure that there is a sufficient number of professionally trained community development officers’.

You use the word ‘ensure’. Do you accept that, while we may use our best endeavours to work with the education sector to recruit and to train, we can never guarantee that sufficient resources will come through at that point, because it depends on people becoming available, the right training being provided and people completing their courses? While we might—perhaps you can clarify this point—use our best endeavours, we cannot give a guarantee.

Mick Bates: That is a vital point, which I accept totally because, obviously, resources—human resources in particular—have to be available. I am pleased that this amendment will have support, because, from my experience of visiting several Communities First schemes, two of them in my constituency and one that I regularly visit in the Valleys, their success is due to the fact that they have people with previous

y gallwn drafod manylion yr angen posibl am addasu'r ymagwedd strategol gyffredinol. Mae gennyf farn, gan gynnwys fy awydd i weld mwy o ganolbwyntio ar bobl ifanc mewn rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n neges anodd ei derbyn yn aml fod gan bobl yn eu 40au a'u 50au ffordd o fyw na ellir ei newid. Mae'n cymryd ymdrech anferth i sicrhau'r newid hwnnw. Derbyniaf unrhyw ddadleuon ar y pwynt hwnnw, ond mae buddsoddi mewn pobl ifanc yn y cymunedau hyn yn ffordd ymlaen sy'n cynnig gobaith, newid diwylliant a'r posibilrwydd y bydd gwelliant cynaliadwy mewn ansawdd bywyd.

Yr wyf yn croesawu'r ffaith eich bod yn derbyn gwelliant 3, Weinidog, oherwydd yn fy mhrofiad i diffyg canllawiau proffesiynol yw'r rheswm yn aml pam mae rhai cynlluniau'n methu yn eu blynyddoedd cyntaf. Methodd rhai cynlluniau tebyg yn y gorffennol gynhyrchu canlyniad mesuradwy, mewn gwirionedd.

Jeff Cuthbert: Yng ngwelliant 3, dywedwch:

‘gweithio gyda'r sector addysg i sicrhau bod digon o swyddogion datblygu cymunedol sydd wedi eu hyfforddi'n broffesiynol’.

Yr ydych yn defnyddio'r gair ‘sicrhau’. A ydych yn derbyn, er ein bod yn ymdrechu'n galed efallai i weithio gyda'r sector addysg i recriwtio ac i hyfforddi, na allwn byth warantu y bydd digon o adnoddau ar gael bryd hynny, oherwydd mae'n dibynnu a oes pobl ar gael, a yw'r hyfforddiant iawn yn cael ei ddarparu, ac a fydd pobl yn cwblhau eu cyrsiau? Er ein bod, efallai, yn ymdrechu'n galed—efallai y gallwch egluro'r pwynt hwn—ni allwn warantu hynny.

Mick Bates: Mae hwnnw'n bwynt hanfodol, a derbyniaf hynny'n llwyr oherwydd, yn amlwg, rhaid i adnoddau—adnoddau dynol yn arbennig—fod ar gael. Yr wyf yn falch y bydd cefnogaeth i'r gwelliant hwn, oherwydd o'm profiad i o ymweld â llawer cynllun Cymunedau yn Gyntaf, dau ohonynt yn fy etholaeth ac un y byddaf yn ymweld ag ef yn rheolaidd yn y Cymoedd, maent yn llwyddiannus am eu bod yn cynnwys pobl

experience of working with people on the street to seek their views and, on the basis of those views, build the capacity to take action on them. That is why I think that this is such a great scheme.

In conclusion, the two great things that embody success in this are good communications and partnership working. Where you have the professional who can build the capacity in the community, you can build great partnerships. The principle of equal thirds is well accepted, and that is the reason why there will be success. I look forward to the full evaluation of Communities First. It will not devalue today's debate, but it will put down a marker, because it will only be then that we can truly make informed comments about what has happened in the 100 Communities First areas. Otherwise, as a party, the Welsh Liberal Democrats welcome the scheme, and we are grateful and look forward to education schemes that will provide professional community development officers.

Mark Isherwood: I propose the following amendments in the name of Lisa Francis. Amendment 4: add a new point at the end of the motion:

urges the Welsh Assembly Government to incorporate regional warden resources centres into its Communities First strategy.

I propose amendment 5. Add a new point at the end of the motion:

expresses concern that housing is not at the centre of Welsh community regeneration and the Communities First programme.

I propose amendment 6. Add a new point at the end of the motion:

notes that local ownership means that the biggest part of partnership should come from empowered communities.

My colleague, Lisa, will propose amendment 7 as part of her contribution, and we in the Conservative group will support all the other amendments.

sydd â phrofiad blaenorol o weithio gyda phobl ar y stryd i ofyn eu barn, ac ar sail y farn honno yn magu'r gallu i weithredu arni. Dyna pam mae hwn yn gynllun mor wych, yn fy marn i.

I gloi, y ddau brif beth sy'n ymgorffori llwyddiant yn hyn yw cyfathrebu da a gweithio mewn partneriaeth. Lle bydd gennych weithwyr proffesiynol a all fagu'r gallu yn y gymuned, gallwch ddatblygu partneriaethau gwych. Derbynnir egwyddor y traean yn gyffredinol, a dyna pam y bydd y rhaglen yn llwyddo. Edrychaf ymlaen at y gwerthusiad llawn o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Ni fydd yn dibrisio'r ddatl heddiw, ond bydd yn garreg filltir bwysig, oherwydd bryd hynny'n unig y gallwn wneud sylwadau gwirioneddol oleuedig am yr hyn sydd wedi digwydd yn y 100 o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Fel arall, fel plaid, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'r cynllun, ac yr ydym yn ddiolchgar ac yn edrych ymlaen at gynlluniau addysgol a fydd yn darparu swyddogion datblygu cymunedol proffesiynol.

Mark Isherwood: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Lisa Francis. Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys canolfannau adnoddau wardeniaid rhanbarthol yn ei strategaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Cynigiau welliant 5. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn mynegi pryder oherwydd nad yw tai wrth galon adfywio cymunedol Cymru na rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Cynigiau welliant 6. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi bod perchnogaeth leol yn golygu y dylai rhan fwyaf y bartneriaeth ddod o gymunedau sydd wedi'u grymuso.

Bydd fy nghyd-aelod, Lisa, yn cynnig gwelliant 7 fel rhan o'i chyfraniad, a byddwn ni yng ngrŵp y Ceidwadwyr yn cefnogi'r holl welliannau eraill.

We, like previous speakers, believe that only local empowerment can cut poverty and create sustainable communities. In considering the achievements of the Communities First programme, we must look at the hard facts—

The Deputy Presiding Officer: Order. Mark, we have grouped the amendments, so you must propose all four of them at the same time, and then Lisa Francis can speak to them.

Mark Isherwood: Thank you for your guidance. As always, I bow to your wisdom.

I propose amendment 7. Add a new point at the end of the motion:

calls on the Welsh Assembly Government to ensure that all Communities First programme (pockets of deprivation) electoral divisions are not discriminated against and are included within the higher education 'Reaching Higher, Reaching Wider' targets.

3.40 p.m.

As so often with this Assembly Government, money is being thrown at a problem without measurable targets being in place, with the inevitable consequence that there will be few regeneration outcomes. I stress that this is not to criticise the staff involved. Schools in English deprived areas are doing three times better than schools in Welsh deprived areas. The number of young people who are not in training, education or employment in Wales has risen. Economic inactivity has risen and one in five Welsh working-age households now have no-one in employment. Wales now has lower prosperity than any other nation or region in the United Kingdom. One in seven Welsh households lives in fuel poverty, and despite the backlog in urgent housing repairs now exceeding £4 billion, council house repairs and home improvement grants are being cut in many parts of Wales.

Labour is creating a new class of

Fel siaradwyr blaenorol, credwn mai grymuso lleol yn unig all leihau tlodi a chreu cymunedau cynaliadwy. Wrth ystyried llwydiannau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, rhaid inni edrych ar y ffeithiau moel—

Y Diprwy Lywydd: Trefn, Mark, yr ydym wedi grwpio'r gwelliannau, felly, rhaid ichi gynnig y pedwar ar yr un pryd, ac yna gall Lisa Francis siarad amdanynt.

Mark Isherwood: Diolch am eich arweiniad. Fel bob amser, ildiaf i'ch doethineb.

Cynigiau welliant 7. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn holl ardaloedd etholiadol rhaglen Cymunedau yn gyntaf (pocedi o amddifadedd) ac y cânt eu cynnwys yn nhargedau 'Ymgynghedd yn Uwch, Ymgynghedd yn Ehangach' addysg uwch.

Fel sy'n aml yn wir gyda Llywodraeth y Cynulliad, caiff arian ei daflu at broblem heb fod targedau mesuradwy ar waith, gan olygu'n anochel na fydd llawer o ganlyniadau adfywio. Pwysleisiaf nad beirniadu'r staff cysylltiedig yw diben hyn. Mae ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yn Lloegr yn gwneud dair gwaith yn well nag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae nifer y bobl ifanc nad ydynt yn cael hyfforddiant nac addysg nac mewn cyflogaeth yng Nghymru wedi codi. Mae anweithgarwch economaidd wedi codi, ac mewn un cartref o bob pump lle mae pobl o oed gweithio, nid oes neb mewn cyflogaeth. Mae ffyniant Cymru yn awr yn is nag mewn unrhyw genedl neu ranbarth arall yn y Deyrnas Unedig. Mae un cartref o bob saith yng Nghymru yn dioddef tlodi tanwydd, ac er bod ôl-groniad o fwy na £4 biliwn erbyn hyn yn y gwaith trwsio tai, mae trwsio tai cyngor a grantiau gwella tai yn cael eu torri mewn llawer ardal yng Nghymru.

Mae'r blaid Lafur yn creu dosbarth newydd o

decommissioned people, and their epitaph may be that 'Labour fought poverty and poverty won'. Despite winning awards and cutting crime, STARS North Wales, which is based in West Rhyl, was forced to make 21 out of 23 community wardens redundant. They are now working with Knowsley's neighbourhood warden scheme manager to find a way forward. The Knowsley scheme is about removing barriers and building bridges and safe, strong communities and about whole-community involvement. Does this sound familiar? The difference in this case is direct funding and people power at arm's length from bureaucratic and political control.

On 20 July 1981, in Liverpool, which was a momentous day, Michael Heseltine launched community regeneration as we now know it. As he said, what we did has now become the consensus policy—a constructive partnership between the public, voluntary and private sectors. The Knowsley village estate, which was one of the most deprived in the UK at that time, was the first to benefit.

Regional warden resource centres have been established throughout England and Northern Ireland and have now received the go-ahead from the Scottish Executive. The Knowsley team is happy to help in Wales, to tackle root causes and not just symptoms. Wales must not miss out on what has been proven to work, and hence amendment 4 urges the incorporation of regional warden resource centres in the Communities First strategy.

When I met the Knowsley scheme manager before Christmas, he told me that their regeneration began in the early 1980s with housing stock transfer—the very first one—and that this was about giving tenants a voice. The Council of Mortgage Lenders has asked for how much longer will the council tenants of Wales get less than they deserve and need. Cardiff University has stated that good housing ought to be at the heart of neighbourhood or community regeneration, and that it is linked to the revival of local

bobl sydd wedi eu dadgomisiynu, a gallai eu beddargraff ddweud 'Brwydrodd Llafur yn erbyn tlodi a thlodi a orfu'. Er ennill gwobrau a lleihau nifer y troseddau, cafodd STARS Gogledd Cymru, sydd yng Ngorllewin y Rhyl, ei orfodi i ddiswyddo 21 allan o 23 o wardeniaid cymunedol. Maent yn gweithio erbyn hyn gyda rheolwr cynllun wardeiniaid cymdogaeth yn Knowsley i geisio cael ffordd ymlaen. Mae a wnelo cynllun Knowsley â diddymu rhwystrau ac adeiladu pontydd a chymunedau diogel a chryf, ac â chyfranogiad y gymuned gyfan. A yw hyn yn swnio'n gyfarwydd? Y gwahaniaeth yn yr achos hwn yw arian uniongyrchol a phŵer pobl sydd hyd braich o afal rheolaeth fiwrocraidd a gwleidyddol.

Ar 20 Gorffennaf 1981 yn Lerpwl ar ddiwrnod pwysig iawn, lansiodd Michael Heseltine adfywio cymunedol fel y caiff ei alw'n awr. Fel y dywedodd, mae'r hyn a wnaethom wedi dod yn bolisi consensws erbyn hyn—partneriaeth adeiladol rhwng y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Ystad pentref Knowsley, a oedd yn un o'r rhai mwyaf difreintiedig yn y DU ar y pryd, oedd y cyntaf i elwa.

Sefydlwyd canolfannau adnoddau wardeiniaid rhanbarthol ledled Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac maent wedi cael caniatâd erbyn hyn i fwrw ati gan Weithrediaeth yr Alban. Mae tîm Knowsley yn fodlon helpu yng Nghymru, i fynd i'r afael â gwreiddiau'r problemau, nid â'r symptomau'n unig. Ni ddylai Cymru golli allan ar yr hyn y profwyd ei fod yn gweithio, ac felly mae gwelliant 4 yn annog canolfannau adnoddau wardeiniaid rhanbarthol i gael eu hymgorffori yn y strategaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Pan gwrddais â rheolwr cynllun Knowsley cyn y Nadolig, dywedodd wrthyf fod eu gwaith adfywio wedi cychwyn ar ddechrau'r 1980au gyda throsglwyddo'r stoc tai—yr un cyntaf erioed—a bod a wnelo hynny â rhoi llais i denantiaid. Mae'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi wedi gofyn am faint o amser eto y bydd tenantiaid tai cyngor Cymru yn cael llai na'r hyn y maent yn ei haeddu ac sydd arnynt ei angen. Mae Prifysgol Caerdydd wedi dweud y dylai tai da fod wrth wraidd adfywio cymdogaeth neu gymuned, a'i fod yn

economies, the delivery of improved services and the development of sustainable local communities.

However, this Labour Assembly Government has bled social housing. Homelessness has doubled, housing waiting lists have risen 50 per cent over the last year alone, 100,000 properties are now designated as unfit for human habitation and the number of new affordable houses has been cut by three quarters. Despite this, Labour's funding to 2008 will still leave social housing with less funding than it had in 1997, regardless of the massive inflation in house prices. Hence amendment 5; please do not continue to bury your heads in the sand.

Amendment 6 notes that

'local ownership means that the biggest part of partnership should come from empowered communities'.

These were the words of a local resident at a recent surgery in a Communities First area. He told me that activity in the community house had declined drastically, and that things were now going backwards. He added that attendance by Communities First staff had collapsed, leaving local people without direction. I do not blame the staff, but I do blame the system imposed by Labour. In fact, the Communities First team in this area recently expressed its concern to me that the current system allows funding decisions to be taken politically at Labour local authority level rather than according to National Assembly criteria.

This related to a bid identified as one of the two top priorities by local people. The local residents association also lost the fight on its other top priority, and it subsequently e-mailed me to state that the council had set up a task force to help it, but that it thought that this was just a smoke screen so that the residents would not cause any more hassle. So much for a Labour council's commitment to empowering local communities.

gysylltiedig ag adfywio economïau lleol, darparu gwasanaethau gwell a datblygu cymunedau lleol cynaliadwy.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Lafur y Cynulliad wedi rhoi gormod o bwysau ar dai cymdeithasol. Mae digartrefedd wedi dyblu, mae rhestrau aros am dai wedi codi 50 y cant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae 100,000 o adeiladau erbyn hyn wedi eu dynodi'n anaddas i bobl fyw ynddynt, ac mae nifer y tai fforddiadwy newydd wedi ei gwtogi o dri chwarter. Er hyn, bydd yr arian a roddir gan Lafur i dai cymdeithasol hyd at 2008 yn dal yn llai na'r hyn a roddwyd yn 1997, er y chwyddiant anferth ym mhrisiau tai. Dyna'r rheswm dros welliant 5; peidiwch â dal i guddio'ch pennau yn y tywod.

Dywedir yng ngwelliant 6 fod

'perchnogaeth leol yn golygu y dylai rhan fwyaf y bartneriaeth ddod o gymunedau sydd wedi'u grymuso'.

Geiriau preswlydd lleol oedd y rhain mewn cymhorthfa'n ddiweddar mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Dywedodd wrthyf fod gweithgarwch yn y gymuned wedi lleihau'n sylweddol, a bod pethau bellach yn mynd tuag yn ôl. Ychwanegodd fod presenoldeb staff Cymunedau yn Gyntaf wedi chwalu, gan adael pobl leol heb ddim cyfeiriad. Nid wyf yn beio'r staff, ond yr wyf yn beio'r system a osodwyd gan Lafur. Yn wir, mynegwyd pryder y tîm Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardal hon wrthyf yn ddiweddar fod y system bresennol yn galluogi gwneud penderfyniadau ariannu yn wleidyddol ar lefel awdurdodau lleol Llafur, yn hytrach nag yn ôl meini prawf y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr oedd hyn yn ymwneud â chynnig a nodwyd fel un o'r ddwy flaenoriaeth uchaf gan bobl leol. Collodd y gymdeithas trigolion lleol y frwydr am ei blaenoriaeth uchaf arall hefyd, ac yn dilyn hynny anfonodd e-bost ataf i ddweud bod y cyngor wedi sefydlu tasglu i'w helpu. Ond yr oedd y gymdeithas leol o'r farn mai cam i'w drysu oedd hynny, fel na fyddai'r trigolion yn achosi rhagor o drafferth. Nid yw hyn yn dweud llawer am ymrwymiad cyngor Llafur i rymuso cymunedau lleol.

Crime, family breakdown, addiction, poverty and poverty of aspiration continue to wreak havoc on communities, and freedom from these will not be possible unless we free people from the cycle of homelessness. If Labour cannot do it, it is time for us on this side of the Chamber to get to work.

Karen Sinclair: I wonder whether Mark Isherwood and I live even on the same planet, let alone in the same universe. His perception of what really goes on in communities and his recollection of what happened during the Tory Government years is totally different to my perception and recollection.

The Communities First programme was originally designed as a long-term strategy for improving the living conditions and prospects of people in some of our most disadvantaged communities in Wales, who, for many years had lived without hope, facing high unemployment, high mortgage rates and all sorts of other nightmares that I remember well.

The work that Communities First has done across Wales, particularly in north Wales, in tackling the skills gap, bringing down long-term unemployment and addressing poor health and social exclusion must be acknowledged by all who have witnessed it. So much has been achieved in my constituency, from summer play schemes to healthy living programmes and volunteer accreditation schemes. Communities First is making a real difference and, with fully staffed teams, some of the most deprived areas in Clwyd South are benefiting. I take on board and concur with Edwina's comments that some Communities First areas are pushing forward far faster than others but that is because of the basis that they started from, given that some areas had community programmes that were well under way before Communities First.

It is important that we look at the effectiveness of the overall programme at strategic points and identify ways in which it may be improved. However, any changes that we make should not take anything away from

Mae troseddu, teuluoedd yn chwalu, bod yn gaeth i alcohol neu gyffuriau, tloedi a thloedi dyhead yn dal i achosi niwed mewn cymunedau, ac ni fydd rhyddhau pobl o hyn yn bosibl oni ryddhawn bobl o'r cylch digartrefedd. Os na all Llafur wneud hynny, mae'n amser inni ar yr ochr hon o'r Siambr fwrw ati.

Karen Sinclair: Tybed a wyf fi a Mark Isherwood yn byw ar yr un blaned, heb sôn am yn yr un bydysawd. Mae ei ganfyddiad o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd mewn cymunedau a'i atgof o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod blynyddoedd y Llywodraeth Doriaidd yn hollol wahanol i'm canfyddiad a'm hatgof i.

Cynlluniwyd rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn wreiddiol fel strategaeth hirdymor i wella amodau byw a disgwyliaidau pobl yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a oedd ers blynyddoedd maith wedi byw heb obaith, yn wynebu diweithdra mawr, cyfraddau morgais uchel, a phob math o hunllefau eraill y gallaf eu cofio'n iawn.

Rhaid i bawb sy'n ei weld gydnabod y gwaith y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi'i wneud ledled Cymru, yn enwedig yn y gogledd, i fynd i'r afael â'r bwloch sgiliau, gostwng cyfraddau diweithdra hirdymor, a mynd i'r afael ag iechyd gwael ac allgau cymdeithasol. Mae cymaint wedi ei gyflawni yn fy etholaeth i, o gynlluniau chwarae yn yr haf i raglenni byw'n iach a chynlluniau achredu gwirfoddolwyr. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, a chyda thimau gyda staff lawn, mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Ne Clwyd yn elwa. Yr wyf yn derbyn ac yn cytuno â sylwadau Edwina fod rhai ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn mynd yn eu blaenau ynghynt o lawer nag eraill. Ond mae hynny oherwydd y sail yr oeddent yn dechrau ohoni, o gofio bod gan rai ardaloedd raglenni cymunedol oedd wedi hen ddechrau cyn Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'n bwysig inni edrych ar effeithiolrwydd y rhaglen gyffredinol ar adegau strategol a nodi ffyrdd y gellid ei gwella. Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw newidiadau a wnawn dynnu oddi ar unigryw raglen Cymunedau yn

the unique, fundamental heart of the Communities First programme, namely that the community should be the driver. That is the thrust of the empowerment of communities. The scheme has always been about local advancement and community ideas, leading the fight against poverty and social injustice. That should not alter in any way; it is fundamental to the empowerment of the communities, but we can do certain things to develop the scheme. For example, we could formalise a set of core objectives that we would like Communities First to tackle. By acknowledging these core objectives and setting fundamental targets with measurable outcomes, we will enhance the idea of community regeneration so that the legacy that is left in local communities will be that much stronger. That is the reason behind having these programmes.

This Labour Government has done much to drive the Communities First programme in this direction. The importance of targeting programmes and policies at Communities First areas, through programme bending, has had a significant and positive effect on helping to tackle social inequalities locally. We need to take this further and enshrine core objectives, such as targeting deprivation, specifically within the Communities First programme, while respecting that these are essentially activities that should be built locally so that we protect the principles of grass-roots communities being in control of their own futures.

The Communities First project has, in many ways, come to hallmark the first two Assemblies and we, as an institution, will be judged to a large extent on its success. I hope that the progress that we have made so far can be recognised and built upon in future and the programme made stronger for the remainder of its life. I feel sad when people like Mr Isherwood stand up and knock what is going on; some incredibly good work has gone on.

The Deputy Presiding Officer: I remind Members that they have three minutes from now on.

Gyntaf, sef mai'r gymuned ddylai ysgogi'r rhaglen. Dyna yw prif bwyslais grymuso cymunedau. Mae'r cynllun o'r cychwyn cyntaf wedi'i anelu at ddatblygiad lleol a syniadau cymunedol, gan arwain y frwydr yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol. Ni ddylai hynny newid mewn unrhyw fodd; mae'n hanfodol i rymuso'r cymunedau, ond gallwn wneud pethau penodol i ddatblygu'r cynllun. Er enghraifft, gallem ffurfioli set o amcanion craidd yr hoffem i Gymunedau yn Gyntaf fynd i'r afael â hwy. Drwy gydnabod yr amcanion craidd hyn a gosod targedau sylfaenol gyda chanlyniadau mesuradwy, byddwn yn gwella'r syniad o adfywio cymunedol, fel y bydd yr etifeddiaeth a adewir i gymunedau lleol lawer yn gryfach. Dyna'r rheswm dros gael y rhaglenni hyn.

Mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi gwneud llawer i lywio rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i'r cyfeiriad hwn. Mae pwysigrwydd targedu rhaglenni a pholisïau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, drwy wyro rhaglenni, wedi cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar helpu delio ag anghydraddoldeb cymdeithasol yn lleol. Mae angen inni ddatblygu hyn ymhellach ac ymgorffori amcanion craidd, megis targedu amddifadedd, yn enwedig yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ond gan barchu bod y rhain yn y bôn yn weithgareddau y dylid eu meithrin yn lleol, er mwyn inni amddiffyn yr egwyddorion o gael cymunedau ar lawr gwlad i gadw rheolaeth dros eu dyfodol eu hunain.

Mae'r prosiect Cymunedau yn Gyntaf, mewn llawer ffordd, wedi dod yn nodwedd bwysig o'r ddau Gynulliad cyntaf, ac fel sefydliad byddwn yn cael ein barnu i raddau helaeth ar ei lwyddiant. Gobeithio y gellir cydnabod y cynnydd a wnaed gennym hyd yma, ac y gellir adeiladu arno yn y dyfodol a gwneud y rhaglen yn gryfach am weddill ei hoes. Teimlaf yn drist pan fydd pobl fel Mr Isherwood yn codi ac yn beirniadu'r hyn sy'n digwydd; mae gwaith arbennig o dda wedi ei wneud.

Y Dirprwy Lywydd: Atgoffaf Aelodau fod ganddynt dair munud o hyn ymlaen.

Alun Ffred Jones: Datganaf fuddiant fel cyfarwyddwr cwmni dielw sy'n gweithredu fel corff cyfrifol i bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Mae'r broblem gyda'r cynnig hwn i'w weld yn y frawddeg gyntaf, lle y gofynnir inni groesawu canlyniadau cadarnhaol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ond nid oes meincnodau y gellir mesur y llwyddiant hwnnw yn eu herbyn.

Yr wyf yn cydnabod, fel yr oedd y Gweinidog yn ei ddweud, ei bod yn ddyddiau cynnar ac mai rhaglen tymor hir yw hon. Mae'r rhestr newydd wedi tanseilio hyder yr ardaloedd hynny sydd wedi syrthio allan o'r rhestr wreiddiol, ac mae hynny'n bryder mawr hefyd.

Mae tensiwn sylfaenol ac anochel, efallai, rhwng yr awydd i adael i gymunedau lleol gymryd cyfrifoldebau am y partneriaethau ac awydd y Llywodraeth ganolog i weld yr arian yn cael ei wario yn ddoeth ac i bwrpas. Os ydych yn cymharu amcanion canllawiau Cymunedau yn Gyntaf 2002 â'r amcanion a nodir ar wefan y Cynulliad, gwelwch fod yr ail lawer yn fwy cyffredinol a meddal na'r amcanion gwreiddiol. Ni wn a oes arwyddocâd i hynny.

Mae adroddiad meddylgar Huw Lewis am y rhaglen yn codi nifer o faterion. Mae'n tanlinellu'r amcanion gwreiddiol a oedd yn cynnwys cynyddu incymau, gwella iechyd, creu swyddi a gwella cyflwr tai. Faint o hyn sydd wedi digwydd, neu, yn fwy perthnasol efallai, faint o'r cynlluniau o fewn y partneriaethau sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn?

3.50 p.m.

Huw Lewis: The problem with Plaid Cymru's amendments today is that they quite explicitly ask that we impose targets from above on Communities First partnerships. I have always said, as I did in my review of Communities First, which has been widely welcomed across parties in the Chamber, that those targets, aims or objectives must be set at a local level in line with the philosophy of

Alun Ffred Jones: I declare an interest as the director of a non-profit-making company which acts as a body which is answerable to a Communities First partnership.

The problem with this motion is to be seen in the first sentence, where we are asked to welcome the achievements of the Communities First programme, though there are no benchmarks against which to measure that success.

I acknowledge, as the Minister said, that it is still early days and that this is a programme for the long term. But the new list has undermined the confidence of those areas which have fallen off the original list, and that is also a cause for great concern.

There is a fundamental, and perhaps inevitable, tension between the desire to allow local communities to take responsibility for the partnerships, and the desire of central Government to see the money being spent wisely and for purposefully. If you compare the aims of the 2002 guidelines for Communities First with those given on the Assembly website, you will see that the latter is far more general and soft than the original. I am not sure whether that is significant.

Huw Lewis's thoughtful report on the programme raises several matters. He underlines the original objectives, which included increasing incomes, improving health, creating jobs and improving the housing stock. How much of this has happened, or, more relevantly perhaps, how many plans within the partnerships tackle these issues?

Huw Lewis: Y broblem gyda gwelliannau Plaid Cymru heddiw yw eu bod yn gofyn yn eithaf penodol inni osod targedau oddi fry ar bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Yr wyf wedi dweud erioed, fel y gwneuthum yn fy adolygiad o Gymunedau yn Gyntaf, a gafodd groeso ar draws y pleidiau yn y Siambr, y dylid gosod y targedau, y nodau a'r amcanion hynny yn lleol yn unol ag

the programme and then agreed with the Minister at the centre. Plaid Cymru wants to reverse the entire philosophy behind the programme.

Alun Ffred Jones: Yr oeddwn yn dod at y pwynt bod y Dirprwy Weinidog yn nodi y dylai pob partneriaeth osod targedau byrdymor a hirdymor yn lleol, ond y dylent ddilyn yr amcanion gwreiddiol. Hoffwn wybod a yw'r partneriaethau lleol yn, neu wedi, gwneud hynny. Derbyniaf fod tensiwn yn y maes hwn, fel yr awgrymwyd yn eich adroddiad, ac y bydd tensiynau.

O ran plygu rhaglenni, mae galw eto i'r Cynulliad ddiffinio pa gyllidebau craidd y dylid eu dargyfeirio. Mae hyn yn peri pryder mawr i lawer ohonom gan fod y mynegai amddifadedd lluosog newydd wedi cael gwared ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o rannau helaeth o Gymru. Y broblem sy'n gysylltiedig â hyn yw'r diffyg cyllid i Gymru yn gyffredinol oherwydd gwasgfa Barnett a diffyg arian cyfatebol, sy'n golygu ein bod yn ceisio dwyn arian o rai ardaloedd Amcan 1 er mwyn ei roi i ardaloedd eraill. Yr ydym yn trosglwyddo arian o un lle i'r llall heb fod yr arian digonol ar gael yn gyffredinol ledled Cymru.

Hoffwn gyfeirio at un enghraifft o hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn cynllun newydd Cymunedau yn Gyntaf i greu rhwydwaith o swyddogion, neu froceriaid, technoleg gwybodaeth. Mae 10 ardal arbennig, sy'n cynnwys ardal Pen Llŷn yn fy etholaeth, wedi eu heithrio o'r cynllun. Nid wyf yn siŵr beth yw'r sail i hynny. Mae tlodi'n bodoli ym mhob rhan o Gymru, ac mae hyrwyddo sgiliau TG yn hollbwysig i oresgyn problemau economaidd mewn ardaloedd gwledig. Gofynnaf i'r Gweinidog ailystyried y penderfyniad hwn.

Irene James: I welcome this opportunity to debate a key Welsh Labour initiative that is delivering a huge amount of resources to the most deprived areas of Wales. It is a flagship regeneration programme with big ambitions to turn around communities that were left consistently and wilfully devastated following 18 years of Tory government.

The key legacy of Communities First will be

athroniaeth y rhaglen, ac yna gytuno arnynt gyda'r Gweinidog yn ganolog. Mae Plaid Cymru am wrthdroi holl athroniaeth y rhaglen.

Alun Ffred Jones: I was coming to the point that the Deputy Minister states that every partnership should set short-term and long-term targets, but that they should follow the original objectives. I want to know whether the local partnerships are doing that or have done that. I accept there is tension in this area, as you suggest in your report, and that there will be tensions.

In terms of programme bending, there is demand again for the Assembly to define which core budgets should be redirected. This causes great concern to many of us, because the new index of multiple deprivation has got rid of the Communities First programme from many parts of Wales. The problem in relation to this is the lack of funding for Wales generally because of the Barnett squeeze and the lack of match funding, which means that we are trying to take money from some Objective 1 areas in order to give it to others. We are robbing Peter to pay Paul without sufficient funding being available generally across Wales.

I should like to refer to one example where this currently happens within a new Communities First scheme to create a network of information technology officers or brokers. Ten specific areas, including the Llŷn Peninsula in my constituency, have been excluded from the scheme. I am not sure what that is based on. Poverty is a problem in every part of Wales, and promoting IT skills is very important to overcome economic problems in rural areas. I ask the Minister to reconsider that decision.

Irene James: Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i drafod un o fentrau allweddol Llafur Cymru, sy'n darparu llawer iawn o adnoddau i ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n rhaglen adfywio flaenllaw gydag uchelgeisiau i droi cymunedau a ddinistriwyd yn gyson ac yn fwriadol yn dilyn 18 mlynedd o lywodraeth Geidwadol.

Etifeddiaeth allweddol Cymunedau yn

when those communities, which justly deserve the most from public investment, have equal capacity to unlock resources that are common to more prosperous communities across Wales. We must be vigilant to ensure that it is those areas with the least who benefit the most from this funding, both for capacity building and, ultimately, for projects that will be the foundation of real community change.

Almost five years into the programme, there are some excellent examples of good practice, particularly in Merthyr Tydfil, which we must now look to and reflect in our communities, which are facing similar challenges. While key ongoing improvements have been built into the programme, such as programme bending to target Assembly initiatives in Communities First wards, we must go still further to reinforce support where poverty and deprivation are not isolated, but concentrated—in some cases, across an entire local authority area. The importance of accessible support cannot be overstated in the Caerphilly local authority area, where there are 19 Communities First wards. It is vital that the support to each of those 19 communities is equal to that of single Communities First wards in other local authority areas. Ceredigion, for example, has one Communities First ward, while Conwy has two.

Equal access to central support for each partnership and local authority is vital if we are to succeed in distributing equal opportunity and prosperity through the Communities First programme. Ultimately, the successful strategic delivery of Communities First should empower all of our most deprived communities with the capacity to access resources that more prosperous areas take for granted, ensuring greater social justice throughout Wales.

Laura Anne Jones: Making the lives of the people of Wales better is what we are all here for. Regeneration is clearly a big part of that. As a member of the Social Justice and Regeneration Committee, I welcome the positive achievements of the Communities First programme. It is right that, as an

Gyntaf fydd pan fydd gan y cymunedau hynny, sy'n llawn haeddu'r mwyaf o fuddsoddi cyhoeddus, yr un gallu i ddatgloi adnoddau ag sy'n gyffredin i gymunedau mwy llewyrchus ledled Cymru. Rhaid inni fod yn wylidwrus i sicrhau mai'r ardaloedd hynny sydd â'r lleiaf a sy'n elwa fwyaf o'r arian hwn, ar gyfer meithrin gallu yn ogystal yn y pendraw ag ar gyfer prosiectau a fydd yn sail i newid cymunedol gwirioneddol.

Bron i bum mlynedd ar ôl dechrau'r rhaglen, mae rhai enghreifftiau gwych o arfer da, yn enwedig ym Merthyr Tudful, y dylem yn awr edrych arnynt a'u hefelychu yn ein cymunedau sy'n wynebu heriau tebyg. Er i welliannau parhaus allweddol gael eu cynnwys yn y rhaglen, megis plygu rhaglenni i dargedu mentrau'r Cynulliad mewn wardiau Cymunedau yn Gyntaf, rhaid mynd gam ymhellach eto i atgyfnerthu cymorth lle nad yw tlodi ac amddifadedd yn digwydd mewn pocedi yn unig, ond wedi crynhoi--mewn rhai achosion, ar draws ardal awdurdod lleol cyfan. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cymorth sy'n hawdd ei gael yn ardal awdurdod lleol Caerffili, lle mae 19 o wardiau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n hanfodol i'r 19 o gymunedau hynny gael yr un cymorth â wardiau Cymunedau yn Gyntaf unigol mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Un ward Cymunedau yn Gyntaf sydd yng Ngheredigion, er enghraifft, ac mae dwy yng Nghonwy.

Mae mynediad cyfartal i gymorth canolog ar gyfer pob partneriaeth ac awdurdod lleol yn hanfodol os ydym i lwyddo i ledaenu cyfle cyfartal a ffyniant drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn y pen draw, o gyflwyno Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddiannus yn strategol, dylai pob un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig gael y gallu i gael adnoddau y mae ardaloedd mwy llewyrchus yn eu cymryd yn ganiataol, gan sicrhau mwy o gyfiawnder cymdeithasol ledled Cymru.

Laura Anne Jones: Y rheswm pam yr ydym yma i gyd yw gwneud bywydau pobl yng Nghymru yn well. Mae adfywio yn amlwg yn rhan fawr o hynny. Fel aelod o'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yr wyf yn croesawu llwyddiannau cadarnhaol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n iawn

Assembly, we improve the opportunities and quality of life of those who live in disadvantaged communities. Merthyr Tydfil, Newport, Caerphilly, Blaenau Gwent and Torfaen, which are some of our most deprived areas, are in my region of South Wales East. We must help them to help themselves. However, we cannot do this without listening to those from the communities that we wish to help. We must create partnerships as these create local ownership and pride when the things that Communities First promotes succeed.

The joint working between the public and private sectors is a key factor. Trevechin is a large Communities First area in my constituency, and one of the most deprived areas in Wales. A new multi-use hall has been proposed, which will benefit the whole community. It will go a long way towards improving the lives of people in that area. As I say constantly, sporting facilities have a huge impact on regeneration. The hall is a small step in the right direction.

There is strong evidence to show that leisure facilities are instrumental in tackling problems associated with health, crime, employment and education, and that they can contribute to community regeneration in many ways. They enable people to form friendships and partnerships within their communities, bringing communities together and promoting community spirit, as well as improving fitness and health. You will note that all these points have been identified as important Communities First principles. Sadly, however, it is a fact that a number of Communities First wards in my constituency lack these community facilities.

I welcome the new index of multiple deprivation, which the Minister mentioned, and I have said so in the committee many times, as it recognises that deprivation is measured not only by poverty. For so many communities, deprivation can also refer to problems caused by a lack of resources and opportunities. However, it concerns me that the Government has no way of measuring

inni, fel Cynulliad, wella cyfleoedd ac ansawdd bywyd pobl sy'n byw mewn cymunedau dan anfantais. Mae Merthyr Tudful, Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent a Thor-faen, sef rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig, yn fy ardal i, Dwyrain De Cymru. Rhaid inni eu helpu i helpu eu hunain. Fodd bynnag, ni allwn wneud hyn heb wrando ar bobl o'r cymunedau y dymunwn eu helpu. Rhaid inni greu partneriaethau, gan fod y rhain yn arwain at berchnogaeth a balchder lleol pan fydd y pethau y mae Cymunedau yn Gyntaf yn eu hyrwyddo yn llwyddo.

Mae'r cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn ffactor allweddol. Mae Trefddyn yn ardal fawr Cymunedau yn Gyntaf yn fy etholaeth, ac yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae neuadd aml-ddefnydd newydd a fydd o fudd i'r gymuned gyfan wedi ei chynnig. Bydd y gwneud llawer i wella bywydau pobl yn yr ardal honno. Fel y byddaf yn ei ddweud yn gyson, mae cyfleusterau chwaraeon yn cael effaith enfawr ar adfywio. Mae'r neuadd yn gam bychan i'r cyfeiriad cywir.

Mae tystiolaeth gref yn dangos bod cyfleusterau hamdden yn allweddol i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd, troseddu, cyflogaeth ac addysg, a'u bod yn gallu cyfrannu at adfywio cymunedol mewn llawer ffordd. Maent yn galluogi pobl i ddod yn gyfeillion ac i lunio partneriaethau o fewn eu cymunedau, gan ddod â chymunedau at ei gilydd a hyrwyddo ysbryd cymunedol, yn ogystal â gwella ffitrwydd ac iechyd. Byddwch yn sylwi bod yr holl bwyntiau hyn wedi eu nodi fel egwyddorion pwysig Cymunedau yn Gyntaf. Yn anffodus, fodd bynnag, mae'n ffaith fod y cyfleusterau cymunedol hyn yn eisiau mewn nifer o wardiau Cymunedau yn Gyntaf yn fy etholaeth i.

Yr wyf yn croesawu'r mynegai amddifadedd lluosog newydd y soniodd y Gweinidog amdano, fel y dywedais droeon yn y pwyllgor, gan ei fod yn cydnabod nad yw amddifadedd yn cael ei fesur yn ôl tlodi yn unig. Ar gyfer cynifer o gymunedau, gall amddifadedd hefyd gyfeirio at broblemau a achosir gan ddiffyg adnoddau a chyfleoedd. Fodd bynnag, mae o bryder imi nad oes gan y

these targets.

According to the new index, many of the more rural wards in my South Wales East region feature highly in terms of geographical access to services, two such wards being Llantilio Crossenny and Llanover.

While I am pleased with the new Welsh index of multiple deprivation, it takes into account a mixture of factors in order to produce an overall picture. I will be interested to see whether the Assembly Government will take this issue into account when considering the implications of the new index with regard to Communities First initiatives.

It was recognised in committee that if the programme is to be extended to include new areas we must consider how the extension can be achieved and how to recognise new areas, while ensuring that we remain focused on the areas that are clearly still among the most deprived.

Leighton Andrews: The nine Communities First wards in the Rhondda are all at different stages of development, and it has been interesting to watch that development over the past three years. I pay tribute to those involved in the different Communities First schemes, in Llwynypia, Penygraig, Trealaw, Ynyshir and Wattstown, Maerdy, Cymmer, Treherbert, Tylorstown and Clydach Vale, because what is going on in those wards is a real demonstration of the power of the scheme that we have developed in the Assembly. It is the power of bringing people together to find solutions to the problems that they face in their communities. As I said, many of those groups are at different stages of development, but they are all now undertaking a wide range of activities. The structures supporting them may be different in some cases. Some of the development workers and Communities First co-ordinators are employed by the local authority; others are employed by intermediary organisations such as Rhondda Housing Association and Valleys Kids.

Llywodraeth fodd i fesur y targedau hyn.

Yn ôl y mynegai newydd, mae nifer o'r wardiau mwy gwledig yn fy rhanbarth i, sef Dwyrain De Cymru, yn amlwg iawn o ran mynediad daearyddol i wasanaethau, ac mae Llandeilo Gresynni a Llanofwr Fawr yn ddwy ward o'r fath.

Er fy mod yn fodlon ar fynegai amddifadedd lluosog newydd Cymru, mae'n ystyried cymysgedd o ffactorau er mwyn cael darlun cyffredinol. Bydd gennyf ddi-ddordeb gweld a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried hyn wrth ystyried goblygiadau'r mynegai newydd o ran mentrau Cymunedau yn Gyntaf.

Cydnabuwyd yn y pwyllgor, os yw'r rhaglen i gael ei hymestyn i gynnwys ardaloedd newydd, ei bod yn rhaid inni ystyried sut y gellir cyflawni hynny a sut i adnabod ardaloedd newydd, gan sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr ardaloedd sy'n amlwg yn dal ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig.

Leighton Andrews: Mae'r naw ward Cymunedau yn Gyntaf yn Rhondda mewn cyfnodau gwahanol yn eu datblygiad, ac mae wedi bod yn ddi-ddorol gwyllo'r datblygiad hwnnw dros y tair blynedd diwethaf. Yr wyf yn rhoi teyrnged i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y gwahanol gynlluniau dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn Llwynypia, Pen-y-graig, Trealaw, Ynys-hir a Wattstown, y Maerdy, Cymer, Treherbert, Pendyrus a Chwm Clydach, oherwydd mae'r hyn sy'n digwydd yn y wardiau hynny yn brawf gwirioneddol o bŵer y cynllun yr ydym wedi'i ddatblygu yn y Cynulliad. Pŵer i ddod â phobl ynghyd ydyw, i ddod o hyd i atebion i'r problemau a wynebant yn eu cymunedau. Fel y dywedais, mae nifer o'r grwpiau hynny mewn cyfnodau gwahanol yn eu datblygiad, ond maent i gyd yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau erbyn hyn. Efallai fod y strwythurau sy'n eu cynorthwyo yn wahanol mewn rhai achosion. Mae rhai o'r gweithwyr datblygu a'r cydgysylltwyr Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol; caiff eraill eu cyflogi gan sefydliadau canolradd, megis Cymdeithas Tai Rhondda a Valleys Kids.

4.00 p.m.

The variety of activities in which they are engaged, demonstrates the importance of this scheme being built from the ground up. In some cases, for example, they may be involved in managing important community assets such as community centres. They may be involved in the development of youth activities. They may be involved in a range of activities supporting Assembly policies, for example, healthy eating schemes, providing fruit and vegetables, and walking schemes. They may also be involved in benefits take-up, debt advice, and working in partnership with the action team for jobs in giving advice on work. They are also involved in many cases in skills training, both formal and informal.

Leanne Wood: We have heard a great deal today about the importance of partnership working and you reeled off community facilities that are being provided in Communities First areas, but would you agree that Blaenclydach school is a valuable asset to the Clydach Vale Communities First partnership? It provides after school clubs, youth clubs and so on, and yet your Labour-run local authority is talking about closing the school down.

Leighton Andrews: We have all been very interested in the Rhondda to note that in the last couple of weeks, Plaid Cymru has discovered Blaenclydach school. The community in Blaenclydach has wondered where Plaid Cymru has been for the last 18 months, because many of us have been involved with that school before.

The issues that I have referred to, such as informal and formal skills training, including in computer skills, are all being taken up by Communities First groups. It is a tribute to the variety of work that they are undertaking and to the people involved in those schemes. They are bringing communities together and are providing an opportunity for communities

Mae amrywiaeth y gweithgareddau y cymerant ran ynddynt yn dangos pwysigrwydd adeiladu'r cynllun hwn o'r bôn i'r brig. Mewn rhai achosion, er enghraifft, gallant fod yn cymryd rhan yn rheoli asedau cymunedol pwysig megis canolfannau cymunedol. Gallant fod yn cymryd rhan wrth ddatblygu gweithgareddau i ieuenctid. Gallant fod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n cefnogi polisiau'r Cynulliad, er enghraifft, cynlluniau bwyta'n iach sy'n darparu ffrwythau a llysiau, a chynlluniau cerdded. Gallant hefyd fod yn ymwneud ag annog pobl i hawlio budd-daliadau, rhoi cyngor am ddyledion, a gweithio mewn partneriaeth â'r tîm gweithredu dros swyddi gan roi cyngor ar waith. Maent hefyd, mewn llawer achos, yn ymwneud â darparu hyfforddiant sgiliau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

Leanne Wood: Yr ydym wedi clywed llawer o sôn heddiw am bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, a rhoesoch restr o gyfleusterau cymunedol sy'n cael eu darparu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Ond a fydddech yn cytuno bod ysgol Blaenclydach yn ased gwerthfawr i'r bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yng Nghwm Clydach? Mae'n darparu clybiau ar ôl yr ysgol, clybiau ieuenctid ac ati, ac eto mae eich awdurdod lleol, sy'n cael ei redeg gan Lafur, yn sôn am gau'r ysgol.

Leighton Andrews: Bu gennym i gyd ddiddordeb mawr yn Rhondda i sylwi bod Plaid Cymru, yn ystod yr wythnosau diwethaf, wedi darganfod ysgol Blaenclydach. Mae cymuned Blaenclydach wedi bod yn dyfalu tybed ble mae Plaid Cymru wedi bod am y 18 mis diwethaf, gan fod nifer ohonom wedi bod yn ymwneud â'r ysgol honno o'r blaen.

Mae grwpiau Cymunedau yn Gyntaf yn ymdrin â'r materion y cyfeiriais atynt, megis hyfforddiant sgiliau anffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys sgiliau cyfrifiadurol. Mae'n deyrnged i amrywiaeth y gwaith a wneir ganddynt ac i'r bobl sy'n rhan o'r cynlluniau hynny. Maent yn dod â chymunedau ynghyd ac yn rhoi cyfle i gymunedau gytuno ar

to agree priorities. They are also bringing communities together in very practical senses, through organising, for example, events such as community fairs and inter-generational activities. They have developed proper, professional analysis of the needs of their communities—the needs of youth groups and of the communities as a whole. They are developing plans to tackle those issues and are providing a real voice in community regeneration. Those things should be welcomed.

The path has not always been smooth and I am pleased that the Minister has been able to respond to representations that I have made on some of the issues that have been faced, for example, in relation to the allocation of funds from the Communities First trust fund, which has been difficult in the past. I am glad that the Wales Council for Voluntary Action's procedures have been improved in that regard.

There are other issues that, because of time, I will not be able to take up with the Minister this afternoon, but I will write to her on one or two areas where we could be more flexible in how we allow those organisations to work together. The Minister will know from things that I have said in the Chamber in the past that I have concerns that when the Plaid Cymru administration drew up the plan for RCT, it left out some parts of wards that could have been included, such as, for example, Blaenllechau and Ynyswen in my constituency.

Lisa Francis: The 'Reaching Higher, Reaching Wider' strategy directly proposes that funding should be increased, particularly in Communities First areas and other deprived communities. The purpose of that is to encourage able people without a history of participation into higher education. Yet, even within these areas, electoral divisions and classification within the Communities First programmes have led to demarcation, penalising those who live in pockets of deprivation, namely those areas that are not included in the 100 most deprived electoral wards, such as Penparcau and Aberystwyth in Ceredigion. I met the Aberystwyth Communities First partnership last week and

flaenoriaethau. Maent hefyd yn dod â chymunedau ynghyd mewn ffordd ymarferol iawn, er enghraifft, drwy drefnu digwyddiadau megis ffeiriau cymunedol a gweithgareddau rhwng y cenedlaethau. Maent wedi datblygu dadansoddiad proffesiynol, priodol o anghenion eu cymunedau—anghenion grwpiau ieuentid a'r cymunedau cyfan. Maent yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r materion hynny ac yn rhoi llais go iawn yn y broses o adfywio cymunedau. Dylid croesawu'r pethau hynny.

Nid yw'r llwybr bob amser wedi bod yn llyfn, ac yr wyf yn falch fod y Gweinidog wedi gallu ymateb i sylwadau a wneuthum am rai o'r materion a wynebwyd, er enghraifft, o ran dyrannu arian o'r gronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, sydd wedi bod yn anodd yn y gorffennol. Yr wyf yn falch fod gweithdrefnau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi gwella yn y cyswllt hwnnw.

Mae yna faterion eraill na chaf gyfle, oherwydd amser, i'w trafod gyda'r Gweinidog y prynhawn yma, ond byddaf yn ysgrifennu ati am un neu ddau o feysydd lle gallem fod yn fwy hyblyg yn y ffordd y caniatawn i'r sefydliadau hynny gydweithio. Gŵyr y Gweinidog o bethau a ddywedais yn y Siambr yn y gorffennol fy mod yn pryderu, pan luniodd gweinyddiaeth Plaid Cymru y cynllun ar gyfer RhCT, ei bod wedi hepgor rhai rhannau o wardiau y gellid bod wedi'u cynnwys, megis Blaenllechau ac Ynys-wen yn fy etholaeth i, er enghraifft.

Lisa Francis: Mae'r strategaeth 'Ymgynraedd yn Uwch, Ymgynraedd yn Ehangach' yn cynnig yn uniongyrchol y dylid cynyddu'r arian, yn arbennig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau difreintiedig eraill. Diben hynny yw denu pobl abl nad oes ganddynt hanes o gymryd rhan i fyd addysg uwch. Eto, hyd yn oed yn yr ardaloedd hyn, mae rhanbarthau etholiadol a dosbarthiadau yn y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf wedi arwain at osod ffiniau, gan gosbi'r rheini sy'n byw mewn pocedi o amddifadedd, sef yr ardaloedd hynny na chynhwysir yn y 100 o wardiau etholiadol mwyaf difreintiedig, megis Penparcau ac Aberystwyth yng

it wanted me to highlight this issue, and I thought this debate was a timely occasion to do so.

If these electoral wards continue to be left out of the 'Reaching Higher, Reaching Wider' targets, learners across Mid and West Wales will inevitably continue to be turned away from higher education schemes in their regions. That is the reality of what is happening. That is so demoralising for those working on Communities First programmes outside of the top 100 electoral wards. Their commitment to and enthusiasm for driving change in their own regions is continually being reined in because they are unable to wholeheartedly target their own deprived communities without simultaneously paying service to areas with the same level of need in a locality far removed from their own.

So, under the present system a considerable proportion of people in those areas targeted today could eventually be turned away from higher education opportunities so that priority can be given to targets for the top 100 wards. I do not think that we can afford for this invaluable programme to disintegrate into a 'Communities First versus communities second' system. Why should any form of deprivation be regarded as second to another? For this reason, it is imperative that the electoral wards are not discriminated against, particularly within the higher education sector. I know, Minister, that you said that you are not minded to support amendment 7 today, but I urge you to look at it more closely and reconsider.

Jeff Cuthbert: I hope that Elin Jones has noticed that, probably for the last time, I am leaning on my pillar.

High levels of unemployment, low levels of skills, low incomes, poor housing, high rates of crime, bad health and family breakdown: these characteristics are both the cause and the effect of the social exclusion that the Communities First programme is trying to solve. Tackling these complex, interlinking

Rhodri Glyn Thomas: A ydych yn derbyn nad oes a wnelo'r pryder ag arian, fel y cyfryw, o ran faint o arian a gaiff ei fuddsoddi yn y celfyddydau, nac ychwaith â'r cwestiwn ai chi fydd yn penderfynu beth a gaiff ei berfformio ble? Y pryder yw bod y rhan fwyaf o sefydliadau celfyddydol, a'r rhan fwyaf o artistiaid proffesiynol, yng Nghymru yn dweud wrth bawb, gan gynnwys y wasg a'r cyfryngau, na fu unrhyw drafod nac ymgynghori ar y mater hwn, a'ch bod yn diddymu'r egwyddor o ariannu hyd braich, heb ei drafod hyd yn oed gyda'r bobl y bydd yn effeithio arnynt.

Alun Pugh: Cafwyd cyhuddiadau o Stalineaeth ac mae'r geiriau 'llen haearn' wedi eu crybwyll hefyd. Mae Mike German wedi fy nghyhuddo o fod am drefnu rhaglen artistig Opera Genedlaethol Cymru; nid oes gennym ddiddordeb mewn penderfynu cynnwys celfyddydol. O ran ariannu, yr wyf yn fwy na bodlon amddiffyn y cynnydd ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond i ble yr aiff yr arian hwnnw? [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Gweinidog wedi ymateb i'r ymyriad. Rhaid i Aelodau ddod i

must get used to the fact that we will soon be in an acoustically lively Chamber. You might as well get used to it now.

Alun Pugh: The whole case and agenda for change is not new; it has been a repeated theme in my meetings with the arts council and arts groups, and in my speeches, for some time. It is a matter of record over the two and a half years that I have been Minister for Culture, Welsh Language and Sport. At any time, since November 2004, when the First Minister made his statement, the oppositions could have had a debate on this matter.

I now move to the amendment, and I want to be clear about the Government's attitude to it. We do not agree with it because there is a compelling case to act. The Government's motion today is about progressive policy; the opposition amendment is exclusively focused, once again, on issues of process. There is one simple reason for that: they have no cultural policy around which they can unite. Postponing action, conducting a review and setting up a committee are all important Welsh traits that have their place, but not here. Any fair-minded review, given the evidence, will conclude that we have a real problem with access. The arts council has spent £100,000 in amassing the evidence, and the evidence is clear. We need to reform the way in which the arts are developed and funded by the Arts Council of Wales in order for those organisations to become more developmental in nature. No organisation can expect to be immune from change, and if there are ways in which the public can benefit from a more enterprising infrastructure for the arts, with public investment focused on access and excellence, then I am very keen to ensure that they are explored.

4.30 p.m.

We are being asked to believe that direct funding for major national arts organisations is somehow a major departure from normal practice in liberal western democracies. The reality is that it is entirely normal practice in many parts of the European Union and in the Commonwealth. It is exactly the same

arfer â'r ffaith y byddwn mewn Siambr fywiog o ran acwsteg cyn hir. Waeth i chi ddod i arfer â hynny nawr.

Alun Pugh: Nid yw'r holl achos a'r agenda dros newid yn newydd; bu'n thema dro ar ôl tro yn fy nghyfarfodydd gyda chyngor y celfyddydau a grwpiau celfyddydol, ac yn fy areithiau, ers cryn amser. Cofnodwyd hynny dros y ddwy flynedd a hanner y bŵm yn Weinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Ar unrhyw adeg, ers mis Tachwedd 2004, pan wnaeth y Prif Weinidog ei ddatganiad, gallai'r gwrthbleidiau fod wedi cael dadl ar y mater hwn.

Symudaf yn awr at y gwelliant, ac yr wyf am fod yn glir o ran agwedd y Llywodraeth ato. Ni chytunwn ag ef am fod achos cymhellol dros weithredu. Mae cynnig y Llywodraeth heddiw yn ymwneud â pholisi blaengar; mae gwelliant y gwrthbleidiau'n canolbwyntio'n llwyr, unwaith eto, ar faterion proses. Mae un rheswm syml dros hynny: nid oes ganddynt yr un polisi diwylliannol y gallant uno arno. Mae oedi'r broses weithredu, cynnal adolygiad a sefydlu pwyllgor i gyd yn nodweddion Cymreig pwysig yn eu lle, ond nid yma mae'r lle hwnnw. Daw unrhyw adolygiad teg, o ystyried y dystiolaeth, i'r casgliad fod gennym broblem wirioneddol o ran mynediad. Mae cyngor y celfyddydau wedi gwario £100,000 i grynhoi'r dystiolaeth, ac mae'r dystiolaeth yn glir. Mae angen inni ddiwygio'r ffordd y mae'r celfyddydau'n cael eu datblygu a'u hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn i'r sefydliadau hynny fod yn fwy datblygiadol eu natur. Ni all yr un sefydliad ddisgwyl gwrthsefyll newid, ac os oes ffyrdd i'r cyhoedd allu elwa o seilwaith celfyddydol mwy mentrus, drwy ganolbwyntio buddsoddiad cyhoeddus ar fynediad a rhagoriaeth, yr wyf yn awyddus iawn i sicrhau y cânt eu harchwilio.

Gofynnir inni gredu bod ariannu uniongyrchol ar gyfer prif sefydliadau cenedlaethol y celfyddydau rywsut yn wahanol i'r drefn arferol yng ngwledydd democrataidd rhyddfrydol y gorllewin. Y gwir yw fod hynny'n gwbl arferol mewn llawer rhan o'r Undeb Ewropeaidd ac yn y

approach as is being taken by our colleagues in Scotland.

David Melding: Minister, the case against you is that this is not entirely normal practice in this country. For the past 60 years, we have used the arm's-length principle that was established by the Attlee Government, and that model is also followed in many free democracies. What has worked well here is now being ruined, without there being an effective structure that has the confidence of the art community to replace it. That is where you have failed—you have not provided an alternative structure that people outside the Labour Party can have faith in.

Alun Pugh: You need to talk to your colleagues in the Scottish Conservative Party, who are entirely supportive of this agenda. Not for the first time, the Tories are saying one thing in one part of the UK and another elsewhere.

To present the direct funding of major national arts organisations as some strange departure from the norm is to misunderstand international practice and what is going on in other parts of the United Kingdom. Let us embrace international best practice and build on the reputation of our national companies to build the international reputation of Welsh culture. Most importantly, let us put social justice at the heart of our agenda here in Wales.

Owen John Thomas: Cynigiad y gwelliannau canlynol yn enwau Jocelyn Davies, Lisa Francis a Kirsty Williams. Gwelliant 1: cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

1. yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad cyhoeddus yn ddi-oed o swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ac i atal, ar unwaith, bob gwaith sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'i pharatoadau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu'n uniongyrchol Opera Cenedlaethol Cymru; Cerddorfa Genedlaethol Cymru; Diversions; Academi; Clwyd Theatr Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru hyd nes:

Gymanwlad. Dyma'r union ddull a ddefnyddir gan ein cyd-aelodau yn yr Alban.

David Melding: Weinidog, yr achos yn eich erbyn chi yw'r ffaith nad dyna'r drefn arferol yn y wlad hon. Ers 60 mlynedd, buom yn defnyddio'r egwyddor hyd braich a sefydlwyd gan Lywodraeth Attlee, a dilynir y model hwnnw mewn llawer gwlad ddemocrataidd rydd. Bellach, mae'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yma yn mynd i'r gwellt, heb strwythur effeithiol sy'n ennyn hyder cymuned y celfyddydau i'w ddisodli. Dyna lle'r ydych wedi methu—nid ydych wedi darparu strwythur amgen i ennyn hyder pobl y tu allan i'r Blaid Lafur.

Alun Pugh: Mae angen ichi siarad â'ch cyd-aelodau ym Mhlaid Geidwadol yr Alban, sy'n gwbl gefnogol i'r agenda hon. Nid dyma'r tro cyntaf i'r Torïaid ddweud un peth mewn un rhan o'r DU a rhywbeth arall mewn rhan arall.

Mae cyflwyno'r broses o ariannu prif sefydliadau cenedlaethol y celfyddydau yn uniongyrchol fel rhyw wyriad rhyfedd o'r norm yn gamddealltwriaeth o arfer rhyngwladol a'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Gadewch inni gymryd arfer gorau rhyngwladol ac adeiladau ar enw da ein cwmnïau cenedlaethol i ddatblygu enw da diwylliant Cymru yn rhyngwladol. Yn bwysicach na dim, gadewch inni sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd ein hagenda yma yng Nghymru.

Owen John Thomas: I propose the following amendment in the names of Jocelyn Davies, Lisa Francis and Kirsty Williams. Amendment 1: insert new point 1 and renumber accordingly:

1. instructs the Welsh Assembly Government to immediately carry out a public review of the role of the Arts Council of Wales and to halt, forthwith, all work associated in any way with its preparations to take over responsibility for the direct funding of Welsh National Opera; National Orchestra of Wales; Diversions; Academi; Clwyd Theatr Cymru and Theatr Genedlaethol Cymru until:

a) bod ymgynghoriad cynhwysfawr wedi'i gynnal gyda phob parti sydd â diddordeb, a Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon i gytuno ar y telerau; a

b) ei bod yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol drwy gyfrwng cynnig a gyflwynir gan y Trefnydd ym mis Rhagfyr 2006.

a) a comprehensive consultation has been carried out with all interested parties, the terms of which to be agreed by the Culture, Welsh Language and Sport Committee; and

b) it seeks the approval of the National Assembly by a motion to be tabled by the Business Minister in December 2006.

Yr oedd yn dipyn o syndod i bawb ym maes y celfyddydau pan gyhoeddodd y Gweinidog yn ddirybydd, ychydig cyn toriad y Nadolig 2004, ei fod am drosglwyddo cyfrifoldeb am chwech o'r prif gwmnïau celfyddydol o Cyngor Celfyddydau Cymru i fwrdd diwylliant newydd y Llywodraeth, bwrdd y byddai ef ei hun yn ei gadeirio. Byddai'r Gweinidog yn cael rheolaeth uniongyrchol dros 40 y cant o gyllideb y celfyddydau, a chan y byddai hyn yn dileu'r byffer rhyngddo ef a'r celfyddydau, byddai'n tanseilio ymhellach yr egwyddor hyd braich.

Yr oedd ymateb y cyngor yn ddiplomyddol iawn. Ni leisiodd ei bryderon gwirioneddol yn gyhoeddus; arhosodd y cyngor i'r Gweinidog ddechrau ymgynghori, gan ddisgwyl y byddai yn bosibl i gynnal trafodaethau difrifol er mwyn dod o hyd i ddatrysiad ymarferol a theg. Arhosodd y cyngor am amser maith, ond nid oedd gan y Gweinidog unrhyw awydd i gynnal trafodaethau ynghylch ei gynlluniau.

Twelve months after the announcement of the Minister's unilateral plans, the arts council took the initiative and presented him with its proposals for 'A Close and Accountable Partnership'. The presentation was constructive, innovative, radical and candid, clearly seeking to promote the interests of the arts in a manner that would meet the Government's objectives on accountability and policy formation, without undermining the arm's length principle. Shortly after receiving the council's proposals, its highly regarded chair was informed by the Minister that a new chair would be appointed, a chair to lead on the issue of increasing attendance among disadvantaged groups.

Let us take a brief look at the council's

It came as a shock to all concerned with the arts when, shortly before the Christmas recess in 2004, the Minister announced abruptly that he was transferring responsibility for six of the major arts companies from the Arts Council of Wales to the Government's new culture board, which he himself would chair. The Minister would gain direct control of 40 per cent of the budget for the arts, and as that would remove the buffer between him and the arts, it would further undermine the arm's-length principle.

The arts council responded very diplomatically. It did not air its real concerns publicly; it waited for the Minister to begin consultation, expecting that it would be possible to enter into serious discussions in order to formulate a practical and just solution. The council waited a long time, but the Minister had no desire to engage in discussions about his plans.

Ddeuddeg mis wedi cyhoeddi cynlluniau unochrog y Gweinidog, achubodd cyngor y celfyddydau y blaen a chyflwyno'i gynigion iddo ar gyfer 'A Close and Accountable Partnership'. Yr oedd y cyflwyniad yn adeiladol, yn arloesol, yn radical ac yn onest, ac yn amlwg yn ceisio hyrwyddo buddiannau'r celfyddydau mewn modd a fyddai'n diwallu amcanion y Llywodraeth o ran atebolrwydd a llunio polisi, heb danseilio'r egwyddor hyd braich. Yn fuan ar ôl cyflwyno cynigion y cyngor iddo, rhoddodd y Gweinidog wybod i'w gadeirydd, gŵr uchel ei barch, y byddid yn penodi cadeirydd newydd, cadeirydd i roi arweiniad ar y broblem o gynyddu nifer y bobl o grwpiau difreintiedig sy'n mynychu digwyddiadau.

Gadewch inni gael cipolwg ar record y

record on increasing the attendance of people across the social spectrum, to see if the Minister's treatment of the chair was justifiable. In 1993, research on attendance at arts events in Wales showed that in lower socio-economic groups, only 43 per cent were attending events once a year or more, while for higher socio-economic groups, the figure was 66 per cent—23 percentage points higher than the figure for the lower groups. Action was clearly needed and, by 2005, with the new chair in situ since 2003, the attendance figures had grown considerably, from 43 per cent to 69 per cent in the lower groups, and from 66 per cent to 84 per cent in the higher groups. The percentage gap between them had fallen from 23 per cent to 15 per cent. The arts council's success in attracting considerably more people from deprived areas to attend arts events should have been acknowledged by the Minister, and not turned on its head to try to justify the unjustifiable.

The Minister's handling of the matter reveals an unwillingness to consult others and, indeed, an intolerance of those who dare to express a viewpoint, no matter how positive. He also seems unable to grasp the advantages provided by the 12 council members, 11 of whom are unpaid and yet they contribute from a fount of knowledge of the arts and of professional matters. How many civil servants will be needed to provide similar support for the Minister, and at what extra cost?

Many feel that it would be extremely unwise to change leadership at such a delicate time for the arts council. The Minister's modus operandi, pre merger, have set alarm bells ringing across Wales, sending out a message that, post merger, freedom of expression in the arts could become a thing of the past. Already, concern has been expressed that political pressure could be placed on a company such as Academi—plurality of choice for authors and readers alike could become severely constrained. Likewise, in the event of the Assembly Government falling out with the BBC, threats to make cuts

cyngor yn cynyddu nifer y bobl ar draws y sbectwrwm cymdeithasol sy'n mynychu digwyddiadau, i weld a oedd cyfiawnhad i'r Gweinidog drin y cadeirydd yn y fath fodd. Yn 1993, dangosodd ymchwil ar fynychu digwyddiadau'r celfyddydau yng Nghymru mai dim ond 43 y cant o blith y grwpiau economaidd-gymdeithasol is a oedd yn mynychu digwyddiadau unwaith y flwyddyn neu fwy, tra oedd y ffigur ar gyfer grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch yn 66 y cant—23 pwynt canrannol yn uwch na'r ffigur ar gyfer y grwpiau is. Yr oedd angen gweithredu ar hyn yn amlwg, ac erbyn 2005, a'r cadeirydd newydd yn ei swydd er 2003, yr oedd y ffigurau wedi cynyddu'n sylweddol o 43 y cant i 69 y cant yn y grwpiau is, ac o 66 y cant i 84 y cant yn y grwpiau uwch. Yr oedd y bwlch rhyngddynt wedi lleihau o 23 y cant i 15 y cant. Dylai'r Gweinidog fod wedi cydnabod llwyddiant cyngor y celfyddydau wrth ddenu nifer sylweddol yn fwy o bobl o ardaloedd difreintiedig i fynychu digwyddiadau celfyddydol, yn hytrach na'i wyrdroi i geisio cyfiawnhau'r hyn na ellid ei gyfiawnhau.

Mae'r modd y mae'r Gweinidog wedi ymdrin â'r mater yn dangos amharodrwydd i ymgynghori ag eraill, ac yn wir, anoddefgarwch tuag at y rheini sy'n mentro mynegi barn, waeth pa mor gadarnhaol. Ymddengys hefyd nad yw'n deall y manteision a ddarperir gan y 12 aelod o'r cyngor, 11 ohonynt yn aelodau di-dâl ac eto maent yn cyfrannu o ffynhonnell o wybodaeth am y celfyddydau a materion proffesiynol. Sawl gwas sifil y bydd ei angen i ddarparu cymorth tebyg i'r Gweinidog, ac am ba bris ychwanegol?

Mae nifer o'r farn y byddai'n annoeth iawn newid arweinyddiaeth ar adeg mor fregus i gyngor y celfyddydau. Mae dull gweithredu'r Gweinidog, cyn y broses uno, wedi seinio rhybudd ledled Cymru gan gyfleu'r neges y gallai rhyddid mynegiant yn y celfyddydau ddiflannu wedi'r broses uno. Eisoes, mynegwyd pryder y gellid rhoi pwysau gwleidyddol ar gwmni fel Academi—gallai lluosogrwydd dewis i awduron a darllenwyr fel ei gilydd gael ei gyfyngu'n sylweddol. Yn yr un modd, pe byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cweryla â'r BBC, gellid bygwth toriadau i gyllideb Cerddorfa Genedlaethol

to the budget of the BBC National Orchestra of Wales could be used to gain compliance. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Rubbish.'] Labour has been known to do such things in the past.

In this morning's meeting of the Culture, Welsh Language and Sport Committee, I did not hear one reason as to why the arts in Wales would benefit from the changes proposed by the Minister—not one good reason. Many individuals and groups have contacted Members to protest against the Welsh Assembly Government's totalitarian treatment of the arts council. Clearly, there is an overwhelming demand for a comprehensive consultation on the role of the Arts Council of Wales, and also to halt the Welsh Assembly Government's preparations to take over the direct funding of the big six arts companies.

Huw Lewis: I simply contend that the way in which the arts council distributes funding for the arts is wrong. Apologists for the status quo, some of whom we have already heard from, must explain to me and my constituents why the Merthyr borough, over the last three years, has received a grand total of £2,250 out of £48 million dispersed in arts council grant in aid. For me and my constituents, that adds up to a penny each in the hand every year. What a boost for arts and cultural activity in a deprived community.

Lisa Francis *rose*—

Huw Lewis: In fact, if you add up the whole of the valley, one in three of the population of Wales, this new, ongoing, progressive arts council has dispersed a grand total of £2 million.

Jenny Randerson *rose*—

Huw Lewis: That is 4.7 per cent of the total. A third of the population, and it only got 4.7 per cent. I will move on to this issue in a moment, and maybe I will answer in advance some of the interventions, if Members will bear with me.

This amounts to arts for the few, and not for the many. Maybe this will answer the

Gymreig y BBC er mwyn sicrhau ufudd-dod. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Nonsens'] Gwyddom fod Llafur wedi gwneud peth tebyg yn y gorffennol.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon y bore yma, ni chlywais yr un rheswm pam y byddai'r celfyddydau yng Nghymru yn elwa o'r newidiadau a gynigir gan y Gweinidog—dim un rheswm da. Mae llawer o unigolion a grwpiau wedi cysylltu ag Aelodau i brotestio yn erbyn triniaeth dotalitaraidd Llywodraeth Cynulliad Cymru o gyngor y celfyddydau. Yn amlwg, mae galw dybryd am broses ymgynghori gynhwysfawr am rôl Cyngor Celfyddydau Cymru a hefyd i atal paratodau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn uniongyrchol gyfrifol am ariannu'r chwe chwmni celfyddydol mawr.

Huw Lewis: Yn syml, dadleuaf fod y modd y mae cyngor y celfyddydau yn dosbarthu arian i'r celfyddydau yn anghywir. Rhaid i'r rhenni sy'n cefnogi'r status quo, yr ydym wedi clywed gan rai ohonynt eisoes, egluro wrthyf fi mi a'm hetholwyr pam mae bwrdeistref Merthyr, dros y tair blynedd diwethaf, wedi cael cyfanswm o £2,250 o'r £48 miliwn a ddosbarthwyd fel cymorth grant gan gyngor y celfyddydau. I mi a'm hetholwyr, golyga hynny geiniog ymhob llaw bob blwyddyn. Dyna ichi hwb i'r celfyddydau a gweithgarwch diwylliannol mewn cymuned ddifreintiedig.

Lisa Francis *a gododd*—

Huw Lewis: Yn wir, os cyfrifwch y cwm i gyd, un o bob tri o boblogaeth Cymru, mae'r cyngor celfyddydau newydd, parhaol, datblygedig hwn wedi dosbarthu cyfanswm o £2 filiwn.

Jenny Randerson *a gododd*—

Huw Lewis: Mae hynny'n 4.7 y cant o'r cyfanswm. Traean o'r boblogaeth, a dim ond 4.7 y cant a gafodd. Byddaf yn troi at y mater hwn mewn eiliad, ac efallai y gallaf ateb rhai o'r ymyriadau ymlaen llaw, os gal yr Aelodau fod yn amyneddgar â mi.

Celfyddydau i'r lleiafrif yw hyn, ac nid i'r mwyafrif. Efallai y bydd hyn yn ateb yr

interventions intended, because, with the opposition and the arts establishment combined in alliance, their response has been a highly ennobling one of, 'Let us blame the victim; let us blame the poor'. Never have I seen such weasel-worded spite directed at proud communities in the south Wales Valleys as I have seen over the last couple of weeks. Opposition Members should be ashamed. Do you have no grasp of the fact that there is less capacity in civic society in a deprived community and that that leads to this vicious circle of low grant funding and low applications?

Jenny Randerson: You are not answering my questions in advance. Will you comment on the fact that the arts council offered a considerable amount of money to Merthyr for a new arts centre, and that the grant was not taken up because the council was not prepared to match that money? The money concerned ran to several millions of pounds. I am told that it was £3 million, but that figure might be inaccurate.

4.40 p.m.

Huw Lewis: It is inaccurate; it was £7 million. I criticised Merthyr council for that. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] I have not stood shoulder to shoulder with Merthyr council on that decision. I have criticised it privately and publicly in the media for that mistake. However, if you look at the figures, even if we had been successful in gaining the £7 million, the overall picture of dispersion of funding would still be a damned disgrace.

Respected research has shown—and the arts council has seen it—that the interest in participation in the arts is exactly the same in Merthyr Tydfil as it is in Cardiff. The people in Merthyr pay just the same as the people in Cardiff through their taxes to subsidise the arts council. I support the Minister, because my community has a right to a return on its investment in the arts council. We need a proactive strategy for all of Wales, and not Wales minus the Valleys, because of the perception that poor people are culturally too thick to be able to access funding or because their councils are dysfunctional for some

ymyriadau a fwriadwyd, oherwydd, gyda'r gwrthbleidiau a sefydliadau'r celfyddydau mewn undod, cafwyd ymateb mawrfrydig iawn ganddynt, sef, 'Gadewch inni feio'r dioddefwr; gadewch inni feio'r flawd'. Nid wyf erioed wedi gweld llwfrdra mor faleisus wedi'i anelu at gymunedau balch Cymoedd y de ag a welais dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Dylai Aelodau'r Gwrthbleidiau gywilyddio. Oni ddeallwch fod llai o gapasiti mewn cymdeithas ddinesig mewn cymuned ddifreintiedig a bod hynny'n arwain at gylch dieflig o lefel isel o grant a lefel isel o geisiadau?

Jenny Randerson: Nid ydych yn ateb fy nghwestiwn ymlaen llaw. A wnewch chi sylw am y ffaith fod cyngor y celfyddydau wedi cynnig swm sylweddol o arian i Ferthyr ar gyfer canolfan newydd i'r celfyddydau ac na fanteisiwyd ar y grant am nad oedd y cyngor yn barod i neilltuo arian cyfatebol? Yr oedd yr arian dan sylw yn filiynau o bunnoedd. Yr wyf ar ddeall mai £3 miliwn ydoedd, ond mae'n bosibl nad yw'r ffigur hwnnw'n gywir.

Huw Lewis: Mae'n anghywir; £7 miliwn ydoedd. Beirniadais gyngor Merthyr am hynny. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O'] Nid wyf wedi sefyll gyfysgwydd â chyngor Merthyr ar y penderfyniad hwnnw. Yr wyf wedi'i feirniadu'n breifat ac yn gyhoeddus yn y cyfryngau am y camgymeriad hwnnw. Fodd bynnag, os edrychwch ar y ffigurau, hyd yn oed pe byddem wedi llwyddo i sicrhau'r £7 miliwn, mae'r darlun cyffredinol o ddyrannu arian yn dal yn warth.

Mae gwaith ymchwil dibynadwy—ac mae cyngor y celfyddydau wedi'i weld—yn dangos bod y diddordeb o ran cymryd rhan yn y celfyddydau yn union yr un fath ym Merthyr Tudful ag yng Nghaerdydd. Mae'r bobl ym Merthyr yn talu'n union yr un faint â phobl Caerdydd drwy eu trethi i ariannu cyngor y celfyddydau. Cefnogaf y Gweinidog, oherwydd mae hawl gan fy nghymuned i elwa o'i buddsoddiad yng nghyngor y celfyddydau. Mae arnom angen strategaeth ragweithiol i Gymru gyfan, nid i Gymru heb y Cymoedd, oherwydd y canfyddiad bod pobl dlawd yn rhy

reason. I do not care what the weasel words are—I want an all-Wales strategy from an arts council that does what it says on the tin, which delivers arts strategies for all communities in Wales.

Lisa Francis: What are the benefits of bringing the strategic planning functions of the Arts Council of Wales under Government control? This policy was announced 14 months ago, but we still do not know. In future, six national organisations will be in a privileged position in terms of direct access to the Minister. Those were the words of Leighton Andrews in the Culture, Welsh Language and Sport Committee a fortnight ago. They are being picked out and isolated, and that is the reality of the policy before us.

In respect of longer-term funding and building international status, what are the benefits of bringing funding under the direct control of the Minister? We do not know that either. What is the relationship between the access issue and the six major companies? Tell us, Minister. In this morning's meeting of the Culture, Welsh Language and Sport Committee, I asked the Minister to explain his aim in reviewing the culture strategy. Will it be a thorough review that acknowledges the parts that have previously worked well and been successful? Or is the review the creation of an access policy? You spectacularly failed to set out your stall and answer the question.

Access to the arts is important to everyone in the Chamber. We are all concerned about deprived communities. The Arts Council of Wales sampled 7,000 people and showed us—

Huw Lewis: You are especially generous given that I did not give way to you.

You are concerned about deprived communities and the arts activity within them, yet you are prepared to stand in the way of a Minister that wants to deliver that,

ddiwylliannol anneallus i allu manteisio ar arian, neu oherwydd bod eu cynghorau'n aneffeithiol am ryw reswm. Nid wyf yn malio beth yw'r geiriau llwfr—yr wyf am weld strategaeth Cymru gyfan gan gyngor y celfyddydau sy'n gweithredu'n union yn ôl ei gylch gorchwyl, sef cyflwyno strategaethau ar gyfer y celfyddydau i bob cymuned yng Nghymru.

Lisa Francis: Beth yw manteision dod â swyddogaethau cynllunio strategol Cyngor Celfyddydau Cymru o dan reolaeth y Llywodraeth? Cyhoeddwyd y polisi hwn 14 mis yn ôl, ond ni wyddom hyd yma. Yn y dyfodol, bydd chwe sefydliad cenedlaethol mewn sefyllfa freintiedig o ran cyswllt uniongyrchol â'r Gweinidog. Dyna oedd geiriau Leighton Andrews yn y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon bythefnos yn ôl. Maent yn cael eu clustnodi a'u hynysu, a dyna yw realaeth y polisi sydd ger ein bron.

O ran ariannu tymor hwy a datblygu statws rhyngwladol, beth yw manteision dod â'r broses ariannu o dan reolaeth uniongyrchol y Gweinidog? Ni wyddom hyn ychwaith. Beth yw'r berthynas rhwng materion yn ymwneud â mynediad a'r chwe phrif gwmni? Dywedwch wrthym, Weinidog. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon y bore yma, gofynnais i'r Gweinidog egluro ei nod wrth adolygu'r strategaeth diwylliant. A fydd yn adolygiad trylwyr a fydd yn cydnabod y rhannau sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol ac a fu yn llwyddiannus? Neu a yw'r adolygiad yn broses o lunio polisi mynediad? Yr ydych wedi methu'n rhyfeddol i godi'ch stondin ac ateb y cwestiwn.

Mae mynediad i'r celfyddydau yn bwysig i bawb yn y Siambr. Yr ydym i gyd yn bryderus ynghylch cymunedau difreintiedig. Cynhaliodd Cyngor Celfyddydau Cymru sampl o 7,000 o bobl a dangoswyd—

Huw Lewis: Yr ydych yn arbennig o garedig o gofio nad wyf wedi ildio i chi.

Yr ydych yn pryderu am gymunedau difreintiedig a'r gweithgarwch celfyddydol ynddynt, ac eto yr ydych yn barod i rwystro Gweinidog sydd am sicrhau hynny, gan

and defend the status quo, which depends for its very pattern of spending on the philanthropy of the people of the Valleys to pay for the privilege of other people to have artistic and cultural activity in their communities, while they go without.

Lisa Francis: Let me carry on, Huw, and I will address your point.

The arts council's survey included a sample of 7,000 people, and it showed, as Owen John mentioned, that the number of adults attending arts events at least once a year has increased by 40 per cent. Among low income groups, attendance since 1993 has increased by 51 per cent, which is double the increase in the attendance of managerial or professional groups during this period. Therefore, in what way do these figures demonstrate that access to the arts has not been at the heart of the arts council's agenda? What has the arts council done wrong? How has it underachieved, and how is it failing to address these perceived inequalities in access and participation? How many arts council clients are not trying to widen their audience base? This Government wants to work on an evidence base, so give us the evidence and give us some facts.

There are so many questions and so little time, and that has been the problem. The Minister has created a new culture board, and he has decided to prepare a new culture strategy. However, he has failed to properly engage with the very people who should be aiding him and have ideas for him, and whom he should support, so much so that the arts council convened an emergency meeting and wrote to the First Minister complaining about the lack of serious dialogue on the proposal to transfer six of its largest clients.

Denise Idris Jones: In Wales, we now have the unique opportunity to enlarge our natural talent. The Bryn Terfel factor is both a lesson and mission. In schools now, there are potentially great voices. In the Valleys, there are budding Richard Burtons. In the hills and

amddiffyn y status quo. Mae'r patrwm gwariant hwnnw yn dibynnu ar haelioni pobl y Cymoedd i dalu i bobl eraill fanteisio ar weithgarwch artistig a diwylliannol yn eu cymunedau hwy, a mynd heb ddim eu hunain.

Lisa Francis: Gadewch imi barhau, Huw, a byddaf yn ymdrin â'ch pwynt.

Cynhwysodd arolwg cyngor y celfyddydau sampl o 7,000 o bobl, a dangosodd, fel y dywedodd Owen John, fod nifer yr oedolion sy'n mynychu digwyddiadau'r celfyddydau o leiaf unwaith y flwyddyn wedi cynyddu 40 y cant. Ymhlith grwpiau incwm isel, mae'r niferoedd wedi cynyddu 51 y cant er 1993, sef dwywaith y cynnydd yn niferoedd y grwpiau rheoli neu broffesiynol, yn ystod y cyfnod hwn. Felly, ym mha ffordd y mae'r ffigurau hyn yn dangos nad yw mynediad i'r celfyddydau wedi bod wrth wraidd agenda cyngor y celfyddydau? Beth y mae cyngor y celfyddydau wedi'i wneud o'i le? Ym mha ffordd y mae wedi tangyflawni, ac ym mha ffordd y mae'n methu â mynd i'r afael â'r anghyfartaledd hwn a honnir mewn mynediad a chyfranogiad? Faint o glientiaid cyngor y celfyddydau nad ydynt yn ceisio ehangu eu cynulleidfaoedd? Mae'r Llywodraeth am weithio ar sail tystiolaeth, felly, rhowch y dystiolaeth inni a rhowch chydig ffeithiau inni.

Mae cynifer o gwestiynau a chyn lleied o amser a dyma fu'r broblem. Mae'r Gweinidog wedi creu bwrdd diwylliant newydd ac wedi penderfynu paratoi strategaeth diwylliant newydd. Fodd bynnag, mae wedi methu ag ymgysylltu'n iawn â'r union bobl a ddylai fod yn rhoi cymorth iddo a chynnig syniadau iddo, pobl y dylai yntau fod yn eu cefnogi; gymaint felly fel y bu i gyngor y celfyddydau gynnull cyfarfod brys gan ysgrifennu at y Prif Weinidog i gwyno am y ffaith fod cyn lleied o ddialog difrifol wedi bod ar y cynigion i drosglwyddo chwech o'i glientiaid mwyaf.

Denise Idris Jones: Yng Nghymru, mae gennym y cyfle unigryw bellach i ymestyn ein talent naturiol. Mae hanes Bryn Terfel yn wers ac yn genhadaeth. Mewn ysgolion yn awr, mae darpar leisiau gwych. Yn y Cymoedd, mae darpar actorion tebyg i

moorlands of north Wales, there are new Thomas Firbankes and Kyffin Williamses. Let us put our money where our mouth is. Let us take the taxpayers' hard-earned cash and put it directly where it will have the most effect and the least waste.

Since 1999, we in the Assembly have increased funding of the arts by a massive 56 per cent. That proves Labour's commitment. It is not a matter of state intervention in the arts, but a matter of state investment in the arts. It is not a matter of political interference; it is a matter of political will and belief. The hands-off principle will and should apply.

Lisa Francis: Do you think that the Minister's memorandum of understanding, in which he intends to politically enshrine the artist's right to self-expression, will effectively help the arm's-length principle? Will you explain to me how you think that will happen?

Denise Idris Jones: You have to remember that, when I was a teacher, there might have been excellent poets or wonderful singers in some of the poorest parts of my catchment area. Bryn Terfel came from Pant-glas.

As Minister, Alun Pugh, cogently said, we do not wish to dictate which operas the Welsh National Opera should stage next year. The man currently running Theatr Clwyd, Terry Hands, is one of the most respected names in British theatre, and he has come out strongly in favour of the new plans. He says that funding via a quango is a relic of the old Welsh Office days.

'If you are unhappy with a politician you can vote them out. If you are unhappy with a quango, they're there for life...I don't understand this opposition. We had a meeting of the Big Six in the summer and five were very much in favour of the changes.'

Mark Isherwood *rose*—

The Presiding Officer: Order. I do not

Richard Burton. Ar fryniau a rhostiroedd y gogledd, mae awduron ac artistiaid newydd tebyg i Thomas Firbanks a Kyffin Williams. Gadewch inni roi ein harian ar ein gair. Gadewch inni gymryd arian haeddiannol trethdalwyr a'i roi yn union lle y caiff yr effaith fwyaf a'r gwastraff lleiaf.

Er 1999, yr ydym ni yn y Cynulliad wedi cynyddu'r arian ar gyfer y celfyddydau 56 y cant ac mae hynny'n gynnydd enfawr. Mae hynny'n profi ymrwymiad Llafur. Nid ymyrryd gan y wladwriaeth yn y celfyddydau yw hyn ond buddsoddiad gan y wladwriaeth yn y celfyddydau. Nid ymyrryd gwleidyddol ydyw, ond ewyllys a chred wleidyddol. Bydd yr egwyddor o ddim ymyrryd yn gymwys, a dylai fod yn gymwys.

Lisa Francis: A gredwch y bydd memorandwm dealltwriaeth y Gweinidog, lle y mae'n bwriadu diogelu'n wleidyddol hawl yr artist i fynegi ei hun, yn helpu'r egwyddor hyd braich mewn gwirionedd? A eglurwch wrthyf sut y credwch y bydd hynny'n digwydd?

Denise Idris Jones: Rhaid ichi gofio, pan oeddwn yn athrawes, fod beirdd rhagorol neu gantorion gwych efallai yn rhai o ardaloedd tlotaf fy nalgylch i. Daeth Bryn Terfel o Bant-glas.

Fel y dywedodd y Gweinidog, Alun Pugh, a hynny'n gryf, nid ydym am bennu pa operâu y dylai Opera Cenedlaethol Cymru eu llwyfannu y flwyddyn nesaf. Y dyn sy'n rhedeg Theatr Clwyd ar hyn o bryd, Terry Hands, yw un o'r bobl uchaf ei barch yn y theatr ym Mhrydain, ac mae wedi mynegi'n gryf ei fod o blaid y cynlluniau newydd. Dywed fod y dull o ariannu drwy gyfrwng cwango yn deillio o hen ddyddiau'r Swyddfa Gymreig.

Os ydych yn anfodlon â gwleidydd, gallwch bleidleisio i gael gwared arno. Os ydych yn anfodlon â chwango, mae yno am byth... nid wyf yn deall y gwrthwynebiad hwn. Cawsom gyfarfod o'r Chwe Mawr yn yr haf ac yr oedd pump yn gadarn o blaid y newidiadau.

Mark Isherwood *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn credu bod

believe that Denise Idris Jones is giving way, because she does not have much time left.

Denise Idris Jones: I will just finish, if I may.

Terry Hands says that he has worked under both systems and the UK is the only entity to allow a quango to run its arts and that, in every other country, for example, France, Germany, Austria, Norway and so on, there is always less interference and more money. To me, Terry Hands's words make sound sense.

Eleanor Burnham: Great art is difficult to quantify and qualify, but it has the ability to inspire and augment the quality of our lives. While politicians set the rules for society, it is the artist that reflects its values and feelings and the greatest artists and the greatest art define society as it is and accelerate change. They can influence future generations of artists and people. However, for art to improve our lives, it has to reach and touch people meaningfully and be an integral part of their lives, education and experiences. I want to see the best of the arts reaching the most people. It is essential for most of the people.

Who decides what is best? None of us wants commissioner Pugh and his arts police frogmarching families from their sitting rooms to attend whatever cultural event he thinks they should experience.

Wales should be proud of its big six national companies. The WNO is the envy of opera-goers throughout Europe and even the world.

Lynne Neagle: Will you give way?

Eleanor Burnham: No, I do not have time, I am sorry.

We should make much more of this. Minister, will your new arrangements give them the best deal? What will change? What can the Government offer them that they do

Denise Idris Jones yn ildio am nad oes ganddi lawer o amser yn weddill.

Denise Idris Jones: Fe orffennaf, os caf.

Dywed Terry Hands ei fod wedi gweithio o dan y ddwy system ac mai'r DU yw'r unig endid i ganiatáu i gwango redeg ei gelfyddydau, ac ymhob gwlad arall, er enghraifft, Ffrainc, yr Almaen, Awstria, Norwy ac ati, mae llai o ymyrryd a mwy o arian bob amser. I mi, mae geiriau Terry Hands yn gwneud synnwyr.

Eleanor Burnham: Mae celfyddyd fawr yn anodd ei mesur a'i chymhwysu, ond mae'n gallu ysbrydoli a gwella ansawdd ein bywydau. Er mai gwleidyddion sy'n pennu'r rheolau ar gyfer cymdeithas, yr artist sy'n adlewyrchu ei gwerthoedd a'i theimladau, a'r artistiaid mwyaf a'r gelfyddyd fwyaf sy'n diffinio cymdeithas fel y mae ac yn cyflymu'r broses o newid. Gallant ddylanwadu ar genedlaethau o artistiaid a phobl y dyfodol. Fodd bynnag, er mwyn i gelfyddyd wella ein bywydau, rhaid iddi gyrraedd a chyffwrdd â phobl mewn modd ystyrlon a bod yn rhan annatod o'u bywydau, eu haddysg a'u profiadau. Yr wyf am weld y gorau o'r celfyddydau yn cyrraedd y rhan fwyaf o bobl. Mae'n hanfodol i'r rhan fwyaf o bobl.

Pwy sy'n penderfynu beth sydd orau? Nid oes yr un ohonom am i gomisiynydd Pugh a'i heddlu celfyddydol hebrwng teuluoedd o'u hystafelloedd byw o'u hanfodd i fynychu pa ddigwyddiad diwylliannol bynnag y cred y dylent ei fwynhau.

Dylai Cymru fod yn falch o'i chwe chwmmi cenedlaethol mawr. Mae dilynwyr opera ledled Ewrop a hyd yn oed ledled y byd yn cenfigennu wrth Opera Cenedlaethol Cymru.

Lynne Neagle: A ildiwch?

Eleanor Burnham: Na wnaf, nid oes gennyf amser, mae'n ddrwg gennyf.

Dylem roi mwy o sylw o lawer i hyn. Weinidog, a fydd eich trefniadau newydd yn rhoi'r fargen orau iddynt? Beth fydd yn newid? Beth all y Llywodraeth ei gynnis

not have now? Will what you call ‘active management’—and please explain to us what you mean by that later—allow them to be the best that they can be? We must not forget what will happen to the other 120 companies that are presently funded by the Arts Council of Wales. How will they be affected?

This split between the big six and the rest creates a divisive and inequitable two-level system. Minister, you have designed a system that will end in both tears and tiers. I have heard you claim time and again that you will not be making value judgments about the arts, but this decision to create a split is, in itself, a value judgement.

4.50 p.m.

Hoffwn ofyn hefyd a fydd y cwmnïau celfyddydau bychan yn gynaliadwy ar ôl newidiadau mis Ebrill. Sut fydd y cwmnïau hynny—tua 100 ohonynt—yn gweithio yn ein cymunedau, a sut fydd yr arian yn cael ei ddosbarthu? Beth fydd yn gwella hynny?

The Minister claims that, by bringing in the big six, new relationships will be forged between these companies and the taxpayer, and that, in return for benefits, there will be a new obligation. However, these companies are already committed and obligated to tackling access. They are already reaching out. How does funding them directly help? It risks breaking the continuity of their current programmes. What you have done, Minister, is destabilised the arts, slashed staff morale and rattled the committed volunteers who give so much to the arts in Wales. It is no wonder that so many in the arts community are up in arms.

The Minister gives the impression that the ACW was not doing a good job in widening access and participation, but every year he sends a remit letter. Do the Labour Minister and the Government plan to dictate to the big six what community work they should do to

idddynt nad oes ganddynt ar hyn o bryd? A fydd yr hyn a alwch yn ‘rheolaeth weithredol’—ac a allwch egluro wrthym yn ddiweddarach beth yn union a olygwch wrth hynny—yn caniatáu iddynt weithredu hyd eithaf eu gallu? Rhaid inni beidio ag anghofio beth fydd yn digwydd i’r 120 o gwmnïau eraill a ariennir ar hyn o bryd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Sut yr effeithir arnynt hwy?

Mae’r rhaniad hwn rhwng y chwe mawr a’r gweddill yn creu system ymrannol ac anghyfiawn ar ddwy lefel. Weinidog, yr ydych wedi cynllunio system a fydd yn achosi dagrau a haenau. Yr wyf wedi’ch clywed yn honni dro ar ôl tro na fyddwch yn ceisio dyfarnu gwerth y celfyddydau, ond mae’r penderfyniad hwn i greu rhaniad, ynddo’i hun, yn ddyfarniad gwerth.

I should also like to ask whether the smaller arts companies will be sustainable after the changes in April. How will those companies—around 100 of them—work in our communities, and how will the funding be distributed? What will improve that?

Mae’r Gweinidog yn honni, drwy gynnwys y chwe mawr, y bydd cydberthynas newydd rhwng y cwmnïau hynny a’r trethdalwr, ac yn gyfnewid am fuddiannau, y bydd rhwymedigaeth newydd. Fodd bynnag, mae’r cwmnïau hyn eisoes wedi ymrwymo i fynd i’r afael â mynediad ac o dan orfodaeth i wneud hynny. Maent eisoes yn ymestyn allan. Sut y mae’r arian yn eu helpu hwy yn uniongyrchol? Mae perygl y bydd yn tarfu ar barhad eu rhaglenni presennol. Yr hyn yr ydych wedi ei wneud, Weinidog, yw ansefydlogi’r celfyddydau, difetha morâl staff a chynhyrfu’r gwirfoddolwyr ymroddedig sy’n rhoi cymaint i’r celfyddydau yng Nghymru. Nid yw’n syndod bod cynifer o bobl yn y gymuned gelfyddydol wedi eu cythruddo.

Mae’r Gweinidog yn rhoi’r argraff nad oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud gwaith da wrth ehangu mynediad a chyfranogiad, ond bob blwyddyn mae’n anfon llythyr cylch gwaith. A yw’r Gweinidog Llafur a’r Llywodraeth Lafur yn

widen access? If so, what are Labour's plans to provide more money for this? I am now going to put down my notes, Minister, and I suggest that you put down your shovel; you have already dug yourself a big hole.

Carl Sargeant: The opposition parties are woefully out of touch with the major players in the arts world. Only last week, Theatr Clwyd's artistic director, as Denise said, backed the proposals to shake up the arts council. He quite rightly said that funding via a quango was a relic of the old Welsh Office days. He was right, and he should know, because he is at the cutting edge of arts delivery, unlike those who just think that they know.

However vital the big six are to the artistic and cultural life of Wales, it is important that we move forward in extending access to the arts for every community in Wales.

Lisa Francis: Will the Member give way?

Carl Sargeant: I will in a minute. It is particularly important that we increase levels of participation in socially deprived communities to ensure that all communities benefit from public funding for the arts. Every person in every community should have the opportunity to experience and participate in arts regardless of where they live or their personal circumstances. I call upon the Assembly Government to ensure that the Night Out scheme is extended to other Communities First areas. We can do this with our proposed reforms.

Last year, additional money was invested in the Night Out community touring scheme, a scheme that is now being copied elsewhere in the UK, as is only right. A total of 112 performances were held in Communities First areas throughout the year. It was a good start, Minister, but we should increase the figure. Cutting bureaucracy means that the money can go where it counts.

bwriadu dweud wrth y chwe mawr pa waith cymunedol y dylent ei wneud i ehangu mynediad? Os felly, beth yw cynlluniau Llafur i ddarparu rhagor o arian ar gyfer hyn? Yr wyf am roi fy nodiadau heibio yn awr, Weinidog, ac awgrymaf eich bod chi yn rhoi eich rhaw i lawr; yr ydych eisoes wedi cloddio twll mawr i chi eich hun.

Carl Sargeant: Mae'r gwrthbleidiau wedi colli cysylltiad yn druenus â'r prif arweinwyr yn y byd celfyddydol. Dim ond wythnos diwethaf yr oedd cyfarwyddwr artistig Theatr Clwyd, fel y dywedodd Denise, yn cefnogi'r cynigion i ad-drefnu cyngor y celfyddydau. Dywedodd, a hynny'n briodol, fod ariannu drwy gyfrwng cwango yn deillio o ddyddiau'r hen Swyddfa Gymreig. Yr oedd yn iawn, a dylai wybod, oherwydd mae ar y blaen o ran darpariaeth gelfyddydol, yn wahanol i'r rheini sy'n credu eu bod yn gwybod.

Waeth pa mor hanfodol yw'r chwe mawr i fywyd artistig a diwylliannol Cymru, mae'n bwysig inni allu symud yn ein blaenau i ehangu mynediad i'r celfyddydau i bob cymuned yng Nghymru.

Lisa Francis: A wnaiff yr Aelod ildio?

Carl Sargeant: Gwnaf ymhen munud. Mae'n arbennig o bwysig inni gynyddu lefelau cyfranogiad mewn cymunedau cymdeithasol ddifreintiedig i sicrhau bod pob cymuned yn elwa o arian cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau. Dylai pawb ym mhob cymuned gael y cyfle i brofi a chyfranogi yn y celfyddydau waeth ble maent yn byw, neu waeth beth yw eu hamgylchiadau personol. Galwaf ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y cynllun Noson Allan yn cael ei ymestyn i ardaloedd eraill Cymunedau yn Gyntaf. Gallwn wneud hyn gyda'n diwygiadau arfaethedig.

Y llynedd, buddsoddwyd arian ychwanegol yn y cynllun teithio cymunedol Noson Allan, cynllun sy'n cael ei gopïo mewn mannau eraill yn y DU erbyn hyn, fel sy'n briodol. Cynhaliwyd cyfanswm o 112 o berfformiadau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf drwy gydol y flwyddyn. Yr oedd yn ddechrau da, Weinidog, ond dylem gynyddu'r nifer. Mae lleihau biwrocratiaeth

yn golygu y gall yr arian fynd i'r manau lle y mae'n cyfrif.

The Arts Outside Cardiff scheme is also an excellent initiative, bringing plays and schemes such as *Brassed Off* to Communities First areas. For example, Connah's Quay High School opened its doors to art for the benefit of people who had never seen a theatre in their lives. That is what we need to do for everyone.

We must ask who can be trusted to make the arts accessible to everyone. The answer is that it is this Minister, not that lot over there, and certainly not the Tories. While in power, the Tories encouraged national museums to introduce charges. Labour has made them free. Under the Tories, arts funding fell in real terms every year from 1992 to 1997, and, in their 2005 manifesto, written by good old David Cameron, they promised a 10 per cent cut.

I am particularly interested in what Plaid Cymru is thinking at the moment. Its policy on quango reform changes at every stage. The only artform that it is interested in at the moment is dancing to the Tory tune. As for my good friend, Peter Law, at the back, I wonder about him sometimes, because, of a budget of £47 million, Blaenau Gwent receives £166,000, yet he is prepared to vote for a quango that would keep money out of Blaenau Gwent. It is absolutely disgraceful.

Peter Law: If you look back at the Record of Proceedings, you will see how many times I have stood here and been ignored by those in power, who should know better—coming from the Labour Party. We have never done well, but we cannot do any worse. Therefore, I put my faith in the arts council and say that we should give it the opportunity to develop further. That is what we could expect. You should look at the number of times that Peter Law has stood up to say how much is coming into my valley; you will see that that is on the record.

Carl Sargeant: I am surprised that Peter has flip-flopped on the issue that he suggested,

Mae cynllun y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd hefyd yn fenter ragorol, sy'n dod â dramâu a chynlluniau megis *Brassed Off* i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, agorodd Ysgol Uwchradd Cei Connah ei drysau i gelfyddyd ar gyfer pobl nad oeddent erioed wedi gweld theatr. Dyna y mae angen inni ei wneud i bawb.

Rhaid inni ofyn ym mhwy y gallwn ymddiried i wneud y celfyddydau'n hwylus i bawb. Yr ateb yw y Gweinidog hwn, nid y rheini draw acw, ac yn sicr nid y Torïaid. Pan oeddent mewn grym, anogodd y Torïaid amgueddfeydd cenedlaethol i gyflwyno taliadau. Mae Llafur wedi darparu mynediad am ddim. O dan y Torïaid, syrthiodd cyllid y celfyddydau mewn arian gwirioneddol bob blwyddyn o 1992 i 1997, ac yn eu maniffesto ar gyfer 2005, a ysgrifennwyd gan yr hen David Cameron, addawsant doriad o 10 y cant.

Mae gennyf ddiddordeb arbennig ym marn Plaid Cymru ar hyn o bryd. Mae ei pholisi ar newidiadau i ddiwygio cwangos yn newid bob cam. Yr unig beth y mae ganddi ddiddordeb ynddo ar hyn o bryd yw dilyn y Torïaid. O ran fy ffrind da, Peter Law, yn y cefn, rhyfeddaf ato weithiau, oherwydd o gyllideb o £47 miliwn, mae Blaenau Gwent yn cael £166,000, ac eto mae'n barod i bleidleisio dros gwango a fyddai'n cadw arian allan o Flaenau Gwent. Mae hynny'n hollol warthus.

Peter Law: Os edrychwch ar Gofnod y Trafodion fe welwch sawl gwaith yr wyf wedi sefyll yma ac wedi cael fy anwybyddu gan y rhai mewn grym, y rhai a ddylai wybod yn well—yn dod o'r Blaid Lafur. Nid ydym erioed wedi gwneud yn dda, ond ni allwn wneud yn waeth. Felly, ymddiriedaf yng nghyngor y celfyddydau a dweud y dylem roi'r cyfle iddo ddatblygu ymhellach. Dyna y gallem ei ddisgwyl. Dylech edrych i weld sawl gwaith y mae Peter Law wedi sefyll i ddweud faint sy'n dod i'm cwm i; fe welwch fod hynny wedi ei gofnodi.

Carl Sargeant: Synnaf fod Peter wedi newid ei farn am yr hyn a awgrymodd, sef y dylai'r

which is that the quangos should go. He has flip-flopped on the issue, and the people of Blaenau Gwent will recognise that.

The Presiding Officer: Order. Are you giving way to Lisa Francis? You cannot see her as she is standing behind a pillar.

Carl Sargeant: Yes, go on.

Lisa Francis: I take you back to the beginning of your speech when you mentioned the big six being directly funded by the Minister. How do you think that that will improve the access agenda? What is going to happen to the other revenue clients, who will be fighting like ferrets in a sack for money?

Carl Sargeant: Lisa, how can you challenge us on delivery when your party ensured a 10 per cent cut in delivery? I find that quite astounding.

There is real passion for the arts in Wales, and I add my voice to the 76 per cent of people who say that arts and culture make Wales a better place in which to live.

Ieuan Wyn Jones: Hoffwn gyfeirio at rai o'r pethau a drafodwyd eisoes yn y ddadl hon. Un ohonynt yw'r ffaith bod y Gweinidog yn honni nad yw bwrdd Cyngor Celfyddydau Cymru yn fodlon ystyried y math o agenda a gyflwynwyd ganddo heddiw, sef ehangu mynediad pobl i'r celfyddydau. Wrth gwrs, yr hyn a wrthododd y Gweinidog ei ddweud wrth y Cynulliad yw bod cyngor y celfyddydau wedi cynnig cynllun iddo fisoedd cyn iddo ddod gerbron a dweud nad oedd yn fodlon adnewyddu cadeiryddiaeth Geraint Talfan Davies; byddai'r cynllun wedi caniatáu i'r cyngor sicrhau bod agenda'r Llywodraeth yn cael ei dilyn i'r llythyren. Y cwbl a ddywedodd y cyngor iddo yw, 'Pam na wnaethoch drafod hynny gyda ni?'. Pam na wnaethoch roi cyfle i'r cynllun hwnnw gael ei ystyried yn iawn, Weinidog? Byddai hynny wedi caniatáu i'r arian ar gyfer y chwe chwmmi y mae ef yn sôn amdanynt gael ei neilltuo, fel y mae ef ei eisiau. Yr unig beth fyddai'n parhau yw y byddai perthynas hyd braich o ran darparu'r arian i'r chwe chwmmi.

Pam y gwrthododd y Gweinidog hynny? Y

chwangos ddiflannu. Mae wedi newid ei farn am y mater, a bydd pobl Blaenau Gwent yn cydnabod hynny.

Y Llywydd: Trefn. A ydych yn ildio i Lisa Francis? Ni allwch ei gweld gan ei bod yn sefyll y tu ôl i biler.

Carl Sargeant: Ydw, ewch yn eich blaen.

Lisa Francis: Af â chi yn ôl i ddechrau eich araith pan oeddech yn sôn am y chwe mawr yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y Gweinidog. Sut ydych chi'n credu y bydd hynny'n gwella'r agenda mynediad? Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r cleientiaid refeniw eraill a fydd yn ymladd yn ffyrnig am arian?

Carl Sargeant: Lisa, sut y gallwch ein herio o ran darpariaeth pan sicrhaodd eich plaid doriad o 10 y cant yn y ddarpariaeth? Mae hynny'n rhyfeddol iawn yn fy marn i.

Mae yna wir frwdfrydedd dros y celfyddydau yng Nghymru, a chytunaf â'r 76 y cant o bobl sy'n dweud bod y celfyddydau a diwylliant yn gwneud Cymru yn lle gwell i fyw ynddo.

Ieuan Wyn Jones: I wish to refer to some of the issues that have already been discussed in this debate. One is the fact that the Minister claimed that the board of the Arts Council of Wales was not willing to consider the kind of agenda which he has introduced today, namely that of expanding people's access to the arts. Of course, what the Minister neglected to tell the Assembly was that the arts council presented him with a plan months before he came here and said that he was not prepared to extend Geraint Talfan Davies's chairmanship; that plan would have allowed the council to ensure that the Government's agenda was followed to the letter. All the council said to him was, 'Why did you not discuss this with us?'. Why did you not allow an opportunity for this plan to be thoroughly deliberated, Minister? That would have allowed the funding for the big six he mentioned to be ring-fenced, exactly as he wishes. The only thing that would continue would be an arm's-length approach in providing funding for those six companies.

Why did the Minister refuse that? The reason

rheswm yw nad yw'n fodlon siarad â phobl. Dyna ei broblem o ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Rhoddodd yr un ateb i'r bwrdd. Cynigiodd y bwrdd ffordd ymlaen iddo, ond fe'i gwrthodwyd. Hyd y gwn i, yn yr holl amser y bûm mewn gwleidyddiaeth, nid oes yr un enghraifft arall o ddau gorff a gyllidir gan y Llywodraeth yn beirniadu Gweinidog yn gyhoeddus. Ni ddigwyddodd o'r blaen.

Dywedaf ddau beth am hynny. Yn gyntaf, dywedodd bwrdd Cyngor Celfyddydau Cymru wrth y Gweinidog bod ffordd ymlaen, fel y gwnaeth bwrdd yr iaith. Nid oes yr un Gweinidog arall ar y fainc flaen yn cael ei feirniadu'n gyhoeddus, fel y mae'r Gweinidog hwn. Mae gennym hawl yn awr i fynnu bod y Llywodraeth yn ymgynghori gyda phobl Cymru a chyda'r cyrff sy'n ymwneud â'r celfyddydau.

Huw Lewis *rose*—

Ieuan Wyn Jones: Nid ildiaf; yr wyf wedi cael digon ar y math o iaith a ddaw o enau Huw Lewis heddiw.

I will tell Huw Lewis that that kind of synthetic anger that comes from that side is something that we, on this side, fully understand now. We know perfectly well what was offered to the people of Merthyr Tydfil. It was the council of Merthyr that rejected it.

Huw Lewis *rose*—

Ieuan Wyn Jones: Sit down, Huw Lewis. You have had your chance.

The Presiding Officer: Order.

Yr oeddwn wedi amau y byddai hon yn ddadl heb lawer o ewyllys da na thymer da ynddi. Fel cyn-aelod o gyngor y celfyddydau, mae gennyf gywilydd ohonoch.

Ieuan Wyn Jones: Hoffwn wneud pwynt terfynol, oherwydd mae gennym hawl i ddweud ein barn yn y lle hwn.

Y Llywydd: Trefn. Oes, mae gennych hawl i ddweud eich barn, ond rhaid i chi ei dweud yn gwrtais, yn gymen ac yn gall.

is that he is not prepared to speak to people. That is his problem with the Welsh Language Board. He gave the same answer to the board. The board offered him a way forward, but he refused it. As far as I am aware, in all the time that I have been in politics, there is no other example of two bodies funded by the Government criticising the Minister in public. It has not happened before.

I will say two things about that. First, the board of the Arts Council of Wales told the Minister that there was a way forward, as did the language board. No other Minister on the front bench has been so publicly criticised as this Minister. We have the right to demand that the Government consult with the people of Wales and with the bodies involved in the arts.

Huw Lewis *a gododd*—

Ieuan Wyn Jones: I will not give way; I have heard enough of the kind of rhetoric that Huw Lewis has given us today.

Fe ddywedaf wrth Huw Lewis bod y math hwnnw o ddieter ffug a ddaw o'r ochr honno yn rhywbeth yr ydym ni, ar yr ochr hon, yn ei ddeall yn llwyr bellach. Gwyddom yn iawn beth a gynigiwyd i bobl Merthyr Tudful. Cyngor Merthyr a'i gwrthododd.

Huw Lewis *a gododd*—

Ieuan Wyn Jones: Eisteddwch, Huw Lewis, Yr ydych wedi cael eich cyfle.

Y Llywydd: Trefn.

I had suspected there would not be much good will or good temper in this debate. As a former member of the arts council, I am ashamed of you.

Ieuan Wyn Jones: I wish to make a final point, because we have the right to express our opinion in this place.

The Presiding Officer: Order. Yes, you do have the right to state your view, but you must do so courteously, succinctly and reasonably.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf wedi darfod.

Ieuan Wyn Jones: I have finished.

Cynnig Trefniadol Procedural Motion

The Business Minister (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly for Wales, under Standing Order No. 6.21(iii), extends Plenary for 30 minutes in order to complete business.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dan Reol Sefydlog Rhif 6.21(iii), yn ymestyn y Cyfarfod Llawn 30 munud er mwyn cwblhau busnes.

Y Llywydd: Yr wyf yn fodlon nad yw hyn yn camddefnyddio gweithdrefn y Cynulliad. Rhaid i 10 Aelod o leiaf gefnogi'r cynnig i ymestyn y Cyfarfod Llawn. Gwelaf fod o leiaf 10 Aelod yn gwneud hynny, felly, awn ati i bleidleisio.

The Presiding Officer: I am satisfied that this is not an abuse of Assembly procedure. At least 10 Members must support the motion to extend Plenary. I see that there are at least 10 Members, therefore, we will move to a vote.

*Cynnig: O blaid 37, Ymatal 2, Yn erbyn 8.
Motion: For 37, Abstain 2, Against 8.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Marek, John
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Butler, Rosemary
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Helen Mary
Neagle, Lynne
Pugh, Alun

Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Gregory, Janice
Jones, Ieuan Wyn

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

5.00 p.m.

Polisïau Celfyddydau: Parhad Arts Policy: Continued

Y Llywydd: Pwysleisiaf nad yw hyn yn effeithio ar yr amser a osodwyd ar gyfer y ddadl.

Val Lloyd: Many points have already been raised, so I will be briefer than I intended to be. Access to all forms of the arts should not remain the privilege of the happy few. As outlined in the current culture strategy, 'Creative Future: Cymru Greadigol', culture should not be a luxury, but it still is for too many people.

The arts can make a meaningful contribution to social inclusion and community regeneration and now is the time to take the access-for-all agenda further. That means that all parts of Wales will benefit on a more equal basis from the Welsh Assembly Government's investment of public money. There are deep inequalities between counties. For example, Swansea only got 2.6 per cent of the arts council's grant in aid between 2004 and 2005; Cardiff got 49.8 per cent. Bearing in mind that one would expect Cardiff, as our capital city, to have more, the disparity, at 19 times more, is still huge. We need democratic accountability to ensure that taxpayers' money is spent equitably.

Jenny Randerson: On an important point of clarification, when those figures are counted, the funding of any organisation that has its base in Cardiff is counted as being spent in Cardiff. So figures, including lottery figures and funding figures of that nature, are always grossly misleading.

The Presiding Officer: I emphasise that this does not affect the time set for the debate.

Val Lloyd: Mae nifer o bwyntiau wedi'u codi eisoes, felly byddaf yn fwy cryno nag yr oeddwn wedi'i fwriadu. Ni ddylai mynediad i'r celfyddydau fod yn fraint i'r lleiafrif. Fel yr amlinellir yn y strategaeth ddiwylliant bresennol, 'Cymru Greadigol', ni ddylai diwylliant fod yn fater o foethusrwydd, ond mae hynny'n dal yn wir i lawer gormod o bobl.

Gall y celfyddydau fod yn gyfraniad ystyrllon at gynhwysiant cymdeithasol ac adfywio cymunedol, ac mae'n bryd datblygu'r agenda mynediad i bawb ymhellach. Golyga hynny y bydd pob rhan o Gymru yn elwa mewn ffordd fwy cyfartal o fuddsoddi arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae anghydraddoldebau mawr rhwng siroedd. Er enghraifft, dim ond 2.6 y cant o gymorth grant cyngor y celfyddydau a gafodd Abertawe rhwng 2004 a 2005; cafodd Caerdydd 49.8. O gofio bod disgwyl i Gaerdydd, ein prifddinas, gael mwy, mae'r anghydraddoldeb, sef 19 gwaith yn fwy, yn dal yn enfawr. Mae arnom angen atebolrwydd democrataidd i sicrhau y caiff arian trethdalwyr ei wario mewn ffordd deg.

Jenny Randerson: Er mwyn egluro pwynt pwysig, pan gaiff y ffigurau hynny eu cyfrif, ystyrir arian a roddir i unrhyw sefydliad sydd â'i swyddfa yng Nghaerdydd yn arian a gaiff ei wario yng Nghaerdydd. Felly, mae ffigurau, gan gynnwys ffigurau'r loteri a ffigurau ariannu o'r math hwnnw, bob amser yn gamarweiniol iawn.

Val Lloyd: They may be misleading to some extent, but the amount that went to one place, even bearing in mind that it is our capital city, still speaks for itself.

The proposals before us do not mark the end of artistic freedom in Wales. The importance of maintaining the arm's-length principle has been accepted and national companies will remain free to determine the content of their programmes. This will be enshrined in formal agreement and, to me, the decision to fund the six national arts organisations directly will help them to secure a long-term sustainable future. I do not see it as a move designed to control them. There is nothing unusual or controversial about these reforms and similar measures have been, or are about to be, introduced in Scotland, where they have been welcomed by the opposition.

Mark Isherwood: Will you give way?

Val Lloyd: No, I have already given way once.

In Germany, direct state funding at federal or regional level is the norm for all performing arts companies. That allows for more certainty and security of funding and cuts out one layer of administration. There are similar schemes in Norway and in the Netherlands. It is also worth pointing out that five out of the six national arts organisations in Wales support the principle of direct Government funding.

I know that Clwyd Theatr Cymru's director has already been quoted this afternoon, but I would like to provide a quotation that has not been mentioned. He stated, in an article in today's newspaper:

'I don't understand why there is all this opposition. There is far less interference in an Arts Minister and far more money than there is with a quango.'

It is fair to say that he has hit the nail on the head. The reform proposed will, in my view,

Val Lloyd: Efallai eu bod yn gamarweiniol i ryw raddau, ond mae'r swm a aeth i un lle, hyd yn oed o gofio mai ein prifddinas ydyw, yn siarad drosto'i hun.

Nid yw'r cynigion sydd ger ein bron yn nodi diwedd rhyddid celfyddydol yng Nghymru. Mae pwysigrwydd cadw'r egwyddor hyd braich wedi'i dderbyn, a bydd cwmnïau cenedlaethol yn parhau'n rhydd i bennu cynnwys eu rhaglenni. Caiff hyn ei ymgorffori mewn cytundeb ffurfiol, ac yn fy marn i bydd y penderfyniad i ariannu chwe sefydliad cenedlaethol y celfyddydau yn uniongyrchol yn eu helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor. Nid ystyriaf fod hyn yn gam a fwriadwyd i'w rheoli. Nid oes dim yn anarferol nac yn ddadleuol ynghylch y diwygiadau hyn, ac mae mesurau tebyg wedi'u cyflwyno yn yr Alban, neu ar fin cael eu cyflwyno, ac wedi eu croesawu gan y gwrthbleidiau yno.

Mark Isherwood: A wnewch ildio?

Val Lloyd: Na wnaif, yr wyf eisoes wedi ildio unwaith.

Yn yr Almaen, caiff pob cwmni celfyddydau perfformio ei ariannu'n uniongyrchol gan y wladwriaeth ar lefel ffederal neu ranbarthol. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd a diogelwch o ran ariannu ac yn dileu un haen weinyddol. Mae cynlluniau tebyg yn Norwy a'r Iseldiroedd. Mae hefyd yn werth nodi bod pump o chwe sefydliad cenedlaethol y celfyddydau yng Nghymru yn cefnogi'r egwyddor o gael eu hariannu'n uniongyrchol gan y Llywodraeth.

Gwn fod cyfarwyddwr Clwyd Theatr Cymru wedi'i ddyfynnu eisoes y prynhawn yma, ond hoffwn roi dyfyniad na soniwyd amdano. Dywedodd, mewn erthygl mewn papur newydd heddiw:

Ni ddeallaf y rheswm dros yr holl wrthwynebiadau hyn. Mae llawer llai o ymyrryd drwy gael Gweinidog y Celfyddydau, a llawer mwy o arian nag a geir gyda chwango.

Mae'n deg dweud ei fod wedi taro'r hoelen ar ei phen. Yn fy marn i, bydd y diwygiadau a

deliver greater equality across the arts sector in Wales. Most importantly, there will be a move to ensure that every community in Wales gets a fair share of artistic opportunity.

Nick Bourne: When the Minister opened this debate, I agreed with him when he described this as being about process. It is about process. The Minister then went on to suggest that that did not matter. The amendment is not about investment in the arts, it is about the contempt with which the Welsh arts community has been treated over the last few months, which I find astounding. I happen to think that that is extremely important. It is a crucial issue—breaching the arm's-length principle, risking politicisation, effectively sacking the arts council chair, who is widely respected, admired and liked throughout the sector in Wales, is not the way to engage in partnership and collaborative working, which I thought and understood was meant to be the hallmark of this Government.

Indeed, the arts community has been alienated by this Minister, let there be no doubt of that. He is a serial offender, as he has been pretty offensive to the Welsh Language Board. He only has the sports council to go and then he has the set. I believe that no-one would deny that expanding access to the arts is of central importance. I know that Geraint Talfan Davies thinks that it is. However, the reason given is not borne out by the facts, which is the problem that I have with the Minister. On the access agenda, if you look at the figures, which have been quoted accurately, the gaps between those accessing the arts from the lower income groups and from the higher income groups has been narrowing significantly. That is why I cannot accept the reason given as being the true reason.

Jeff Cuthbert: I agree with you about expanding access, but can you justify how expanding access is currently being addressed when, since 2003, the grant in aid awarded by the Arts Council of Wales for

gynigir yn sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws sector y celfyddydau yng Nghymru. Yn bwysicaf oll, bydd symudiad tuag at sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru yn cael ei chyfran deg o gyfle celfyddydol.

Nick Bourne: Pan agorodd y Gweinidog y ddadl hon, yr oeddwn yn cytuno ag ef pan ddywedodd fod a wnelo hyn â phroses. Mae'n wir bod a wnelo â phroses. Aeth y Gweinidog ymlaen wedyn i awgrymu nad oedd hynny'n bwysig. Nid oes a wnelo'r gwelliant â buddsoddi yn y celfyddydau: mae a wnelo â'r dirmyg a ddangoswyd tuag at gymuned y celfyddydau yng Nghymru yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, ac i mi mae hynny'n syfrdanol. Yr wyf yn digwydd meddwl bod hynny'n bwysig iawn. Mae'n fater hanfodol—nid yw torri'r egwyddor hyd braich, achosi perygl gwleidyddoli, diswyddo cadeirydd cyngor y celfyddydau i bob diben y mae llawer o bobl yn ei barchu, ei edmygu a'i hoffi drwy'r sector cyfan yng Nghymru, yn ffordd o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu. Ac yr oeddwn yn credu ac yn deall bod hynny i fod yn nodweddiadol o'r Llywodraeth hon.

Yn wir, mae'r Gweinidog hwn wedi tramgwyddo cymuned y celfyddydau, mae hynny'n sicr. Mae wedi pechu droeon, oherwydd mae wedi bod yn ddigon sarhaus wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Dim ond y cyngor chwaraeon sydd ganddo i'w ddigio, ac wedyn bydd wedi tramgwyddo pawb. Credaf na fyddai neb yn gwadu ei bod yn hollbwysig ehangu mynediad i'r celfyddydau. Gwn fod Geraint Talfan Davies o'r farn honno. Fodd bynnag, ni chaiff y rheswm a roddir ei gyfiawnhau gan y ffeithiau, sef y broblem sydd gennyf gyda'r Gweinidog. O ran yr agenda mynediad, os edrychwch ar y ffigurau, sydd wedi'u dyfynnu'n gywir, mae'r bylchau rhwng y rheini sy'n manteisio ar y celfyddydau o'r grwpiau incwm is ac o'r grwpiau incwm uwch wedi bod yn lleihau'n sylweddol. Dyna pam na allaf dderbyn mai'r rheswm a roddir yw'r rheswm gwirioneddol.

Jeff Cuthbert: Cytunaf â chi ar ehangu mynediad, ond a allwch gyfiawnhau sut y delir â hynny ar hyn o bryd o gofio, er 2003, bod y cymorth grant a roddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i Dor-faen, Casnewydd,

Torfaen, Newport, Blaenau Gwent, Caerphilly and Merthyr Tydfil, which represents about a third of the population of Wales, is 1.4 per cent of the moneys awarded. Where is expanding access currently?

Nick Bourne: I have just indicated to you, and you have not countered it, that access to the arts from those socio-economic groups lower in the scale has increased more, in proportion, than from other groups. That is to be welcomed. I did not hear the Minister say that or congratulate the arts council on that. I think that there is a great danger in these six organisations being directly funded by the Minister—I am concerned that the six organisations will be in a privileged position now in terms of their direct access to the Minister. It so happens that those are not my words, but those of the only Labour Member who is not here at the moment, Leighton Andrews. He had the courage to express that view, and I am sure that he stands by those words and that he has no agenda. I am sure that that is just the belief of someone who is not in the opposition parties. Let there be no doubt that this is not just the view of opposition parties, but the view of others, and of arts organisations throughout Wales. Therefore, there are serious issues here. There are issues of process that have to be properly addressed. The Minister has lost the confidence of the arts community in Wales. That is the truth of it, and that is the important issue. It is not about investment; it is about moving the arts forward. We were doing that with Geraint Talfan Davies, and powerfully. Whatever the political complexion of a Government, I would much rather trust the arm's-length principle than any Minister—this is not directed at Alun Pugh, but any Minister. I think that it is wrong that the arts should be guided by a Minister; they should be guided at arm's length by an effective arts council, which is what we had in Wales until recently.

Lynne Neagle: I represent a constituency that received somewhere under £200,000 in

Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful, sy'n gyfystyr â thraean poblogaeth Cymru, yn 1.4 y cant o gyfanswm yr arian a roddir. Sut y caiff mynediad ei ehangu ar hyn o bryd?

Nick Bourne: Yr wyf newydd ddweud wrthyach, ac nid ydych wedi gwrthwynebu hynny, fod mynediad i'r celfyddydau gan y grwpiau economaidd gymdeithasol hynny sy'n is ar y raddfa wedi cynyddu mwy, o ran cyfran, na chan grwpiau eraill. Dylid croesawu hynny. Ni chlywais y Gweinidog yn dweud hynny nac yn llongyfarch cyngor y celfyddydau am hynny. Credaf fod perygl mawr os caiff y chwe sefydliad hyn eu hariannu'n uniongyrchol gan y Gweinidog—yr wyf yn pryderu y bydd y chwe sefydliad bellach mewn sefyllfa freintiedig o ran gallu mynd yn uniongyrchol at y Gweinidog. Fel y mae'n digwydd, nid fy ngeiriau i yw'r rheini, ond geiriau'r unig Aelod Llafur nad yw yma ar hyn o bryd, sef Leighton Andrews. Yr oedd yn ddigon ddewr i leisio'r farn honno, ac yr wyf yn siŵr ei fod yn glynu wrth y geiriau hynny ac nad oes ganddo unrhyw agenda. Yr wyf yn siŵr mai dim ond barn rhywun nad yw'n aelod o'r gwrthbleidiau yw hynny. Yn sicr, nid barn y gwrthbleidiau'n unig yw hyn, ond barn pobl eraill, a barn sefydliadau'r celfyddydau ledled Cymru. Felly, mae materion difrifol i'w hystyried yma. Mae yma faterion proses y mae'n rhaid ymdrin â hwy'n briodol. Nid oes gan gymuned y celfyddydau yng Nghymru hyder yn y Gweinidog mwyach. Dyna'r gwirionedd, a dyna'r mater pwysig. Nid oes a wnelo hyn â buddsoddi; mae a wnelo â datblygu'r celfyddydau. Yr oeddem yn gwneud hynny gyda Geraint Talfan Davies, ac yn rymus. Beth bynnag yw tueddfryd gwleidyddol Llywodraeth, byddai'n well gennyf ymddiried yn yr egwyddor hyd braich nag mewn unrhyw Weinidog—nid yw hyn wedi'i anelu at Alun Pugh, ond at unrhyw Weinidog. Credaf ei bod yn anghywir i'r celfyddydau gael eu harwain gan Weinidog; dyllent gael eu harwain o hyd braich gan gyngor celfyddydau effeithiol, sef yr hyn a oedd gennym yng Nghymru tan yn ddiweddar.

Lynne Neagle: Yr wyf yn cynrychioli etholaeth a gafodd ychydig yn llai na

arts council grants between 2003 and 2005. That, incredibly, is a better record than that of some other Valleys constituencies, but it is a drop in the ocean when we consider the £50 million dispensed in that time. Our cultural output in Wales is both spectacular and diverse—

Eleanor Burnham: Will you take an intervention?

Lynne Neagle: No, I only have three minutes, Eleanor, and you would not take mine.

The Presiding Officer: Order. It is courteous to allow a Member who is speaking to speak for approximately 30 seconds before requesting an intervention.

Lynne Neagle: Great things are happening, from the superb £5 ticket offer at the Wales Millennium Centre to the fantastic workshops on offer in my own constituency at Llantarnam Grange Arts Centre, and the ‘jazz in the park’ event in Pontypool. We all recognise the value of the arts in Wales, not least the Assembly Government, which has delivered record investment in the sector in recent years. Most people would recognise that there is nothing more vital to the development of a vibrant cultural environment than creating a sense of ownership among all the people of Wales, regardless of where they live and how much they earn.

The opposition is today calling for more consultation on the Assembly Government proposals; proposals that will increase access to the arts in our most disadvantaged communities. I have to tell the opposition that one very important consultation on this issue has taken place, and that was the 2003 Assembly election. In that election, Labour stood on a platform of creating a socially just Wales, where access to any aspect of public life would not be denied on the basis of class or geography. That is what these proposals will tackle. No-one inside or outside the arts council can argue that there is not a problem with access to the arts in Wales. That

£200,000 o grantiau cyngor y celfyddydau rhwng 2003 a 2005. Mae'n anghredadwy, ond mae hynny'n fwy nag a gafodd rhai etholaethau eraill yn y Cymoedd, ond dim ond swm bach iawn ydyw o ystyried y £50 miliwn a roddwyd ar y pryd. Mae'r hyn a gynhyrchwn yn ddiwylliannol yng Nghymru yn aruthrol ac yn amrywiol—

Eleanor Burnham: A dderbyniwch ymyriad?

Lynne Neagle: Na wna, dim ond tair munud sydd gennyf, Eleanor, ac nid oeddech yn fodlon derbyn fy ymyriad i.

Y Llywydd: Trefn. Mae'n gwrtais caniatáu i Aelod sy'n siarad wneud hynny am ryw 30 eiliad cyn gofyn am gael ymyrryd.

Lynne Neagle: Mae pethau gwych yn digwydd, o'r tocynnau £5 arbennig yng Nghanolfan Mileniwm Cymru i'r gweithdai ardderchog a gynigir yn fy etholaeth yng Nghanolfan Celfyddydau Llantarnam Grange, a'r digwyddiad ‘jazz yn y parc’ ym Mhont-y-pŵl. Mae pob un ohonom yn cydnabod gwerth y celfyddydau yng Nghymru, ac yn arbennig Llywodraeth y Cynulliad, sydd wedi buddsoddi'r swm mwyaf erioed yn y sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cydnabod nad oes dim yn fwy allweddol wrth ddatblygu amgylchedd diwylliannol bywiog na chreu ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith pawb yng Nghymru, waeth ble y maent yn byw na faint y maent yn ei ennill.

Mae'r gwrthbleidiau'n galw heddiw am ragor o ymgynghori ar gynigion Llywodraeth y Cynulliad; cynigion a fydd yn gwella mynediad i'r celfyddydau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rhaid imi ddweud wrth y gwrthbleidiau bod un ymgynghoriad pwysig iawn ar y mater hwn wedi'i gynnal eisoes, sef etholiad y Cynulliad yn 2003. Yn yr etholiad hwnnw, polisi Llafur oedd creu Cymru a oedd yn deg yn gymdeithasol, lle na fyddai mynediad i unrhyw agwedd ar fywyd cyhoeddus yn cael ei wrthod ar sail dosbarth na daearyddiaeth. Bydd y cynigion hyn yn mynd i'r afael â hynny. Ni all neb y tu mewn na'r tu allan i'r celfyddydau ddadlau nad oes

problem requires a radical solution. There is no witch hunt. It is not about the personalities; this is a structural debate. As an Assembly we have the chance to fund directly arts strategies that will tackle long-term inequalities in Wales. As with the axing of other quangos, it will make for a more transparent, more streamlined and more accountable way of working.

5.10 p.m.

On the subject of quangos, we should remind the leader of the opposition that in 2004 he said in this Chamber that he hoped that:

‘by the end of 2008 or 2010 there will not be a single quango left in Wales.’

Where is his backbone now? We all know that the Tories will overtake the nationalists in 2007. Is the current leader of the opposition already deferring to the next?

The Welsh public deserves more from the opposition than a defeat of the Government for the sake of it. The last time that happened was on the budget and, ironically, the coalition for vested interests on the other side of the Chamber opted for a cut in the culture budget. That is the cold truth behind their warm words on the arts in Wales.

Their smokescreen regarding the arm’s-length principle—and they have been shamefully alarmist in this—simply hides their intention to maintain a status quo that primarily favours their own constituencies, or else to bloody the Government’s nose for the sake of it.

There is an explicit guarantee from the Assembly Government that artistic freedom will not be compromised. Mike German’s assertion that the Minister will be picking the Wales Millennium Centre’s play-list is just alarmist nonsense. The Welsh National Opera has expressed no concern with regard to this question, and the opposition must cease this scaremongering.

problem o ran mynediad i’r celfyddydau yng Nghymru. Mae angen ateb radical i’r broblem honno. Nid helpa gwrrachod sydd yma. Nid oes a wnelo â’r personoliaethau; mae hon yn ddadl strwythurol. Fel Cynulliad, mae cyfle gennym i ariannu’n uniongyrchol strategaethau celfyddydol a fydd yn mynd i’r afael ag anghydraddoldebau hirdymor yng Nghymru. Fel gyda diddymu cwangos eraill, bydd yn creu ffordd o weithio sy’n fwy tryloyw, yn symlach ac yn fwy atebol.

Ar fater cwangos, dylem atgoffa arweinydd yr wrthblaid iddo ddweud yn y Siambr hon yn 2004 ei fod yn gobeithio:

‘na fydd yr un cwango ar ôl yng Nghymru erbyn diwedd 2008 neu 2010.’

Ble y mae ei asgwrn cefn yn awr? Gwyddom i gyd y bydd y Torïaid yn fwy poblogaidd na’r cenedlaetholwyr yn 2007. A yw arweinydd presennol yr wrthblaid eisoes yn ildio i’r un nesaf?

Mae’r cyhoedd yng Nghymru yn haeddu mwy gan y gwrthbleidiau na threchu’r Llywodraeth er mwyn ei threchu. Y tro diwethaf i hynny ddigwydd oedd ar y gyllideb, a’r hyn sy’n eironig yw fod y glymblaid dros fuddiannau breintiedig ar ochr arall y Siambr wedim dewis lleihau’r gyllideb diwylliant. Dyna’r ffeithiau moel y tu ôl i’w geiriau cynnes am y celfyddydau yng Nghymru.

Mae eu llen fwg o ran yr egwyddor hyd braich—ac maent bob amser wedi ceisio codi bwganod yn hyn, sy’n warthus—yn celu eu bwriad i barhau’r sefyllfa sydd ohoni, sy’n cefnogi eu hetholaethau eu hunain yn bennaf, neu i roi trwyn gwaedlyd i’r Llywodraeth dim ond er mwyn gwneud hynny.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi sicrwydd pendant na chaiff rhyddid celfyddydol ei beryglu. Mae haerid Mike German y bydd y Gweinidog yn dewis rhaglen Canolfan Mileniwm Cymru yn nonsens er mwyn codi bwganod. Nid yw Opera Cenedlaethol Cymru wedi mynegi unrhyw bryder am y mater hwn, a rhaid i’r gwrthbleidiau roi’r gorau i godi bwganod.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): First, this matter is not about the access agenda. Access is clearly moving in the right direction.

Secondly, all the figures that I have heard this afternoon are all about grant in aid and do not consider lottery funding, which should be taken into account. It also does not take account of those who work in one area, or those who are based in one area and work in other areas. If that were the case, Valleys Dance, which is based in Rhondda Cynon Taf but works in Merthyr Tydfil—

Huw Lewis: Will you give way?

Michael German: I have 30 seconds to finish my sentence, then the Presiding Officer will let you in, Huw. [*Laughter.*]

The Presiding Officer: Order. It is not a matter of me letting anyone in; it is the Member who gives way. However, we have adopted a common courtesy here in three-minute speeches that we do not intervene until at least 30 seconds have passed in order to allow a Member to develop his or her argument.

Michael German: I am sure that the Member will have heard you, Presiding Officer.

The funding that we get for the arts does not always come from the base that you say. If you look at the figures for Merthyr Tydfil, they are far in excess of those that Huw Lewis has been trying to portray today.

Huw Lewis: You are talking errant nonsense. The grant in aid is the expression of the actual activity on the ground.

I take your point that some people are based in one place and work in another, but my community is not interested in missionary work. We want arts and cultural activity for our community, by our community and not to borrow it from someone else.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Yn gyntaf, nid oes a wnelo'r mater hwn â'r agenda mynediad. Mae'n amlwg bod mynediad yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Yn ail, mae a wnelo'r holl ffigurau yr wyf wedi'u clywed y prynhawn yma â chymorth grant ac nid ydynt yn ystyried arian loteri, a ddylai gael ei ystyried. Nid yw'n ystyried ychwaith y rheini sy'n gweithio mewn un ardal, neu'r rheini sydd â'u swyddfa mewn un ardal ac yn gweithio mewn ardaloedd eraill. Pe byddai hynny'n wir, byddai Dawns y Cymoedd, sydd â'i chanolfan yn Rhondda Cynon Taf, ond sy'n gweithio ym Merthyr Tudful—

Huw Lewis: A ildiwch?

Michael German: Mae gennyf 30 eiliad i orffen fy mrawddeg, yna bydd y Llywydd yn caniatáu ichi siarad, Huw. [*Chwerthin.*]

Y Llywydd: Trefn. Nid mater fy mod i'n caniatáu i rywun siarad yw hyn; yr Aelod sy'n ildio. Fodd bynnag, yr ydym wedi mabwysiadu'r arfer cwrtais yma, mewn areithiau tair munud, o beidio ag ymyrryd nes bydd o leiaf 30 munud wedi mynd heibio er mwyn caniatáu i Aelod ddatblygu ei ddatl ef neu ei dadl hi.

Michael German: Yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelod wedi eich clywed, Lywydd.

Nid yw'r arian a gawn ar gyfer y celfyddydau bob amser yn dod o'r sylfaen a ddywedwch. Os edrychwch ar y ffigurau ar gyfer Merthyr Tudful, maent lawer yn uwch na'r rheini yr oedd Huw Lewis yn ceisio'u cyfleu heddiw.

Huw Lewis: Yr ydych yn siarad nonsens llwyr. Mae'r cymorth grant yn arwydd o'r gweithgarwch gwirioneddol yn y maes.

Derbyniaf eich pwynt bod rhai pobl â'u swyddfa mewn un lle ond yn gweithio rywle arall, ond nid oes gan fy nghymuned i ddiddordeb mewn gwaith cenhadol. Yr ydym am gael gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol i'n cymuned, gan ein cymuned ac nid ar fenthyg gan rywun arall.

Michael German: I hope that you will take that to the Labour Party, which seeks to run Merthyr council and could not be bothered to pick up the £7 million that was on offer from this Assembly.

The Presiding Officer: Order. Why is the leader of the Welsh Liberal Democrats shouting?

Michael German: Quite clearly, it is because I was shouted at, Presiding Officer. Perhaps he cannot hear what I am saying and perhaps he thinks that I cannot hear. I will talk quietly. I point to Rhondda Cynon Taf Community Arts, Community Dance Wales, Voluntary Arts Wales, Community Music Wales, the Drama Association of Wales, Cardiff Arts Marketing and the Welsh National Opera, all of which perform in Merthyr Tydfil and have done so in the last year or so. Quite clearly, the figures that we have been given today are errant nonsense. The key issue is accountability.

The Minister has told us time and again that he will not intervene in artistic decisions, but the truth of the matter is that he who pays the piper calls the tune. By making himself the payer of the piper, sooner or later—it may be him or someone following—the question will arise and we will have created a situation where the piper is forced to call the tune. The problem that we have with this debate today, and the reason why this amendment has been proposed, is quite clear: it is because there has been no proper debate with the arts community on this matter. There has been no discussion on this matter. That is typical of the way in which this Labour Government has treated the reform of Assembly sponsored public bodies as a whole. It has caused frustration among the Assembly sponsored public bodies, and not only among these bodies that we are talking about today, but among those who work within them and within the arts community in Wales.

That is why this amendment, quite properly, calls for a public review, as was the case in

Michael German: Gobeithio y byddwch yn cyfleu hynny wrth y Blaid Lafur, sy'n ceisio rhedeg cyngor Merthyr ac na allai drafferthu i gasglu'r £7 miliwn a gynigid gan y Cynulliad hwn.

Y Llywydd: Trefn. Pam y mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn gweiddi?

Michael German: Y rheswm amlwg yw am i rywun weiddi arnaf fi, Lywydd. Efallai na all glywed yr hyn a ddywedaf ac efallai ei fod yn credu na allaf ei glywed ef. Siaradaf yn dawel. Tynnaf sylw at Gelfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf, Dawns Gymuned Cymru, Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Cerdd Gymunedol Cymru, Cymdeithas Drama Cymru, Marchnata Celfyddydau Caerdydd ac Opera Cenedlaethol Cymru, sydd i gyd yn perfformio ym Merthyr Tudful ac sydd wedi gwneud hynny yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Mae'n amlwg fod y ffigurau a roddwyd inni heddiw yn nonsens llwyr. Atebolwydd yw'r mater allweddol.

Mae'r Gweinidog wedi dweud wrthym droeon na fydd yn ymyrryd mewn penderfyniadau celfyddydol, ond y gwir amdani yw mai a dalo i'r pibydd a ddewis y dôn. Drwy sicrhau mai ef sy'n talu'r pibydd, yn hwyr neu'n hwyrach—efallai mai ef fydd neu ei olynnydd—bydd y cwestiwn yn codi a byddwn wedi creu sefyllfa lle y mae'n rhaid i'r pibydd ddewis y dôn. Mae'r broblem sydd gennym o ran y ddadl hon heddiw, a'r rheswm pam y cynigiwyd y gwelliant hwn, yn amlwg: y rheswm yw na thrafodwyd y mater hwn yn briodol gyda chymuned y celfyddydau. Ni fu unrhyw drafodaeth ar y mater hwn. Mae hynny'n nodweddiadol o'r ffordd y mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi trin y broses o ddiwygio pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae wedi peri rhwystredigaeth ymhlith cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ac nid yn unig ymhlith y cyrff hyn yr ydym yn cyfeirio atynt heddiw, ond ymhlith y rhai sy'n gweithio ynddynt ac o fewn cymuned y celfyddydau yng Nghymru.

Dyna pam mae'r gwelliant hwn yn galw, a hynny'n briodol, am adolygiad cyhoeddus,

Scotland, where this matter was reviewed and dealt with properly. We would not, therefore, have this caustic argument about access, which is today being used as an excuse for turning down what should have been done in the first place, which is to open up this matter for public debate.

Mark Isherwood *rose*—

Michael German: Do I have time to take an intervention?

The Presiding Officer: No, there is no time.

Rosemary Butler: I pay tribute to all the actors, dancers and performers across Wales who give so much joy to so many people across the country—they seem to be somewhat forgotten this afternoon.

Ever since becoming an Assembly Member, I have hoped for a day like today—a day when culture is a top story on the Welsh news bulletin, when there is extensive press coverage of the arts, a large attendance in the Chamber for an arts debate, attendance and contribution by the leaders of the opposition parties, and Members battling their way across the UK to ensure that they vote on an important arts issue. However, I think that everyone here knows, deep in their hearts, that this is not a true debate on the arts but an alliance of the opposition Members with an opportunity to vote the Government down.

Today's attendance is so different from the last three culture debates held in this Chamber. Then, only a smattering of opposition Members supported their hard-working members of the Culture, Welsh Language and Sport Committee. Those debates were on proposals for major arts initiatives and policy changes. The first was the promotion and funding of Welsh writing in English, and the creation of a library of Welsh classics. The second was a review of the effects of arts and sports on our more deprived communities—true access for all. The Culture, Welsh Language and Sport

fel y digwyddodd yn yr Alban, lle cafodd y mater hwn ei adolygu a lle'r aethpwyd i'r afael ag ef mewn modd priodol. Felly, ni fyddem yn cael y ddadl hallt hon am fynediad, sy'n cael ei defnyddio heddiw fel esgus dros wrthod rhywbeth a ddylai fod wedi digwydd yn y lle cyntaf, sef gwneud y mater hwn yn destun trafodaeth gyhoeddus.

Mark Isherwood *a gododd*—

Michael German: A oes gennyf amser i dderbyn ymyriad?

Y Llywydd: Nac oes, nid oes amser.

Rosemary Butler: Yr wyf am roi teyrnged i'r holl actorion, y dawnswyr a'r perfformwyr ledled Cymru sy'n rhoi cymaint o foddhad i gynifer o bobl ledled y wlad—mae'n ymddangos eu bod hwy wedi ei hanghofio y prynhawn yma.

Ers immi fod yn Aelod Cynulliad, yr wyf wedi bod yn gobeithio am ddiwrnod fel hwn—diwrnod pan fydd diwylliant yn un o'r prif benawdau ym mwletin newyddion Cymru, pan fydd y wasg yn rhoi sylw sylweddol i'r celfyddydau, nifer fawr yn bresennol yn y Siambr ar gyfer dadl ar y celfyddydau, presenoldeb a chyfraniad gan arweinwyr y gwrthbleidiau, ac Aelodau'n teithio ar draws y DU i sicrhau eu bod yn pleidleisio ar fater sy'n bwysig i'r celfyddydau. Fodd bynnag, credaf fod pawb yma'n gwybod yn y bôn nad dadl am y celfyddydau yw hon mewn gwirionedd, ond cynghrair rhwng Aelodau'r gwrthbleidiau sy'n manteisio ar gyfle i bleidleisio yn erbyn y Llywodraeth.

Mae'r nifer sy'n bresennol heddiw mor wahanol i'r hyn a welwyd yn y tair dadl ddiwethaf ar ddiwylliant a gynhaliwyd yn y Siambr hon. Bryd hynny, dim ond llond llaw o Aelodau'r gwrthbleidiau a gefnogodd eu haelodau diwyd o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Cynigion ar gyfer mentrau celfyddydol pwysig a newidiadau polisi oedd pwnc y dadleuon hynny. Yr oedd y ddadl gyntaf yn ymwneud â hyrwyddo ac ariannu awduron o Gymru sy'n ysgrifennu yn Saesneg, a chreu llyfrgell o glasuron o Gymru. Yr oedd yr ail ddadl yn ymwneud ag adolygiad o effeithiau'r celfyddydau a

Committee is pleased that the Minister has accepted all our recommendations, and I am delighted that he has already taken action on several of them. The most recent debate on culture was on committee's comprehensive review of dance in Wales.

Mark Isherwood *rose*—

Rosemary Butler: I am not taking interventions.

We look forward to an equally positive response from the Minister when he replies to that debate in a few weeks' time. Where was the opposition on those debates? Are we talking about the road to Damascus here?

The debate on the day-to-day delivery and management of the arts always has been, and always will be, controversial, heated and lengthy. If you asked every Member how they would deliver it, we would all come up with a different proposal. However, I very much welcome today's confirmation by the Minister of the arm's-length principle for the delivery of arts across Wales. However, if there is not sufficient budget provision, then this debate about how the arts are managed and delivered is just academic. Funding for the arts must be at the heart of Government, not an additional add-on. The £181 million investment in the arts, and the 56 per cent increase in the arts council grant in aid since 1999, demonstrates Labour's commitment to the arts.

Of course, this amount would have been larger if the Government's proposed budget for 2006-07 had been agreed by the Assembly. We all recall that the opposition voted down that proposed budget, and that the three distinguished opposition party leaders were charged with agreeing a budget with the First Minister. Their true commitment to the arts was made clear when the final budget produced not an increase for

chwaraeon ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig—mynediad gwirioneddol i bawb. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn falch fod y Gweinidog wedi derbyn ein holl argymhellion, ac mae'n dda gennyf sylwi ei fod wedi gweithredu ar nifer ohonynt eisoes. Pwnc y ddadl ddiweddaraf ar ddiwylliant oedd adolygiad cynhwysfawr y pwyllgor o ddawns yng Nghymru.

Mark Isherwood *a gododd*—

Rosemary Butler: Nid wyf yn derbyn ymyriadau.

Edrychwn ymlaen at ymateb yr un mor gadarnhaol gan y Gweinidog pan fydd yn ymateb i'r ddadl honno ymhen ychydig wythnosau. Ble oedd y gwrthbleidiau yn ystod y dadleuon hyn? Ai sôn am y ffordd i Ddamascus yr ydym yma?

Mae'r ddadl am y broses o gyflwyno a rheoli'r celfyddydau o ddydd i ddydd bob amser wedi bod yn ddadleuol, yn hallt ac yn hir, ac ni fydd hynny'n newid. Pe gofynnech i bob Aelod pa fath o ddarpariaeth y byddai am ei gweld, byddai pob un yn cyflwyno cynnig gwahanol. Fodd bynnag, croesawaf gadarnhad y Gweinidog heddiw o'r egwyddor hyd braich ar gyfer cyflwyno'r celfyddydau ledled Cymru. Fodd bynnag, os na sicheir digon o arian yn y gyllideb, yna dadl academiaidd yn unig fydd y ddadl hon am y ffordd y caiff y celfyddydau eu rheoli a'u cyflwyno. Rhaid i'r arian ar gyfer y celfyddydau fod wrth wraidd y Llywodraeth, nid yn ystyriaeth ychwanegol. Mae'r buddsoddiad o £181 miliwn yn y celfyddydau, a'r cynnydd o 56 y cant yng nghymorth grant cyngor y celfyddydau er 1999, yn dangos ymrwymiad Llafur i'r celfyddydau.

Wrth gwrs, byddai'r swm hwn wedi bod yn fwy pe byddai'r Cynulliad wedi cytuno ar y gyllideb a gynigiwyd gan y Llywodraeth ar gyfer 2006-07. Yr ydym i gyd yn cofio bod y gwrthbleidiau wedi gwrthod y gyllideb honno, a bod tri arweinydd nodedig y gwrthbleidiau wedi bod yn gyfrifol am gytuno ar gyllideb gyda'r Prif Weinidog. Dangoswyd eu gwir ymrwymiad i'r celfyddydau pan gyflwynodd y gyllideb

the arts, but a reduction of £180,000.

Two phrases come to mind this afternoon. One is about crocodile tears, and the other, which has already been mentioned by Denise Idris Jones, is a rather crude phrase, but appropriate for this afternoon. I say to the opposition that, in future, you must put your money where your mouth is.

Jenny Randerson: It is disingenuous for the Minister to start talking about arts spending and the Labour Party's commitment to the arts. I remind the Labour Party that we only have a Minister for Culture, Welsh Language and Sport, and a Culture, Welsh Language and Sport Committee, because the Liberal Democrats forced it through at the time of the partnership Government. I also remind Labour that the massive increase in spending on culture took place under that partnership Government, not under this one. So much for Labour's commitment to the arts. The big spending projects might have come to fruition now, but they were started under the previous administration.

5.20 p.m.

We all remember that, in the first year or so of the Assembly, the arts council was in meltdown. It was shambolic, it lacked direction and cohesion. Under Geraint Talfan Davies and Peter Tyndall, it has put its house in order, it has spoken with a unified voice, it has given direction to the arts and it has worked much more closely with the Welsh Assembly Government. That is done through ministerial remit letters. Minister, you have the ability to give precise guidance to the arts council, but you are giving up that opportunity and snatching defeat from the jaws of victory and chaos from the arms of order on the arts council.

Why can Labour Ministers not work with ASPBs and make the remit letters effective? Other Ministers could do it in the past and I do not know why they cannot do so now. I do not expect you, Minister, to believe me. I can

derfynol ostyngiad o £180,000 i'r celfyddydau, yn hytrach na chynnydd.

Daw dau beth i'm meddwl y prynhawn yma. Y cyntaf yw mai dagrau ffug sydd yma, ac mae'r llall, a grybwyllwyd eisoes gan Denise Idris Jones, yn briodol iawn y prynhawn yma. Dywedaf wrth y gwrthbleidiau ei bod yn rhaid iddynt roi eu harian ar eu gair yn y dyfodol.

Jenny Randerson: Mae'n annidwyll i'r Gweinidog ddechrau siarad am wario ar y celfyddydau ac ymrwymiad y Blaid Lafur i'r celfyddydau. Hoffwn atgoffa'r Blaid Lafur mai'r unig reswm pam mae gennym Weinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon a Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yw bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi mynnu hynny pan oedd gennym Lywodraeth bartneriaeth. Hoffwn atgoffa Llafur hefyd mai o dan y Lywodraeth bartneriaeth honno y cafwyd y cynnydd anferth mewn gwariant ar ddiwylliant, nid o dan y Lywodraeth hon. Nid yw hynny'n dweud llawer am ymrwymiad Llafur i'r celfyddydau. Efallai mai yn awr y mae'r prosiectau gwariant mawr wedi dwyn ffrwyth, ond o dan y weinyddiaeth flaenorol y rhoddwyd cychwyn arnynt.

Gallwn i gyd gofio bod cyngor y celfyddydau mewn trafferthion yn ystod blwyddyn neu ddwy gyntaf y Cynulliad. Yr oedd yn llastr llwyr, heb gyfeiriad na chydlyniant. O dan arweiniad Geraint Talfan Davies a Peter Tyndall, mae wedi llwyddo i roi trefn ar bethau, cyflwyno barn unfryd, rhoi cyfeiriad i'r celfyddydau a gweithio lawer yn agosach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwneir hyn drwy lythyrau cylch gwaith y Gweinidog. Weinidog, mae gennych y gallu i roi arweiniad pendant i gyngor y celfyddydau, ond yr ydych yn rhoi'r gorau i'r cyfle hwnnw ac yn troi buddugoliaeth yn fethiant mewn perthynas â chyngor y celfyddydau.

Pam na all Gweinidogion Llafur weithio gyda CCNCau a sicrhau bod y llythyrau cylch gwaith yn effeithiol? Llwyddodd Gweinidogion eraill i wneud hyn yn y gorffennol ac ni wn pam na allant lwyddo yn

almost hear the Minister thinking, 'She would say that, would she not?'. Therefore, I will refer to two letters from constituents on this subject. One refers to the problem of self censorship, the idea that Clwyd Theatr Cymru or the Theatr Genedlaethol might, for instance, be prepared to put on a play that was critical of the Labour administration; you would not write a play like that and present it when the Minister is directly responsible for funding. Another point is that the Academi letter was not made public because it was afraid of upsetting the Minister. More worryingly, a comment was made to my constituent by a BBC journalist that they were worried about covering this issue because the BBC National Orchestra of Wales would be funded by the Government. Self censorship is a worry.

Carl mentioned the excellent Night Out programme, which was run very successfully for many years by John Prior, who has recently retired—Rosemary has motioned that he is sitting in the public gallery. John Prior points out in his letter, which he put forward with Geraint Talfan Davies's encouragement and backing, that further money to extend the Night Out scheme was refused by the Minister—so much for the Minister's commitment to that scheme. I will allow John Prior to have the final words. He says that the arm's-length principle allows for political influence at one remove, but protects culture from direct political control. Whether it is wise or not to do what is proposed is a different question altogether, bearing in mind that the power that one party takes today can be used to a different end by its political opponents in the twinkling of an election.

David Melding: The arm's-length principle has served us well, broadly, for 60 years. We need a lot of convincing to move away from that principle and we need to be assured about, and have confidence in, the alternative structure that is being proposed. I do not think that the case for that has yet been proven. It has clearly not been accepted unanimously, or even by a substantial

awr. Nid wyf yn disgwyl ichi fy nghredu, Weinidog. Gallaf glywed y Gweinidog yn meddwl bron, 'Fe fyddai hi'n dweud hynny, wrth gwrs!'. Felly, cyfeiriaf at ddau lythyr gan etholwyr ar y pwnc hwn. Cyfeiria'r naill at broblem hunan-sensoriaeth, sef y syniad y gallai Clwyd Theatr Cymru neu'r Theatr Genedlaethol, er enghraifft, fod yn barod i lwyfannu drama a oedd yn beirniadu'r weinyddiaeth Lafur; ni fyddech yn ysgrifennu drama o'r fath ac yn ei llwyfannu pan fyddai'r Gweinidog yn gyfrifol yn uniongyrchol am ei hariannu. Pwynt arall yw na chyhoeddwyd llythyr yr Academi rhag i hynny beri gofid i'r Gweinidog. Ond yn fwy difrifol na hynny, gwnaed sylw i'm hetholwr gan un o newyddiadurwyr y BBC ei fod yn pryderu ynghylch rhoi sylw i'r mater hwn oherwydd y byddai Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn cael ei hariannu gan y Llywodraeth. Mae hunan-sensoriaeth yn peri pryder.

Soniodd Carl am y rhaglen ardderchog, sef Noson Allan, y bu John Prior, sydd wedi ymddeol yn ddiweddar, yn ei rhedeg yn llwyddiannus am lawer blwyddyn—mae Rosemary wedi gwneud arwydd ei fod yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus. Dywed John Prior yn ei lythyr, a gyflwynodd gydag anogaeth a chefnogaeth Geraint Talfan Davies, fod y Gweinidog wedi gwrthod rhoi arian ychwanegol i ymestyn y cynllun Noson Allan—nid yw hynny'n dweud llawer am ymrwymiad y Gweinidog i'r cynllun hwnnw. Hoffwn gloi gan gyfeirio at eiriau John Prior. Dywedodd fod yr egwyddor hyd braich yn caniatáu dylanwad gwleidyddol gam i ffwrdd, ond hefyd yn amddiffyn diwylliant rhag rheolaeth wleidyddol uniongyrchol. Cwestiwn holol wahanol yw a yw'n ddoeth gwneud yr hyn a gynigir, o ystyried y gall y pŵer sydd gan un blaid heddiw gael ei ddefnyddio at ddiben gwahanol gan ei gwrthwynebwyr gwleidyddol ar ôl etholiad.

David Melding: Mae'r egwyddor hyd braich wedi ein gwasanaethu'n dda, yn gyffredinol, am 60 mlynedd. Mae angen gwneud llawer i'n darbwyllo i symud oddi wrth yr egwyddor honno, ac mae angen inni fod yn sicr ynghylch y strwythur wahanol a gynigir, a chael hyder ynddo. Ni chredaf fod y ddadl dros hynny wedi'i phrofi eto. Mae'n amlwg nad yw wedi'i derbyn yn unfrydol, na chan

majority, within the arts community. I think that we have to consult more widely with that community before we can expect to gain its confidence and achieve progress.

This debate has been quite aggressive and caustic and, in observing it, I think that what has gone wrong is that the Government's policy was essentially a muddle. It wanted to abolish the arts council. That may well be the right thing to do—it is what they wanted to do in Scotland and they had the statutory powers to do it. Of course, that would have required primary legislation, which, presumably, the Government here could not get its colleagues in London to commit to. Therefore, we have this mishmash, a system where the strategic direction of six major organisations is retained by the Minister and, yet, a potentially enfeebled arts council is maintained to deliver the rest of arts funding and policy. That is what I think is really damaging.

Huw Lewis: What you have said, you have said eloquently, but it is all about systems. Do you, David, or the Conservative Party, have anything to say to my constituents who, over many years, have seen the arts council as pretty much an irrelevance in their locality?

David Melding: The problem that I have—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I will not allow a mini debate to take place in the Chamber, even between Members who represent Merthyr and Gwynedd.

David Melding: The problem that I have with Huw Lewis's contribution is that it was as if the arts council was being abolished, but it is not. It will still be there, and will still be responsible for the funding streams that he referred to. It was an arrant contradiction, to use one of his phrases, and it demonstrates the confusion as to what the Labour Party is trying to do. Leaving an enfeebled arts council in place, almost on sufferance, is damaging for the arts community. This was shown by the Minister's trying to pretend that

fwyafrif sylweddol hyd yn oed, yng nghymuned y celfyddydau. Credaf ei bod yn rhaid inni ymgynghori'n ehangach â'r gymuned honno cyn y gallwn ddisgwyl iddi gael hyder ynom a disgwyl gweld cynnydd.

Mae'r ddadl hon wedi bod yn ddigon danllyd a hallt, ac o wrando arni credaf mai'r broblem oedd bod polisi'r Llywodraeth yn ddryslyd. Yr oedd am ddiddymu cyngor y celfyddydau. Efallai'n wir mai dyna fyddai'r peth iawn i'w wneud—dyna yr oeddent am ei wneud yn yr Alban ac yr oedd ganddynt hwy y pwerau statudol i wneud hynny. Wrth gwrs, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer hynny, a thybiaf na allai'r Llywodraeth yma sicrhau bod ei chyd-aelodau yn Llundain yn ymrwymo iddi. Felly, yr hyn sydd gennym yw system ddryslyd lle mae'r Gweinidog yn gyfrifol am gyfeiriad strategol chwe phrif sefydliad, ond eto, caiff cyngor celfyddydau gwan o bosibl ei gadw er mwyn darparu gweddill yr arian a'r polisiau ar gyfer y celfyddydau. Dyna sy'n wirioneddol niweidiol, yn fy mam i.

Huw Lewis: Yr ydych wedi cyflwyno'r hyn a oedd gennych i'w ddweud yn huawdl iawn, ond mae a wnelo â systemau i gyd. A oes gennych chi, David, neu'r Blaid Geidwadol, unrhyw beth i'w ddweud wrth fy etholwyr nad ydynt, dros y blynyddoedd, wedi ystyried bod cyngor y celfyddydau yn berthnasol iawn iddynt yn lleol?

David Melding: Y broblem sydd gennyf—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Ni chaniatâf ddadl fach yn y Siambr, hyd yn oed rhwng Aelodau sy'n cynrychioli Merthyr a Gwynedd.

David Melding: Y broblem sydd gennyf o ran cyfraniad Huw Lewis yw ei fod yn siarad fel pe byddai cyngor y celfyddydau'n cael ei ddiddymu, ond nid yw hynny'n wir. Bydd yn dal i fodoli, a bydd yn dal yn gyfrifol am y ffrydiau ariannu y cyfeiriodd atynt. Yr oedd hynny'n groesddywediad llwyr, i ddefnyddio un o'i ddywediadau, ac mae'n dangos y dryswch ynghylch yr hyn y mae'r Blaid Lafur yn ceisio'i wneud. Mae gadael cyngor celfyddydau gwan ar waith, bron drwy oddefiad, yn niweidiol i gymuned y

he had not, functionally, sacked the chairman of the arts council. He has done that, and he should have the courage to say that that man no longer has his confidence. That was why he would not be reapplying in an open competition because, if he were to succeed, as chairman, he would be running the organisation without the Minister's confidence, and that would not have been tenable.

We need to revisit this matter and think about the overall way in which we deliver the arts. Should we follow the Scottish model, or should we really maintain the arm's-length principle? It is not good enough for the Minister to kneecap an organisation one week and then, in the next, say that it is capable of running the marathon.

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): I will deal with the allegations of totalitarianism first. We have not heard the word Stalinism this afternoon, but 'totalitarianism' was thrown in my face by the Plaid culture spokesman. That shows a remarkable lack of understanding of twentieth century European history, and it shows a remarkable lack of understanding of funding of international arts organisations. Jenny Randerson, you would not throw the word 'Stalinist' around if you had any knowledge of twentieth century Europe. That is offensive.

Jenny Randerson raised the matter of self censorship. Let us analyse it by taking the example of Clwyd Theatr Cymru, which is not a separate legal entity, but a department of Flintshire County Borough Council—a Labour-controlled county council. The artistic director is an employee of the council, as are the actors. At the height of the Iraq crisis, the company decided to stage *Oh! What a Lovely War*. That says a great deal about the robustness of our arts organisations, and it is absurd to believe that artists will engage in self censorship.

Mark Isherwood: I declare that my wife is on the board of Clwyd Theatr Cymru before I

celfyddydau. Dangoswyd hyn pan geisiodd y Gweinidog esgus nad oedd, i bob pwrpas, wedi diswyddo cadeirydd cyngor y celfyddydau. Dyna a wnaeth, a dylai fod yn ddigon dewr i ddweud nad oes ganddo hyder yn y dyn hwnnw mwyach. Dyna pam na fyddai'n ymgynnig eto mewn cystadleuaeth agored oherwydd, pe byddai'n llwyddo, fel cadeirydd, byddai'n rhedeg y sefydliad heb hyder y Gweinidog, a byddai hynny wedi bod yn sefyllfa amhosibl.

Mae angen ailedrych ar y mater hwn ac ystyried y ffordd gyffredinol yr ydym yn darparu'r celfyddydau. A ddylem ddilyn esiampl yr Alban, neu a ddylem yn wir gadw'r egwyddor hyd braich? Nid yw'n ddigon da i'r Gweinidog feirniadu sefydliad yn llym un wythnos ac yna yr wythnos ganlynol ddweud fod ganddo'r gallu i lwyddo.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Ymdriniaf â'r honiadau o dotalitariaeth i ddechrau. Nid ydym wedi clywed y gair Staliniaeth y prynhawn yma, ond fe'm cyhuddwyd o 'dotalitariaeth' gan lefarydd diwylliant Plaid Cymru. Mae hynny'n dangos diffyg dealltwriaeth ddychrynlyd o hanes Ewrop yn yr ugeinfed ganrif, ac mae'n dangos diffyg dealltwriaeth ddychrynlyd o'r modd yr ariennir sefydliadau celfyddydol rhyngwladol. Jenny Randerson, ni fydech yn defnyddio'r gair 'Stalinydd' pe byddai gennych unrhyw ddealltwriaeth o Ewrop yn yr ugeinfed ganrif. Mae hynny'n sarhaus.

Cododd Jenny Randerson fater hunan-sensoriaeth. Gadewch inni ddadansoddi hynny drwy ddefnyddio esiampl Clwyd Theatr Cymru, nad yw'n endid cyfreithiol ar wahân, ond yn hytrach yn adran o Gyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint—cyngor sir a reolir gan y Blaid Lafur. Cyflogir y cyfarwyddwr artistig a'r actorion gan y cyngor. Yng nghanol argyfwng Irac, penderfynodd y cwmni lwyfannu *Oh! What a Lovely War*. Dywed hynny lawer am gadernid ein sefydliadau celfyddydol, ac mae'n hurt credu y bydd artistiaid yn ymgymryd â hunan-sensoriaeth.

Mark Isherwood: Yr wyf am ddatgan bod fy ngwraig yn aelod o Clwyd Theatr Cymru cyn

say any more. However, my understanding is that Flintshire county council owns the bricks and mortar and infrastructure, but that the artistic direction is actually accountable to the arts council, and not to Flintshire county council, despite its best efforts to control it politically in the past.

Alun Pugh: I think that you will find that they are actually employees of the council, if you check.

Nick, you talked about process, and of course that is important. It is not all important. It is not as important, for example, as budget, and Rosemary Butler, in her excellent contribution, talked about the impact of opposition policies on culture spending as a result of our budget process. The blunt reality is that the budget for the arts and culture is below the Assembly Government's original budget proposals. When we discussed our collective budget for public spending in Wales, not one opposition party identified culture, sport or the Welsh language, as a spending priority.

Nick Bourne: Just to refresh your memory, Minister, when that final budget was presented, you presented it as the real Labour budget. It was actually voted through by Labour votes, with opposition parties abstaining. There were cuts to many budgets to finance some important changes—which included portfolio responsibilities of the Minister who is sitting there laughing: I am surprised by that—which you were trying to sell as real Labour policies at the time the final budget was passed.

Alun Pugh: Indeed, there were some real Labour policies in the amended budget, but the whole point of our putting a first budget to the Assembly, had it been accepted, was that we would have been entirely happy with that process. Culture spending would have been nearly £200,000 higher under our original proposals. Process is important, but it is not as important as budget. Frankly, Nick, it is not as important as social justice.

dweud unrhyw beth arall. Fodd bynnag, deallaf mai cyngor sir y Fflint sy'n berchen ar y brics a'r mortar a'r isadeiledd, ond mai cyngor y celfyddydau sy'n gyfrifol am y cyfeiriad artistig, nid cyngor Sir y Fflint, er gwaethaf holl ymdrechion y cyngor i'w reoli'n wleidyddol yn y gorffennol.

Alun Pugh: Credaf y gwelwch mai'r cyngor sy'n eu cyflogi mewn gwirionedd, os cadarnhewch hynny.

Nick, yr oeddech yn sôn am broses, ac mae hynny'n bwysig wrth gwrs ond nid yw'n hollbwysig. Er enghraifft, nid yw mor bwysig â chyllideb, a soniodd Rosemary Butler yn ei chyfraniad ardderchog am effaith polisiau'r gwrthbleidiau ar wariant ar ddiwylliant o ganlyniad i'n proses gyllido. Y gwir amdani yw bod y gyllideb ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yn llai na chynigion cyllideb gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad. Pan fuom yn trafod ein cyllideb gyfunol ar gyfer gwariant cyhoeddus yng Nghymru, ni wnaeth soniodd yr un o'r gwrthbleidiau am ddiwylliant, chwaraeon na'r Gymraeg fel blaenoriaeth ar gyfer gwariant.

Nick Bourne: Hoffwn eich atgoffa, Weinidog, pan gyflwynwyd y gyllideb derfynol honno, ichi ei chyflwyno fel cyllideb wirioneddol Llafur. Fe'i derbyniwyd drwy bleidleisiau Llafur, a'r gwrthbleidiau'n ymatal. Cwtogwyd llawer cyllideb er mwyn ariannu rhai newidiadau pwysig—a oedd yn cynnwys cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog sy'n eistedd yno yn chwerthin: mae hynny'n fy synnu—yr oeddech yn ceisio'u cyflwyno fel polisiau gwirioneddol Llafur pan basiwyd y gyllideb derfynol.

Alun Pugh: Yn wir, yr oedd rhai polisiau gwirioneddol Llafur yn y gyllideb ddiwygiedig, ond holl ddiben cyflwyno ein cyllideb gyntaf i'r Cynulliad, pe byddai wedi ei derbyn, oedd y byddem wedi bod yn hollol fodlon â'r broses honno. Byddai'r gwariant ar ddiwylliant wedi bod bron £200,000 yn fwy o dan ein cynigion gwreiddiol. Mae proses yn bwysig, ond nid yw mor bwysig â chyllideb. Mewn gwirionedd, Nick, nid yw mor bwysig â chyfiawnder cymdeithasol.

5.30 p.m.

People in Wales who want access to the arts have waited far too long to get their rightful inheritance.

Huw Lewis: You have hit the nail on the head. Do you agree that the opposition parties have forgotten the fact that you are not Minister for the arts establishment, but a Minister who represents the people of Wales? That is why the opposition parties talk about process, while we talk about social justice.

Alun Pugh: That is entirely fair. The opposition elements have forgotten about a number of things. For example, they forgot about the appointment process for the Chair the last time it came around. They appear to have entirely forgotten that this is not a strange departure—

Eleanor Burnham *rose*—

Alun Pugh: I am sorry, but I need to make progress.

This is precisely the approach that the Liberal Democrats' Minister with responsibility for culture took when she was Minister; this is not a sacking, the role has changed, and there will be a full, open and independently supervised public appointment process.

The evidence base has been incomplete in the past. That is why it was necessary to get a full and detailed study not just of the nation, but at a statistically significant local authority level. This is the first time that we have had the evidence at this level of detail. We do not have the longitudinal evidence. Any rational approach to evidence will show the fact that people who live in socially deprived communities have not received their fair share. If you look at the evidence by art form—

Leanne Wood: Will you take an intervention?

Alun Pugh: Let me finish this point first.

If you look at it in terms of music, there is a strong socio-economic bias in favour of

Mae pobl yng Nghymru sydd am ddefnyddio'r celfyddydau wedi aros yn rhy hir o lawer i gael eu treftadaeth deg.

Huw Lewis: Yr ydych wedi taro'r hoelen ar ei phen. A gytunwch fod y gwrthbleidiau wedi anghofio'r ffaith nad Gweinidog dros sefydliad y celfyddydau ydych chi, ond Gweinidog sy'n cynrychioli pobl Cymru? Dyna pam y mae'r gwrthbleidiau'n siarad am broses, a ninnau'n siarad am gyfiawnder cymdeithasol.

Alun Pugh: Mae hynny'n gwbl deg. Mae'r gwrthbleidiau wedi anghofio nifer o bethau. Er enghraifft, anghofwyd y broses ar gyfer penodi Cadeirydd pan ddigwyddodd hynny ddiwethaf. Ymddengys eu bod wedi anghofio'n llwyr nad gwyriad rhyfedd yw hyn—

Eleanor Burnham *a gododd*—

Alun Pugh: Mae'n ddrwg gennyf, ond mae angen imi fynd ymlaen.

Dyma'r union ymagwedd a fabwysiadodd Gweinidog y Democratiaid Rhyddfrydol dros ddiwylliant pan oedd yn Weiniidog; nid achos o ddiswyddo yw hyn: mae'r rôl wedi newid, a bydd proses benodi gyhoeddus lawn ac agored dan oruchwyliaeth annibynnol.

Mae'r sylfaen dystiolaeth wedi bod yn anghyflawn yn y gorffennol. Dyna pam yr oedd angen gwneud astudiaeth lawn a manwl, nid o'r genedl yn unig, ond ar lefel awdurdod lleol a oedd yn bwysig yn ystadegol. Dyma'r tro cyntaf inni gael y dystiolaeth mor fanwl â hyn. Nid oes gennym y dystiolaeth arhydol. Bydd unrhyw ymagwedd resymol tuag at dystiolaeth yn dangos nad yw pobl sy'n byw mewn cymunedau cymdeithasol ddifreintiedig wedi cael eu cyfran deg. Os edrychwch ar y dystiolaeth fesul celfyddyd—

Leanne Wood: A wnewch dderbyn ymyriad?

Alun Pugh: Gadewch imi orffen y pwynt hwn yn gyntaf.

Os edrychwch arno o safbwynt cerddoriaeth, mae tuedd economaidd gymdeithasol gadarn

privileged communities, and it is the same for opera, ballet, contemporary dance, plays, classical music, jazz, and folk music, and slightly less for live music. The only area in terms of art forms that does not have a bias, as Val Lloyd said, is in the whole area of carnivals and street arts. Every other area has that consistent pattern emerging—socially deprived communities do not get their fair share.

Leanne Wood *rose*—

The Presiding Officer: Order. The Minister is coming to the end of his time, and I do not think that he is giving way.

Alun Pugh: I have to make progress.

Eleanor Burnham *rose*—

The Presiding Officer: Order. The Minister had six minutes plus injury time, and he now has 30 seconds.

Alun Pugh: The Tories want us to directly fund arts organisations when it suits them. Do you remember the debate about the national eisteddfod? We received calls from the Tory culture spokesman asking, ‘Why will you not give more money directly to the national eisteddfod and the national gallery?’ The list goes on. The Tories cannot reconcile those empty promises with their budgetary statements. I will wind up by saying—

Y Llywydd: Trefn. Galwaf am bleidlais ar welliant 1.

o blaid cymunedau breintiedig, ac mae’r un peth yn wir am opera, bale, dawnsio cyfoes, dramâu, cerddoriaeth glasurol, jazz, a cherddoriaeth werin, ac ychydig yn llai o ran cerddoriaeth fyw. Yr unig faes celfyddyd lle nad oes tuedd, fel y dywedodd Val Lloyd, yw’r holl faes carnifalau a chelfyddydau stryd. Ym mhob maes arall, mae patrwm cyson hwnnw yn amlwg—nid yw cymunedau cymdeithasol ddifreintiedig yn cael eu cyfran deg.

Leanne Wood *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Mae’r Gweinidog yn dod i ddiwedd ei amser, ac ni chredaf ei fod yn ildio.

Alun Pugh: Mae’n rhaid imi symud ymlaen.

Eleanor Burnham *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Yr oedd gan y Gweinidog chwe munud yn ogystal ag amser ychwanegol, ac mae ganddo 30 eiliad yn awr.

Alun Pugh: Mae’r Torïaid am inni ariannu sefydliadau’r celfyddydau yn uniongyrchol pan fydd yn gyfleus iddynt hwy. A ydych yn cofio’r ddadl am yr eisteddfod genedlaethol? Cawsom alwadau gan lefarydd diwylliant y Torïaid yn gofyn, ‘Pam na wnewch chi roi mwy o arian yn uniongyrchol i’r eisteddfod genedlaethol a’r oriel genedlaethol?’ Mae’r rhestr yn parhau. Ni all y Torïaid gysoni’r addewidion gwag hynny â’u datganiadau cyllidebol. Deuaf i ben drwy ddweud—

The Presiding Officer: Order. I call for a vote on amendment 1.

*Gwelliant 1: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 28.
Amendment 1: For 29, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Graham, William
 Isherwood, Mark
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Elin
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Jones, Laura Anne
 Law, Peter
 Lloyd, David
 Marek, John
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty
 Wood, Leanne

Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda

*Derbyniwyd y gwelliant
 Amendment carried.*

Motion NDM2817 as amended:

Cynnig NDM2817 fel y'i diwygiwyd:

1. yn cyfarwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad cyhoeddus yn ddi-oed o swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ac i atal, ar unwaith, bob gwaith sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'i pharatoadau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ariannu'n uniongyrchol Opera Cenedlaethol Cymru; Cerddorfa Genedlaethol Cymru; Diversions; Academi; Clwyd Theatr Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru hyd nes:

1. instructs the Welsh Assembly Government to immediately carry out a public review of the role of the Arts Council of Wales and to halt, forthwith, all work associated in any way with its preparations to take over responsibility for the direct funding of Welsh National Opera; National Orchestra of Wales; Diversions; Academi; Clwyd Theatr Cymru and Theatr Genedlaethol Cymru until:

a) bod ymgynghoriad cynhwysfawr wedi'i gynnal gyda phob parti sydd â diddordeb, a Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon i gytuno ar y telerau; a

a) a comprehensive consultation has been carried out with all interested parties, the terms of which to be agreed by the Culture, Welsh Language and Sport Committee; and

b) ei bod yn ceisio cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol drwy gyfrwng cynnig a gyflwynir gan y Trefnydd ym mis Rhagfyr 2006;

b) it seeks the approval of the National Assembly by a motion to be tabled by the Business Minister in December 2006;

2. supports the policy objective of raising participation levels in socially deprived communities in order to ensure that all communities in Wales benefit from public funding for the arts;

2. yn cefnogi'r amcan polisi o gynyddu lefelau cyfranogiad mewn cymunedau cymdeithasol ddifreintiedig er mwyn sicrhau bod pob cymuned yng Nghymru yn elwa o nawdd cyhoeddus i'r celfyddydau;

3. confirms the 'arm's-length principle' that politicians should not make decisions on artistic content;

3. yn cadarnhau'r 'egwyddor hyd braich' na ddylai gwleidyddion wneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â chynnwys artistig;

4. confirms the importance of democratic accountability in public funding relating to

4. yn cadarnhau pwysigrwydd atebolrwydd democrataidd ym maes nawdd cyhoeddus o

policy, governance and infrastructure.

ran polisi, llywodraethu a seilwaith.

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 29, Ymatal 0, Yn erbyn 28.

Amended motion: For 29, Abstain 0, Against 28.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.

Amended motion carried.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 5.34 p.m.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 5.34 p.m.

Dadl Fer Short Debate

Dyfodol Gofal Iechyd yn y Canolbarth a'r Gorllewin The Future of Healthcare in Mid and West Wales

Lisa Francis: I am pleased to offer Kirsty Williams, Elin Jones and Christine Gwyther time to contribute to this short debate.

Lisa Francis: Mae'n bleser gennyf gynnig amser i Kirsty Williams, Elin Jones a Christine Gwyther gyfrannu at y ddadl fer hon.

Earlier this week, over the border in England, the Secretary of State for Health, Patricia Hewitt, decided that she wanted more NHS services and facilities to be provided in the community. A White Paper was published setting out a vision of care and treatment

Yn gynharach yr wythnos hon, dros y ffin yn Lloegr, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Patricia Hewitt, ei bod am sicrhau bod mwy o wasanaethau a chyfleusterau GIG yn cael eu darparu yn y gymuned. Cyhoeddwyd Papur Gwyn yn

provided outside the costly setting of traditional acute hospitals. The Prime Minister said that this would represent a service fitted around the patient rather than the patient having to fit around the service.

Labour's election manifesto last May promised to develop

'a new generation of modern NHS community hospitals'

providing diagnostic services, surgery and out-patient facilities, as well as access to social services closer to where people live. The feedback that I receive from my electorate in Mid and West Wales suggests that that is exactly what people want to see developed.

Patricia Hewitt also said that community facilities should not be lost in response to 'short-term budgetary pressures' that are related to the viability of the community facility itself. Therefore, where England dares to go, will Wales follow? Will our Minister for Health and Social Services be taking a trip on the road to Damascus along with Ms Hewitt?

On 26 August, Minister, you visited Knighton Hospital and you said:

'Community Hospitals play a crucial role in providing local people with access to high-quality services as close to home as possible. This is a central theme in 'Designed for Life', our 10-year vision for creating a world-class health service in Wales'.

The 'Designed for Life' document states that local communities' concerns and priorities must be taken into account. The position paper, 'Building local, safe and sustainable services for Mid and West Wales: The Case for Change', says that it will focus on 'redesign, not relocation', offering high-quality alternatives, and expanding options for developing new services that meet local needs and expectations.

Over the course of the last month, the project

gosod allan weledigaeth o ofal a thriniaeth a ddarperir y tu allan i ysbytai aciwt traddodiadol costus. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai hyn yn cynrychioli gwasanaeth sy'n ymateb i'r claf yn hytrach na bod yn rhaid i'r claf ymateb i'r gwasanaeth.

Yr oedd maniffesto etholiad Llafur fis Mai y llynedd yn addo datblygu

cenhedlaeth newydd o ysbytai cymuned GIG modern

yn darparu gwasanaethau diagnostig, llawdriniaeth a chyfleusterau cleifion allanol, yn ogystal â defnyddio gwasanaethau cymdeithasol yn nes at gartrefi pobl. Mae'r ymateb a gaf gan fy etholwyr yn y canolbarth a'r gorllewin yn awgrymu mai dyna'n union y mae pobl am ei weld yn cael ei ddatblygu.

Dywedodd Patricia Hewitt hefyd na ddylid colli cyfleusterau cymunedol drwy ymateb i 'bwysau cyllidebol tymor byr' sy'n ymwneud â dichonoldeb y cyfleuster cymunedol ei hun. Felly, lle bydd Lloegr yn mentro, a fydd Cymru'n dilyn? A fydd ein Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynd ar daith ar y ffordd i Ddamascus ynghyd â Ms Hewitt?

Ar 26 Awst, Weinidog, wrth ymweld ag Ysbyty Trefyclo a dywedasoch:

Mae i Ysbytai Cymuned rôl hanfodol wrth roi cyfle i bobl leol ddefnyddio gwasanaethau o safon mor agos â phosibl i'w cartrefi. Mae hon yn thema ganolog yn 'Cynllun Oes', ein gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer creu gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf yng Nghymru.

Mae'r ddogfen 'Cynllun Oes' yn datgan bod yn rhaid ystyried pryderon a blaenoriaethau cymunedau lleol. Dywed y papur sefyllfa, 'Building local, safe and sustainable services for Mid and West Wales: The Case for Change', y bydd yn canolbwyntio ar 'ailgynllunio, nid adleoli', gan gynnig dulliau gwahanol o safon, ac ehangu dewsiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau newydd sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau lleol.

Dros y mis diwethaf, mae'r tîm prosiect ar

team for 'The Case for Change' drew up detailed proposals for consultation. These proposals have apparently been influenced by engagement meetings with staff and the public. Yesterday, I asked the First Minister what sort of engagement events had been held and how many there had been. Sadly, he chose not to answer this question directly; in fact, he did not even offer to find out. He just said that I had a talent for asking irrelevant questions. I am just one of the voices for my electorate; perhaps he thinks that they are also irrelevant.

What about the opinions of the community and the way in which people are engaged and asked about the future of their NHS services? In my experience, the public is often presented with glossy, blurb-type questionnaires, which conveniently state that such and such community hospital is the subject of a review because it is not providing services in an efficient way. Often, the figures presented in such documents, which disingenuously invite the public to 'have its say', can be challenged. For example, in the case of Tywyn Memorial Hospital in Gwynedd, the provision of inefficient services was attributed to low bed-occupancy rates and the provision of care for patients who required social care rather than health interventions. However, the figures taken were from a non-representative period of time when a hospital ward was shut and senior staff were moved into clinical nurse practitioner roles.

Figures and statistics can be manipulated to fit the required situation. The 2002 document, 'A Question of Balance', describes the most efficient bed occupancy as being 85 per cent. The all-Wales average is 77 per cent and, for 2004-05, Tywyn Memorial Hospital achieved 77 per cent. In fact, in this hospital, over a 12-month period, an 85 per cent occupancy rate, equated to one empty bed.

5.40 p.m.

The document inviting the public to have its say on the Gwynedd Local Health Board's review of Tywyn and Blaenau Ffestiniog

gyfer 'The Case for Change' wedi llunio cynigion manwl i ymgynghori arnynt. Mae'n debyg bod cyfarfodydd ymgysylltu â staff a'r cyhoedd wedi dylanwadu ar y cynigion hyn. Ddoe, gofynnais i'r Prif Weinidog pa fath o ddigwyddiadau ymgysylltu a gafwyd a faint ohonynt. Yn anffodus, dewisodd beidio ag ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol; mewn gwirionedd, ni chynigiodd ddod o hyd i'r wybodaeth hyd yn oed. Yr unig beth a ddywedodd oedd bod gennyf y ddawn o ofyn cwestiynau amherthnasol. Dim ond un o'r lleisiau ar ran fy etholwyr wyf i; efallai ei fod yn meddwl eu bod hwy hefyd yn amherthnasol.

Beth am safbwyntiau'r gymuned a'r ffordd yr ymgysylltir â phobl ac y gofynnir iddynt am ddyfodol eu gwasanaethau GIG? Yn fy mhrofiad i, cyflwynir holiaduron sgleiniog, llawn broliant i'r cyhoedd yn aml, sy'n dweud yn gyfleus fod ysbyty cymuned yn destun adolygiad oherwydd nad yw'n darparu gwasanaethau mewn ffordd effeithlon. Yn aml, gall y ffigurau a gyflwynir mewn dogfennau felly, sy'n gwahodd y cyhoedd yn ffuantus i 'leisio eu barn', gael eu herio. Er enghraifft, yn achos Ysbyty Coffa Tywyn yng Ngwynedd, priodolwyd y gwasanaethau aneffeithlon a ddarparwyd i gyfraddau isel o ddefnyddio gwelyau, a darparu gofal i gleifion a oedd ag angen gofal cymdeithasol yn hytrach nag ymyriadau iechyd. Fodd bynnag, yr oedd y ffigurau'n tarddu o gyfnod anghynrychioliadol pan gafodd ward ysbyty ei chau ac uwch aelodau o staff eu symud i wneud gwaith ymarferwyr nyrsio clinigol.

Gellir camddefnyddio ffigurau ac ystadegau yn ôl y sefyllfa ofynnol. Mae dogfen 2002, 'Cadw Cydbwysedd', yn nodi mai'r gyfradd fwyaf effeithlon o ddefnyddio gwelyau yw 85 y cant. Y cyfartaledd ar draws Cymru yw 77 y cant, ac ar gyfer 2004-05 cyrhaeddodd Ysbyty Coffa Tywyn 77 y cant. Mewn gwirionedd, yn yr ysbyty hwn, dros gyfnod o 12 mis, roedd cyfradd defnyddio gwelyau o 85 y cant yn cyfateb i un gwely gwag.

Yr oedd y ddogfen i wahodd y cyhoedd i leisio'u barn am adolygiad gsn Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd o ysbytai coffa Tywyn a

memorial hospitals kept mentioning a snapshot review, but no-one knew what this meant. What precise length of time was the snapshot referring to here: one day, one week, or one month? The document never reflected the fact that Tywyn hospital served six different post codes, or that the high attendance rates at the hospital over the summer months was due to the influx of tourists to the area, with increases of up to 30 per cent. No mention was ever made of the fact that the nearest district general hospital is over 31 miles away in Aberystwyth, or that Tywyn is in a geographically isolated position in terms of other hospital provision and locations.

What concerned me more than anything was that, despite the fine words set out in 'Designed for Life', there was no mention in the questionnaire sent to the public of what the actual needs of the population were. There was nothing that said that services needed to be more responsive to identified population priorities, namely older people, rural communities and children. In short, a whole-systems approach to meet the health and social needs of the population was missing. People felt that the consultation with the public was a token gesture and that the local health board had already reached its conclusion, namely that, due to increasing costs in service provision, beds at Tywyn needed to be axed.

Just before Christmas, the Pembrokeshire and Derwen NHS Trust wrote to me assuring me that 'The Case for Change' document for mid and west Wales was designed to appraise and inform the public of key issues, although it also said that it failed to see what the public could usefully add to this position paper. Who is the public after all? What would the public know about healthcare? It just uses the facilities. I am inclined to be sarcastic, of course.

For months, there has been a constant stream of reports about threatened cut-backs in hospital provision at Wityhush General Hospital. Understandably, the people served by these facilities in Pembrokeshire are

Blaenau Ffestiniog yn crybwyll adolygiad ciplun dro ar ôl tro, ond ni wyddai neb beth oedd ystyr hyn. At ba gyfnod o amser yn union yr oedd y ciplun yn cyfeirio: diwrnod, wythnos neu fis? Nid adlewyrchodd y ddogfen erioed fod Ysbyty Tywyn yn gwasanaethu chwe chod post gwahanol, na bod y cyfraddau mynychu uchel yn yr ysbyty dros fisoedd yr haf o ganlyniad i'r mewnlif o dwristiaid i'r ardal, gyda chynnydd o hyd at 30 y cant. Ni chrybwyllwyd y ffaith fod yr ysbyty cyffredinol dosbarth agosaf dros 31 milltir i ffwrdd yn Aberystwyth, neu bod Tywyn mewn sefyllfa ynysig yn ddaearyddol o ran darpariaeth ysbyty a manau eraill.

Yr hyn a oedd yn peri pryder i mi yn fwy na dim oedd na chrybwyllwyd yn yr holiadur a anfonwyd i'r cyhoedd beth oedd anghenion gwirioneddol y boblogaeth, er gwaethaf y geiriau teg yn 'Cynllun Oes'. Nid oedd dim i ddweud bod angen i wasanaethau fod yn fwy ymatebol i'r hyn a nodwyd fel blaenoriaethau'r boblogaeth, sef pobl hŷn, cymunedau gwledig a phlant. Yn fyr, yr oedd ymagwedd system gyfan tuag at ddiwallu anghenion iechyd a chymdeithasol y boblogaeth ar goll. Symbol yn unig oedd yr ymgynghori â'r cyhoedd ym marn y bobl, a chredid bod y bwrdd iechyd lleol eisoes wedi dod i'w gasgliad, sef, oherwydd costau cynyddol wrth ddarparu gwasanaethau, fod angen cwtogi nifer y gwelyau yn Nhywyn.

Ychydig cyn y Nadolig, ysgrifennodd Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ataf yn fy sicrhau bod y ddogfen 'The Case for Change' ar gyfer y canolbarth a'r gorllewin wedi'i chynllunio i arfarnu materion allweddol ac i roi gwybod i'r cyhoedd amdanynt, er iddi ddweud hefyd nad oedd yn gweld beth y gallai'r cyhoedd ei ychwanegu'n ddefnyddiol at y papur sefyllfa hwn. Pwy yw'r cyhoedd wedi'r cyfan? Beth fyddai'r cyhoedd yn ei wybod am ofal iechyd? Dim ond defnyddio'r cyfleusterau a wnânt. Yr wyf yn tueddu i fod yn goeglyd, wrth gwrs.

Am fisoedd, cafwyd llif cyson o adroddiadau ynglŷn â bygwth lleihau'r ddarpariaeth yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Yn ddigon naturiol, mae'r bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn yn sir Benfro yn pryderu

concerned by what the future holds for them. As it stands, Withybush hospital is an invaluable social resource with an exceptionally high reputation and high standard of facilities. There are extensive services available, among them departments for coronary health, palliative care, stroke treatments and chemotherapy.

It is undeniable, therefore, that Withybush hospital is able to deliver progress and quality healthcare in the Pembrokeshire area. However, the downgrading of vital services has already occurred. In 2004, gynaecology services at Withybush were severely decreased, and, more recently, there have been cuts in the high dependency unit, which have already resulted in the departure of two members of staff.

Above all, what really concerns me about all these reviews and consultations—call them what you will—on the efficiency of hospital services, is that they are designed and centred around an apparent reliance upon the much-banded-about ‘Designed for Life’ document. This is clearly not an action plan and is, therefore, unable to stand as an effective strategy when dealing with a specific case such as Withybush. Furthermore, it is the hospital’s unique location that makes it imperative that a full range of front-line services be kept open in the future. The geography of the area means that in frequently experienced harsh weather conditions, main transport links are severed and ambulances are physically unable to reach the nearest services at Swansea or Carmarthen. Even when these roads are fully navigable, as you will know, Minister, the route is both inefficient and time-consuming.

Later on, Minister, when you respond to this debate, I know that you are going to tell me that ‘Designed for Life’ is underpinned by tens of millions of pounds in a capital programme and that capital investment is required to change the way in which a community hospital operates in order for it to deliver better services for the community. Therefore, if you do not mind, I have just said that bit for you now, so you will not have to bother with it.

ynghylch eu dyfodol. Fel y mae, mae ysbyty Llwynhelig yn adnodd cymdeithasol amhriiadwy sydd ag enw eithriadol o dda a safon uchel o gyfleusterau. Mae gwasanaethau helaeth ar gael, ac yn eu plith adrannau ar gyfer iechyd y galon, gofal lliniarol, triniaethau strôc a chemotherapi.

Ni ellir gwadu felly fod ysbyty Llwynhelig yn gallu sicrhau cynnydd a gofal iechyd o safon yn ardal sir Benfro. Fodd bynnag, cwtogwyd eisoes ar wasanaethau hollbwysig. Yn 2004, cafodd gwasanaethau gynecoleg yn Llwynhelig eu lleihau’n sylweddol, ac yn fwy diweddar cafwyd toriadau yn yr uned dibyniaeth fawr, sydd eisoes wedi golygu bod dau aelod o’r staff wedi ymadael.

Yn anad dim, yr hyn sydd yn wir yn peri pryder imi ynglŷn â’r holl adolygiadau a’r ymgynghoriadau hyn—galwch hwy beth a fynnoch—o ran effeithlonrwydd gwasanaethau ysbyty, yw eu bod wedi’u cynllunio a’u canoli ar ddibyniaeth amlwg ar y ddogfen ‘Cynllun Oes’ sydd â chymaint o sôn amdani. Mae’n amlwg nad cynllun gweithredu yw’r ddogfen hon, felly ni all fod yn strategaeth effeithiol wrth ymdrin ag achos penodol fel Llwynhelig. At hynny, lleoliad unigryw’r ysbyty sy’n ei gwneud yn hanfodol i ystod lawn o wasanaethau rheng flaen barhau i gael eu cynnig yn y dyfodol. O ganlyniad i ddaearyddiaeth yr ardal, mae cyfnodau o dywydd garw sy’n digwydd yn aml yn effeithio ar y prif gysylltiadau cludiant ac na all cerbydau ambiwlans gyrraedd y gwasanaethau agosaf yn Abertawe a Chaerfyrddin. Hyd yn oed pan fydd yn bosibl teithio ar hyd y ffyrdd hyn yn ddiraffferth, fel y gwyddoch, Weinidog, mae’r daith yn aneffeithlon ac yn llafurus.

Yn nes ymlaen, Weinidog, pan fyddwch yn ymateb i’r ddadl hon, gwn y byddwch yn dweud wrthyf fod ‘Cynllun Oes’ wedi’i ategu gan ddegau o filoedd o bunnoedd mewn rhaglen gyfalaf, a bod angen buddsoddiad cyfalaf i newid y ffordd y mae ysbyty cymuned yn gweithredu er mwyn iddo ddarparu gwell gwasanaethau i’r gymuned. Felly, os nad oes gwahaniaeth gennych, yr wyf newydd ddweud hynny ar eich rhan, felly, ni fydd angen ichi drafferthu.

However, I would like you to respond today, if you would be so obliging, to a quote by your colleague Val Lloyd. She said to you before Christmas:

‘If the proposals in “Designed for Life”...are to be a success,’—

and clearly you believe that they will be—

‘it is very important that there is public engagement and consultation that provides factual and correct information on the benefits to be gained’.

What does this mean to the people who we all represent? It means not sending out glossy ill-researched questionnaires that are scanty on obvious and factual detail. It means not allowing local health boards carte blanche to pay private consultants exorbitant sums of money to chalk-up their observations into grids on blackboards in village halls, which are not big enough to write your name and telephone number on.

I am asking you today to respect people and to listen properly to their opinions, to record those opinions and to act upon them. This is not about the micro-management of the health service, but about telling health boards and NHS trusts to really start listening to the heartbeat of the people whom they serve, you serve, and whom we all serve.

Kirsty Williams: I thank Lisa for tabling the debate, and for allowing me to contribute. In the six years that I have been here, I do not think that I have said to the Government that it should look across the border and copy something that England was doing just for the sake of it. However, the agenda put forward by Patricia Hewitt on community services and community hospitals is one that we can embrace here.

My constituency of Brecon and Radnorshire would be in a prime position to deliver such a service, but in recent months I have attended too many meetings where subjects such as

Fodd bynnag, hoffwn ichi ymateb heddiw, os byddwch cystal â gwneud hynny, i ddyfyniad gan eich cyd-Aelod Val Lloyd. Dywedodd hi wrthyfych cyn y Nadolig:

Er mwyn i'r cynigion yn “Cynllun Oes”....fod yn llwyddiant,’—

ac yr ydych yn amlwg yn meddwl y byddant yn llwyddiant —

mae'n bwysig iawn ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i roi gwybodaeth ffeithiol a chywir am y buddiannau a ddaw.

Beth y mae hyn yn ei olygu i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli? Mae'n golygu peidio ag anfon holiaduron sgleiniog atynt sydd heb eu hymchwilio'n ddigonol ac sy'n brin o fanylion amlwg a ffeithiol. Mae'n golygu peidio â rhoi rhyddid llwyr i fyrddau iechyd lleol dalu symiau enfawr i ymgynghorwyr preifat fynegi eu sylwadau mewn neuaddau pentref mewn gridiau ar fyrddau duon nad ydynt yn ddigon mawr i ysgrifennu eich enw a'ch rhif ffôn arnynt.

Yr wyf yn gofyn heddiw ichi barchu pobl a gwrando'n iawn ar eu barn, cofnodi'r farn honno a gweithredu arni. Nid oes a wnelo hyn â microreoli'r gwasanaeth iechyd, ond dweud wrth fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG am ddechrau gwrando o ddifrif ar y bobl maent hwy'n eu gwasanaethu, yr ydych chi'n eu gwasanaethu, ac yr ydym ni oll yn eu gwasanaethu.

Kirsty Williams: Hoffwn ddiolch i Lisa am gyflwyno'r ddadl, ac am ganiatáu imi gyfrannu. Yn y chwe blynedd es imi fod yma, nid wyf yn credu imi ddweud wrth y Llywodraeth y dylai edrych dros y ffin a dyblygu rhywbeth yr oedd Lloegr yn ei wneud dim ond er mwyn dyblygu. Fodd bynnag, mae'r agenda a gyflwynwyd gan Patricia Hewitt ar wasanaethau cymunedol ac ysbytai cymuned yn un y gallwn ei dilyn yma.

Byddai fy etholaeth i, Brycheiniog a Sir Faesyfed, mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu gwasanaeth felly. Ond yn ystod y misoedd diwethaf yr wyf wedi bod mewn

ward closures and the inability to replace vital diagnostic equipment, such as ultrasound scanning machines, have been constant sources of angst and desperation among GPs, other clinicians and patients. It is with trepidation that I go to see my LHB again this Friday, because I simply do not know what it will tell me next. What I do know is that it is an institution in financial crisis, and that that crisis is undermining the confidence that the practitioners and the public have in the service.

Elin Jones: Diolch i Lisa Francis am gyflwyno'r ddadl bwysig hon. Yn yr ystadegau diweddaraf ar restrau aros yng Ngheredigion, gwelir bod 100 yn fwy o bobl yn disgwyl am driniaeth ysbyty nag yn y rhestr flaenorol. Felly, mae dros 1,800 yn disgwyl am driniaeth ysbyty. Er hynny, mae'r GIG yn cau hanner ward triniaethau yn Ysbyty Bronglais gan nad oes arian ar gael ar gyfer triniaethau ychwanegol. Y realiti, felly, yw fod nifer y bobl ag arnynt angen triniaeth ysbyty yn cynyddu yng Ngheredigion, ond bod y ward sy'n darparu'r driniaeth honno yn cau gwelyau. Mae llai o welyau ar gyfer pobl sy'n aros am ben-glin neu glun newydd, ac mae'r bobl hyn mewn poen. Credaf fod blaenoriaeth polisi'r Llywodraeth hon yn y man anghywir. Mae dau gwango, sy'n costio £4 miliwn i'w rhedeg, yn dal yn gyfrifol am y gwasanaeth iechyd yng Ngheredigion, ond yr ydym yn gweld wardiau'n cael eu cau yn Ysbyty Bronglais.

Christine Gwyther: Thank you, Lisa, for allowing me to contribute. I want to concentrate my remarks on Pembrokeshire and Derwen NHS Trust and Withybush District General Hospital. The perception in Pembrokeshire is that our health service is in crisis. Staff morale is very low indeed, and there is a fear that any review will have a negative impact on Withybush hospital. Public fears might be unfounded, and, of course, I hope that they are. Lisa mentioned the high dependency unit in Withybush hospital, which is now back up to speed. It should never have been put under any financial strictures, but it was. Two new obstetric and gynaecological clinicians have been recruited to work in Withybush hospital.

gormod o gyfarfodydd lle mae pynciau megis cau wardiau a methu prynu offer newydd yn lle offer diagnostig hanfodol, megis peiriannau sganio uwchsain, yn gyson wedi peri ing ac anobaith ymhlith meddygon teulu, clinigwyr eraill a chleifion. Yr wyf yn teimlo'n anniddig ynghylch mynd i weld fy mwrdd iechyd lleol unwaith eto ddydd Gwener yma, oherwydd yn syml nid wyf yn gwybod beth fyddant yn ei ddweud wrthyf nesaf. Yr hyn a wn yw eu bod yn sefydliad sydd mewn argyfwng ariannol, a bod yr argyfwng hwnnw'n tanseilio hyder yr ymarferwyr a'r cyhoedd yn y gwasanaeth.

Elin Jones: I thank Lisa Francis for introducing this important debate. In the latest waiting list statistics for Ceredigion, we see that 100 more people are waiting for in-patient treatment than on the previous list. Therefore, there are more than 1,800 people waiting for in-patient treatment. Despite that, the NHS has closed half the surgical ward at Ysbyty Bronglais as there is no money available for additional operations. The reality, therefore, is that the number of people in need of in-patient treatment in Ceredigion is increasing, but the ward where that treatment is provided is closing beds. There are fewer beds available for people who are waiting for new knees or hips, and those people are in pain. I believe the Government's policy priorities are misplaced. Two quangos are still responsible for running the health service in Ceredigion, at a cost of £4 million, but we see wards being closed at Ysbyty Bronglais.

Christine Gwyther: Diolch, Lisa, am ganiatáu imi gyfrannu. Hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ac Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Llwynhelyg. Y canfyddiad yn Sir Benfro yw bod ein gwasanaeth iechyd mewn argyfwng. Mae morâl staff yn isel iawn, ac ofnir y bydd unrhyw adolygiad yn cael effaith negyddol ar ysbyty Llwynhelyg. Efallai nad oes sail i ofnau'r cyhoedd, ac wrth gwrs, yr wyf yn gobeithio nad oes. Crybwyllodd Lisa yr uned dibyniaeth fawr yn ysbyty Llwynhelyg, sydd bellach yn gweithio i'r eithaf eto. Ni ddylid bod wedi gosod unrhyw gyfyngiadau ariannol arno o gwbl, ond gwnaed hynny. Mae dau glinigydd obstetrig a gynaecologol wedi eu recriwtio i

weithio yn ysbyty Llwynhelyg.

However, to take the health agenda forward in Pembrokeshire, we urgently need a new chief executive and a trust chair who understands the county's problems and who will stick up for us. I am asking you, Minister, to sort out the leadership vacuum in the health service in Pembrokeshire, and we will be fit to meet any challenge that you present to us.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): I thank Lisa for tabling the debate. Clearly, securing the future of vital healthcare services for people in Mid and West Wales is a priority for the Assembly Government. In the debate that we had in November on 'Designed for Life', all parties told the Assembly Government of the need to introduce substantial changes in long-term health and social care in Wales, including in Mid and West Wales. That is what we are committed to doing.

In the same debate, the National Assembly Plenary instructed the Welsh Assembly Government to review the effectiveness of NHS structures, and asked it to take immediate and radical steps to improve the state of the health service. That is what we are doing in order to ensure that there is safe and sustainable service delivery in Mid and West Wales. We are committed to making the radical changes that the Assembly asked us to make. Simply defending the status quo has a cost. That cost is to the future of our NHS here in Wales and to the patients who rely on that service in Mid and West Wales and in Wales as a whole.

5.50 p.m.

Over the last two years alone, we have seen an increase in resources to Mid and West Wales of something of the order of 25 per cent, which is to be greatly welcomed. Across all of Mid and West Wales between 1999 and 2004, the total increase in whole-time equivalent staff was of the order of 16 per cent, with a 15 per cent increase in non-

Fodd bynnag, er mwyn datblygu'r agenda iechyd yn Sir Benfro, mae angen prif weithredwr a chadeirydd newydd ar yr ymddiriedolaeth sy'n deall problemau'r sir ac a fydd yn ein cefnogi, a hynny ar fyrder. Yr wyf yn gofyn ichi, Weinidog, ddatrys y bwlch mewn arweiniad sydd yng ngwasanaeth iechyd Sir Benfro, ac yna byddwn mewn sefyllfa i ateb unrhyw her a gyflwynwch.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Hoffwn ddiolch i Lisa am gyflwyno'r ddadl. Yn amlwg, mae sicrhau dyfodol gwasanaethau gofal iechyd hanfodol i bobl yn y canolbarth a'r gorllewin yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad. Yn y ddadl a gawsom ym mis Tachwedd ar 'Cynllun Oes', dywedodd pob plaid wrth Lywodraeth y Cynulliad fod angen newidiadau sylweddol mewn iechyd a gofal cymdeithasol hirdymor yng Nghymru, gan gynnwys y canolbarth a'r gorllewin. Dyna yr ydym wedi ymrwmo i'w wneud.

Yn yr un ddadl, cyfarwyddodd Cyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu effeithiolrwydd strwythurau'r GIG, a gofynnodd iddi gymryd camau radical, ar unwaith, i wella cyflwr y gwasanaeth iechyd. Dyna yr ydym yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaeth diogel a chynaliadwy yn cael ei ddarparu yn y canolbarth a'r gorllewin. Yr ydym wedi ymrwmo i wneud y newidiadau radical y gofynnodd y Cynulliad inni eu gwneud. Mae cost ynghlwm wrth amddiffyn y sefyllfa sydd ohoni. Mae a wnelo'r gost honno â dyfodol ein GIG yma yng Nghymru a'r cleifion sy'n dibynnu ar y gwasanaeth hwnnw yn y canolbarth a'r gorllewin ac yng Nghymru gyfan.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn unig, yr ydym wedi gweld cynnydd o ryw 25 y cant mewn adnoddau yn y canolbarth a'r gorllewin, a dylid croesawu hynny'n fawr. Ar draws y canolbarth a'r gorllewin rhwng 1999 a 2004, bu cynnydd o 16 y cant yn nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn, a chynnydd o 15 y cant yn nifer y staff anfeddygol a 27 y

medical staff and a 27 per cent increase in medical staff. In many areas, this has produced outcomes that are as good as any in Wales. Indeed, it is very pleasing to see that despite a reduction of one bed in gynaecology in Withybush, performance has been maintained. As Christine Gwyther has said, the high dependency unit is operating to full effectiveness and the number of operations that have been cancelled in Withybush because of HDU beds not being available has been very few indeed.

There are no patients waiting over 12 months for in-patient or day-case treatment in any hospital in the Mid and West Wales region, uniquely in recent times. For out-patient treatment, fewer than 100 patients are waiting over 12 months in Pembrokeshire and Derwen NHS Trust and Ceredigion NHS Trust combined. Surely this is not the dire situation that we have heard about from some of the speakers in this debate. In terms of accident and emergency waits, the departments in Carmarthenshire, Pembrokeshire and Derwen and Ceredigion trusts are delivering the 95 per cent target, and it has been exceeded on many occasions. The most recent monthly figures show that the average is 94 per cent. Again, that is an excellent performance by the NHS and is an excellent tribute to the professionalism and dedication of the staff who are delivering such a high-quality service.

Linked to that is a range of major capital schemes, amounting to over £20 million in areas such as Glangwili, Pembroke Dock, Bronglais and Tenby, with more approvals in the pipeline and coming forward over the next few years. When we look at primary care services, we can see the performance that is being delivered in key areas such as the quality and outcomes framework, and 24-hour access to primary care service. The overall level of performance in south-west Wales is as good as that in any other part of Wales. These achievements are evidence of the Assembly Government and the NHS's commitment to quality services, but most of all they are a tribute to the quality of care and the commitment and dedication of the staff working in those areas.

cant yn nifer y staff meddygol. Mewn llawer ardal, mae hyn wedi rhoi canlyniadau sydd cystal ag unrhyw rai yng Nghymru. Yn wir, mae'n galonogol iawn gweld, er bod un gwely yn llai yn yr uned gynaeoleg yn Llwynhelyg, bod y perfformiad wedi ei gynnal. Fel y dywedodd Christine Gwyther, mae'r uned dibyniaeth fawr yn gweithredu i'w llawn effeithiolrwydd, a nifer fach o lawdriniaethau sydd wedi eu canslo yn Llwynhelyg am nad oedd gwelyau UDU ar gael.

Nid oes unrhyw gleifion yn aros dros 12 mis am driniaeth cleifion mewnol neu driniaeth achosion dydd mewn unrhyw ysbyty yn y canolbarth a'r gorllewin, sy'n unigryw yn ddiweddar. Ar gyfer triniaeth cleifion allanol, mae llai na 100 o gleifion yn aros dros 12 mis yn Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ac Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion gyda'i gilydd. Nid dyna'r sefyllfa resynus yr ydym wedi clywed amdani gan rai o'r siaradwyr yn y ddadl hon, does bosib. O ran amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, mae'r adrannau yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Derwen a Cheredigion yn cyrraedd y targed o 95 y cant, ac mae wedi rhagori arno droeon. Dengys y ffigurau misol diweddaraf mai 94 y cant yw'r cyfartaledd. Unwaith eto, mae hynny'n berfformiad gwych gan y GIG ac yn deyrnged wych i broffesiynoldeb ac ymroddiad y staff sy'n darparu gwasanaeth o safon mor uchel.

Yn gysylltiedig â hynny mae amrywiaeth o gynlluniau cyfalaf mawr, sy'n rhoi cyfanswm o dros £20 miliwn mewn ardaloedd megis Glangwili, Doc Penfro, Bronglais a Dinbych-y-pysgod, gyda mwy o gymeradwyaethau yn yr arfaeth ac i ddod yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Pan edrychwn ar wasanaethau gofal sylfaenol, gallwn weld y perfformiad sy'n digwydd mewn meysydd allweddol megis y fframwaith ansawdd a chanlyniadau, a gallau cael gwasanaeth gofal sylfaenol 24 awr y dydd. Mae'r perfformiad cyffredinol yn y de-orllewin cystal ag unrhyw ran arall o Gymru. Mae'r cyflawniadau hyn yn dystiolaeth o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad a'r GIG i ddarparu gwasanaethau o safon. Ond yn bennaf oll maent yn deyrnged i ansawdd gofal ac ymrwymiad ac ymroddiad y staff sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn.

Glyn Davies: I was interested to hear you talk about services in Mid and West Wales, but many people who live in Mid and West Wales depend on services outside of Wales. While you talk about the waiting times and access to those services, what we are seeing is a huge threat and long waits outside, because we are not financing proper access to those services outside of Wales. It seems to me that you are passing over this without touching on that huge problem.

Brian Gibbons: If we look at the most problematic area, for example, the number of patients waiting, in the Powys LHB area, just over 150 patients were waiting at the end of December. That is a remarkable achievement and I hope that you will join me in congratulating NHS staff in Powys, Bronglais, and over the border in England, on delivering such excellent short waiting times. Those are probably record short waiting times, and I am sure that you would be glad to congratulate the NHS staff on achieving them.

When we look at Mid and West Wales, we see levels of service that are as good as those in any other part of Wales, but the quality and the sustainability of these services are being compromised by inefficiencies in the service. That is leading to severe financial pressures, not necessarily replicated consistently across the region, but in individual communities. These inefficiencies mean that resources are not going to deliver increased quality and standards of care. If we look across the region, we see some of the lowest levels of delayed transfer of care and some of the highest. We can see waiting list management that is among the very best in Wales and among some of the worst. We can see some of the best performance in terms of accident and emergency waits and some of the worst.

Equally, we see some of the best and worst performance in terms of the number of those who do not attend out-patient and in-patient

Glyn Davies: Yr oedd yn ddiddorol eich clywed yn siarad am wasanaethau yn y canolbarth a'r gorllewin, ond mae llawer o bobl sy'n byw yn y canolbarth a'r gorllewin yn dibynnu ar wasanaethau y tu allan i Gymru. Tra ydych chi'n siarad am amseroedd aros a gallu cael y gwasanaethau hynny, yr hyn yr ydym ni'n ei weld yw bygythiad enfawr ac amseroedd aros hir y tu allan, am nad ydym yn ariannu mynediad priodol i'r gwasanaethau hynny y tu allan i Gymru. Ymddengys i mi eich bod yn edrych ar hyn heb gyffwrdd â'r broblem enfawr honno.

Brian Gibbons: Os edrychwn ar y maes mwyaf problematig, er enghraifft, nifer y cleifion sy'n aros, yn ardal BIL1 Powys, yr oedd ychydig dros 150 o gleifion yn aros ar ddiwedd mis Rhagfyr. Mae hynny'n ffigur rhyfeddol, a gobeithio y byddwch yn ymuno â mi i longyfarch staff y GIG ym Mhowys, Bronglais, a thros y ffin yn Lloegr, am sicrhau amseroedd aros byr sydd mor wych. Mae'n bosibl fod yr amseroedd aros byr hynny'n record, ac yr wyf yn siŵr y byddech yn croesawu'r cyfle i longyfarch staff y GIG am hynny.

Pan edrychwn ar y canolbarth a'r gorllewin, gwelwn lefelau gwasanaeth sydd cystal ag mewn unrhyw ran arall o Gymru. Ond mae ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaethau hyn yn cael eu peryglu oherwydd aneffeithlonrwydd y gwasanaeth. Mae hynny'n arwain at bwysau ariannol difrifol, nad ydynt i'w gweld yn gyson ar draws y rhanbarth o reidrwydd, ond mewn cymunedau unigol. Golyga'r aneffeithlonrwydd hwn na fydd adnoddau'n darparu gwell ansawdd a safonau gofal. Os edrychwn ar draws y rhanbarth, gwelwn rai o'r lefelau isaf o oedi wrth drosglwyddo gofal a rhai o'r uchaf. Gallwn weld enghreifftiau o reoli amseroedd aros sydd ymhlith y gorau yng Nghymru ac weithiau ymhlith y gwaethaf. Gallwn weld enghreifftiau o'r perfformiad gorau o ran amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, a rhai o'r gwaethaf.

Yn yr un modd, gwelwn rai o'r lefelau gorau a gwaethaf mewn perfformiad o ran nifer y bobl nad ydynt yn cadw apwyntiadau cleifion

appointments. We see high levels of the use of bank and agency nursing and also some of the lowest. The rates of cancelled operations are just as variable. This uneven performance is obviously compromising the patient experience and is leading to inefficiencies and waste in the way in which the NHS is operating.

The solution to this is not to throw more money to reward underperformance, but to engage with the clinical communities to analyse their problems and to work with them to deliver solutions. This is why 'Designed for Life' is so important. I am pleased to see that Patricia Hewitt has decided to pursue the principles that we outlined in 'Designed for Life' six or nine months ago, namely that services should be delivered as close to people's homes as possible and, if people have to travel, that they do so in the knowledge that it is dictated by clinical governance and the sustainability of the service.

Kirsty Williams: Will you take an intervention?

Brian Gibbons: If I have time at the end, Kirsty, I will let you in.

It is pleasing to see that the policy encapsulated in 'Designed for Life' is being replicated in Scotland, and we are glad to see that Patricia Hewitt is taking the same principles to heart in England as those operating in Wales. This is why the process in the Mid and West Wales region for determining the future of healthcare is being taken forward. As Lisa said, a project board has been formed, and this board is there to secure the greater involvement of key stakeholders in helping to shape the service for the future.

The NHS in the Mid and West Wales region has sought to engage with all key stakeholders and the public since the publication of 'Designed for Life'. Indeed, some of my officials have gone to many meetings, which have been attended by more than 3,000 people in Mid and West Wales, explaining 'The Case for Change'. This set out and sought comments on the reasons why

allanol a chleifion mewnol. Gwelwn ddefnyddio nyrsys cronfa a nyrsys asiantaeth yn helaeth a hefyd y defnydd isaf. Mae cyfraddau llawdriniaethau sy'n cael eu canslo yr un mor amrywiol. Mae'r perfformiad anwastad hwn yn amlwg yn peryglu profiad y claf ac yn achosi aneffeithlonrwydd a gwastraff yn y modd y mae'r GIG yn gweithredu.

Yr ateb i hyn yw peidio â thafllu mwy o arian i wobrwyo tanberfformiad, ond i ymgysylltu â'r cymunedau clinigol i ddadansoddi eu problemau a gweithio gyda hwy i ddarparu atebion. Dyma pam mae 'Cynllun Oes' mor bwysig. Yr wyf yn falch gweld bod Patricia Hewitt wedi penderfynu mabwysiadu'r egwyddorion a amlinellwyd gennym yn 'Cynllun Oes' chwe neu naw mis yn ôl, sef y dylid darparu gwasanaethau mor agos â phosibl i gartrefi pobl, ac os yw'n rhaid i bobl deithio, eu bod yn gwneud hynny gan wybod mai llywodraethu clinigol a chynaliadwyedd y gwasanaeth sy'n gyfrifol am hynny.

Kirsty Williams: A dderbyniwch ymyriad?

Brian Gibbons: Os bydd gennyf amser ar y diwedd, Kirsty, fe dderbyniaf ymyriad.

Mae'n galonogol gweld bod y polisi a gynhwysir yn 'Cynllun Oes' yn cael ei ddyblygu yn yr Alban, ac yr ydym yn falch gweld bod Patricia Hewitt yn mabwysiadu'r un egwyddorion yn Lloegr ag sy'n cael eu gweithredu yng Nghymru. Dyma pam y mae'r yn y canolbarth a'r gorllewin ar gyfer pennu dyfodol gofal iechyd yn symud ymlaen. Fel y dywedodd Lisa, sefydlwyd bwrdd prosiect, ac mae'r bwrdd hwn yn bodoli i sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn chwarae rhan fwy amlwg yn y gwaith o helpu llunio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r GIG yn y canolbarth a'r gorllewin wedi ceisio ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol a'r cyhoedd ers cyhoeddi 'Cynllun Oes'. Yn wir, mae rhai o'm swyddogion wedi mynychu sawl cyfarfod, lle yr oedd dros 3,000 o bobl yn y canolbarth a'r gorllewin yn bresennol, i esbonio 'The Case for Change'. Yr oedd yr adroddiad hwn yn gosod allan y rhesymau pam mae angen newid yn y

change is needed in Mid and West Wales to maintain and sustain the high quality services that people receive. This engagement is essential to underpin the case for change and 'Designed for Life'. There have been meetings and presentations to community health councils, regional medical advisory committees and other groups and organisations. The public was invited to participate fully in this debate and to give their views.

As Lisa mentioned, a series of stakeholder events was held in Mid and West Wales in January. In those meetings, more than 300 people were invited to participate, and my understanding is that, over three days, well over 100 people took part—a real exercise in practical engagement. Similar examples of this level of engagement occur in the debate and dialogue surrounding Tywyn hospital and Blaenau Ffestiniog, where more than 1,000 people were engaged with the local health board at various stages in the debate and discussions that took place over that service redesign. Contrary to what Lisa said, the local health board did not steamroll its proposals through; it listened to the debate and modified the initial proposals quite substantially.

Elin Jones: You mentioned community hospitals, and Patricia Hewitt, in her announcement, declared a moratorium on the closure of community hospitals for the purposes of saving money. Will you declare a similar moratorium on local health boards in Wales not to close community hospitals for the sake of saving money?

The Deputy Presiding Officer: Minister, before you reply, just to be helpful, it is 15 minutes to the second.

Brian Gibbons: How much time have I got left?

The Deputy Presiding Officer: You have until the clock reaches 15 minutes, so you have five minutes left—less about three seconds now.

Brian Gibbons: No community hospital will close in Wales if it continues to meet the needs of its health community. Services that

canolbarth a'r gorllewin i gynnal y gwasanaethau o safon y mae pobl yn eu cael, gan ofyn am sylwadau arnynt. Mae'r ymgysyllti hwn yn hanfodol i ategu'r ddadl dros newid a 'Cynllun Oes'. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynghorau iechyd cymuned, pwyllgorau cynghori meddygol rhanbarthol a grwpiau a sefydliadau eraill, a rhoddwyd cyflwyniadau iddynt. Gwahoddwyd y cyhoedd i gymryd rhan lawn yn y ddadl hon ac i roi eu barn.

Fel y crybwyllodd Lisa, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid yn y canolbarth a'r gorllewin ym mis Ionawr. Yn y cyfarfodydd hynny, gwahoddwyd dros 300 o bobl i gymryd rhan, ac o'r hyn a ddeallaf, dros dri diwrnod gwnaed hynny gan ymhell dros 100 o bobl—ymarfer gwirioneddol mewn ymgysylltu ymarferol. Ceir enghreifftiau tebyg o'r lefel hon o ymgysylltu yn y ddadl a'r drafodaeth ynghylch ysbytai Tywyn a Blaenau Ffestiniog, lle yr ymgysylltodd dros 1,000 o bobl â'r bwrdd iechyd lleol ar wahanol adegau yn y ddadl a'r trafodaethau ar ailgynllunio'r gwasanaeth. Yn groes i'r hyn a ddywedodd Lisa, ni orfododd y bwrdd iechyd lleol ei gynigion; gwrandawodd ar y ddadl a diwygiodd y cynigion cychwynnol gryn dipyn.

Elin Jones: Yr oeddech yn crybwyll ysbytai cymuned, ac yn natganiad Patricia Hewitt, dywedodd fod cau ysbytai cymuned er mwyn arbed arian yn cael ei ohirio. A fyddwch yn gorfodi byrddau iechyd lleol yng Nghymru i ohirio cau ysbytai cymuned er mwyn arbed arian?

Y Dirprwy Lywydd: Weinidog, cyn ichi ymateb, i'ch helpu, mae'n 15 munud i'r eiliad.

Brian Gibbons: Faint o amser sydd gennyf ar ôl?

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennych nes i'r cloc gyrraedd 15 munud, felly mae gennych bum munud ar ôl—tua thair eiliad yn llai erbyn hyn.

Brian Gibbons: Ni fydd yr un ysbyty cymuned yng Nghymru yn cau os yw'n parhau i ddiwallu anghenion ei gymuned

are being delivered in antiquated out-of-date hospitals, such as those that we see in many parts of Wales, will be replaced by new buildings, and we look forward to capital bids from health communities across Wales to do precisely that. As the First Minister said in the Assembly last week, the inheritance and the legacy that we have from the Victorian era is certainly not always fit for purpose in the twenty-first century, but the challenge for all of us here is to deliver a service that is fit for the twenty-first century, and is not preserving in aspic something from almost a century and a quarter ago.

6.00 p.m.

The project team has been engaged so that, during January, it has been able to get strong feedback from a wide range of public opinion. Hopefully, in April, it will issue the outcome of its deliberations for full public consultation. The project board is due to meet on 6 February to review and confirm the outcomes of consultation, and to agree the consultation process.

Lisa Francis: Will you give way?

Brian Gibbons: I do not have time now, Lisa.

On 27 February, the project board will approve the final draft of the consultation document and that will need to be ratified by the NHS trusts and local health boards across the regions through public meetings.

The formal consultation process will then start in April and it will take place in each community throughout the region. Although there will be a regional plan, consultation will be taken forward in each specific locality. We intend to secure the necessary clinical and public engagement for NHS services for the future in the Mid and West Wales region by creating services that are of continuing high quality but which are also sustainable and which deliver uniform high quality across the board.

The National Assembly welcomed 'Designed

iechyd. Bydd adeiladau newydd yn cael eu codi yn lle ysbytai hen ffasiwn, megis y rhai a welwn mewn llawer rhan o Gymru, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau, ac edrychwn ymlaen at gynigion cyfalaf gan gymunedau iechedd ledled Cymru i wneud hynny. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf, nid yw'r hyn yr ydym wedi ei etifeddu o oes Victoria yn sicr yn addas bob amser at y diben yn yr unfed-ganrif-ar-hugain. Ond yr her sy'n wynebu pob un ohonom yma yw darparu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer yr unfed-ganrif-ar-hugain, nid cadw rhywbeth sydd yma ers yn agos i ganrif a chwarter.

Mae tîm y prosiect wedi'i ymgysylltu ac o'r herwydd, yn ystod mis Ionawr, mae wedi gallu cael ymateb cryf gan ystod eang o farn gyhoeddus. Gobeithio, ym mis Ebrill, y bydd yn cyflwyno canlyniad ei drafodaethau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Mae bwrdd y prosiect yn bwriadu cyfarfod ar 6 Chwefror i adolygu a chadarnhau canlyniadau'r ymgynghoriad, a chytuno ar y broses ymgynghori.

Lisa Francis: A ildiwch?

Brian Gibbons: Nid oes gennyf amser yn awr, Lisa.

Ar 27 Chwefror, bydd bwrdd y prosiect yn cymeradwyo drafft terfynol y ddogfen ymgynghori, a bydd angen iddi gael ei dilysu gan ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechedd lleol ar draws y rhanbarthau drwy gyfarfodydd cyhoeddus.

Yna bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ym mis Ebrill ac yn digwydd ym mhob cymuned ar draws y rhanbarth. Er y bydd cynllun rhanbarthol, bydd yr ymgynghori'n symud ymlaen ym mhob ardal benodol. Bwriadwn sicrhau'r ymgysylltu clinigol a chyhoeddus angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau'r GIG yn y dyfodol yn y canolbarth a'r gorllewin drwy greu gwasanaethau sy'n dal o safon uchel, ond sydd hefyd yn gynaliadwy ac yn sicrhau ansawdd uchel cyffredinol benbaladr.

Croesawodd y Cynulliad Cenedlaethol

for Life' as the framework for real improvement in the NHS in Wales. We support this particular strategy and we are committed to working with the people and clinicians in Mid and West Wales to make these changes happen.

Lisa Francis: On the Mid and West Wales 'The Case for Change' consultation, how are the opinions of the public who attend meetings being recorded, and how will they be used? It seems to me, from other experiences that I have had in the past, that it is a shady area.

Brian Gibbons: I do not know how far back into the past you want to go, but the Assembly has only been in existence for six years. If you want to go back prior to 1999 and 1997, I would agree with you that there has been some pretty shady consultation. However, if we are committed to redesigning the national health service in Wales, we realise that that service simply will not work; we will not be able to deliver the quality and sustainability if we do not engage with the public and clinicians. It is simply not sustainable to think that we can ride roughshod over local public opinion and clinicians' opinion, because the public are the people who have to use the service, just as it is the clinicians, doctors, nurses, porters, therapists who deliver the care. If we cannot sign those up to the 'Agenda for Change', then nothing will happen.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

'Cynllun Oes' fel y fframwaith ar gyfer gwelliant gwirioneddol yn y GIG yng Nghymru. Cefnogwn y strategaeth benodol hon, ac yr ydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r bobl a'r clinigwyr yn y canolbarth a'r gorllewin i ddarparu'r newidiadau hyn.

Lisa Francis: O ran yr ymgynghori ar 'The Case for Change' a gynhelir yn y canolbarth a'r gorllewin, sut y caiff barn y cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd ei chofnodi, a sut y caiff ei defnyddio? Ymddengys i mi, o brofiadau eraill yr wyf wedi eu cael yn y gorffennol, fod hyn yn faes ansicr.

Brian Gibbons: Ni wn pa mor bell yn ôl yr ydych am fynd, ond dim ond ers chwe blynedd y mae'r Cynulliad mewn bodolaeth. Os ydych am fynd yn ôl cyn 1999 ac 1997, byddem yn cytuno â chi fod ychydig ymgynghori yn ddigon amheus. Fodd bynnag, os ydym yn ymrwymo i ailgynllunio'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, sylweddolwn na fydd y gwasanaeth hwnnw'n gweithio; ni fyddwn yn gallu sicrhau'r ansawdd a'r cynaliadwyedd os na fyddwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd a chlinigwyr. Nid yw'n gynaliadwy credu y gallwn anwybyddu barn gyhoeddus leol a barn clinigwyr, oherwydd y cyhoedd yw'r bobl sy'n gorfod defnyddio'r gwasanaeth, a'r clinigwyr, y meddygon, y nyrsys, y porthorion a'r therapyddion sy'n darparu'r gofal. Os na allwn sicrhau cefnogaeth y bobl hynny i'r 'Agenda ar gyfer Newid', yna ni fydd dim yn digwydd.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.02 p.m.
The meeting ended at 6.02 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)

Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Essex, Sue (Llafur – Labour)
 Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Law, Peter (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Pugh, Alun (Llafur – Labour)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)